



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

Adolygiad Arbenigol o  
Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru 2015



# Cydnabyddiaethau:

Rwy'n ddiolchgar i'r Athro Gaynor Kavanagh, Adrian Babbidge a Peter Gomer, sef y tri aelod o Banel yr Adolygiad Arbenigol, am eu sylwadau unigol a'u hymrwymiad i safonau uchel ym mhob agwedd ar y gwaith. At hynny, datblygodd yr Athro Gaynor Kavanagh ein syniadaeth ar y fframwaith sicrhau ansawdd newydd ar gyfer amgueddfeydd yn ogystal â chyfleu'r weledigaeth ar gyfer y sector a lluniodd Adrian Babbidge lawer o bapurau cefndir sy'n ymdrin â chyllid, niferoedd ymwelwyr ac opsiynau ar gyfer newid. Bu'r cyfraniadau gwerthfawr hyn yn hanfodol i'r broses adolygu a'i llwyddiant.

Mae'r Panel Arbenigol hefyd wedi gwerthfawrogi cyfraniadau pob un o'r unigolion a'r grwpiau sydd wedi rhoi tystiolaeth a gwybodaeth ac mae'n ddiolchgar i Lesley-Anne Kerr, Carol Whittaker a Karen Willans o'r Is-Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd o Lywodraeth Cymru, am eu cyfraniad pwysig a'u cymorth sefydliadol.

Dr Haydn E Edwards

Cadeirydd yr Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru

Y llun ar y clawr: Amgueddfa Abertawe

© Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

# Cynnwys

Rhagair	2
Crynodeb o'r Argymhellion	3
Cyflwyniad	4
Pennod 1: Cefndir Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru	6
Pennod 2: Y Dystiolaeth	22
Pennod 3: Gwerthuso	39
Pennod 4: Argymhellion a Gweledigaeth	48
Llyfryddiaeth Detholedig	59

## Atodiadau:

A. Cylch Gorchwyl	64
B. Manylion y Panel Arbenigol	68
C. Rhestr o Gyfranwyr	69
Ch. Amgueddfeydd Achrededig yng Nghymru	72

## Rhagair

Mae amgueddfeydd awdurdodau lleol wedi darparu gwasanaeth pwysig a gwerthfawr i'w cymunedau. Mae gan yr amgueddfeydd hyn, a sefydlwyd yn bennaf yn ystod "oes aur" yn y 1970au a'r 1980au, rai casgliadau pwysig ac fe'u cefnogir gan staff ymroddedig. Mae rhwydwaith o amgueddfeydd ledled Cymru yn rhan o sector diwylliannol ehangach, sy'n cynnwys Amgueddfa Cymru, Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac amgueddfeydd annibynnol. Mae'r amgueddfeydd a'r adeiladau hanesyddol hyn yn elfennau pwysig o'n bywyd diwylliannol ac addysgol ac maent yn cyfrannu at yr economi drwy eu rôl mewn twristiaeth ac yn cefnogi lles ein cymunedau. Mae eu casgliadau yn rhan o'n hanes lleol a chenedlaethol.

Mewn oes lle mae amgueddfeydd newydd yn cael eu hagor ledled y byd, rydym ni yng Nghymru yn gweld gostyngiadau mewn cyllidebau. Bydd hyn yn arwain yn y pen draw at oriau agor byrrach, casgliadau nad ydynt yn cael eu datblygu, taliadau yn cael eu cyflwyno ar gyfer rhai gwasanaethau, lleihad mewn niferoedd staff, arddangosfeydd yn cael eu cwtogi a llawer o arwyddion eraill o wasanaethau sydd dan bwysau a fydd yn arwain yn anochel at gau amgueddfeydd.

Yn ystod cyfnod o bwysau ariannol mae ymatebion sylfaenol ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus er mwyn cynnal a diogelu gwasanaethau, gan gynnwys yr angen i osod y gwasanaeth ar gontract allanol, masnacheiddio a chodi arian o ffynonellau amgen. Mae ymatebion eraill yn cynnwys ailasesu gwasanaeth gan gynnwys ei drosglwyddo, o bosibl, o'r sector cyhoeddus a nodi cynulleidfaoedd newydd. Ystyrir rhai o'r opsiynau hyn, a llawer mwy, yn yr adroddiad hwn ond mae'n amlwg nad oes un ateb cyffredinol i'r heriau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau yng nghyllid y sector cyhoeddus.

Mae'r adroddiad yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd y sector amgueddfeydd lleol a hoffai'r Panel Arbenigol weld y sector

amgueddfeydd yn ffynnu ac yn datblygu. Fodd bynnag, mae angen gwneud llawer o newidiadau ar fyrder er mwyn i ni osgoi dirywiad anochel rhannau o'r sector hwn neu'r posibilrwydd y byddant yn diflannu hyd yn oed.

Yn ystod yr adolygiad, rydym wedi casglu tystiolaeth gan amrywiaeth eang o gynrychiolwyr rhanddeiliaid ac mae ein cyfweiliadau yn ogystal â'r ddau gyfarfod â'r sector wedi bod yn rhannau pwysig o'r broses adolygu. Mae data empeiraidd, lle roedd ar gael, wedi'u defnyddio i lywio ein gwaith dadansoddi sy'n arwain wedyn at asesu'r opsiynau gwahanol sydd ar gael ar gyfer creu sector cadarnach. Rydym yn credu'n gryf, ar hyn o bryd, y dylai llywodraeth leol benderfynu beth fydd yn digwydd i'w hamgueddfeydd yn y dyfodol agos ac y dylai Llywodraeth Cymru roi'r cyd-destun a darparu'r amgylchedd er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaeth ei uwchraddio ar raddfa fawr.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r materion rydym wedi penderfynu eu bod yn flaenoriaeth i awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill. Bydd y broses o'u rhoi ar waith yn cefnogi rhai o gasgliadau dau adroddiad arall a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru – sef adroddiad Andrews ar ddiwylliant a thlodi ac adroddiad Smith ar y celfyddydau ac addysg.

Yr her sy'n gysylltiedig ag unrhyw adolygiad o'r math hwn yw sicrhau cydbwysedd rhwng yr hyn a ddylai ddigwydd a'r hyn sy'n bosibl. Rydym yn mawr obeithio bod y ddau yn cydfynd â'i gilydd yn yr adroddiad hwn a, thrwy roi'r argymhellion a'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol ar waith, y sefydlir y sylfeini ar gyfer sector amgueddfeydd newydd cadarn a ffyniannus sy'n cael cefnogaeth dda.

Dr Haydn Edwards,  
Cadeirydd yr Adolygiad Arbenigol o  
Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru

# Argymhellion

1. Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, greu tri Chorff Rhanbarthol i roi arweiniad gweithredol i amgueddfeydd a ddarperir yn lleol, eu rheoli a'u cefnogi.
2. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Cyngor Amgueddfeydd cenedlaethol er mwyn darparu arweinyddiaeth gyfunol a gweithgareddau cydgyssylltiedig yn genedlaethol ar gyfer y sector amgueddfeydd.
3. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Siarter Amgueddfeydd er mwyn pennu disgwyliadau ar gyfer amgueddfeydd cyhoeddus yng Nghymru a'r gofyniad i fesur eu cynnydd a'r safonau a gyrhaeddwyd.
4. Dylai Awdurdodau Lleol, wrth adolygu eu gwasanaethau amgueddfeydd, ystyried pob opsiwn gan gynnwys cadw'r system bresennol, trosglwyddo i fodel cyflawni amgen neu gau a dylent wneud hyn mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru.
5. Dylai Llywodraeth Cymru roi mesurau ar waith i sefydlu Casgliadau Cymru a fydd yn rhesymoli, yn datblygu ac yn diogelu casgliadau sy'n bwysig i hanes a diwylliannau Cymru.
6. Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu eraill a chyrff yn y sector gydweithio er mwyn nodi pa sgiliau sydd angen eu datblygu er mwyn cefnogi'r gweithlu yn ystod y cyfnod pontio ac ar ôl hynny, er mwyn iddo allu llwyr fodloni gofynion Siarter yr Amgueddfeydd a datblygu'r sgiliau hynny.
7. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa drawsnewid er mwyn hwyluso'r newidiadau mawr sydd eu hangen yn y sector amgueddfeydd yng Nghymru.
8. Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â chyrff llywodraethu amgueddfeydd, adolygu'r polisi a'r arfer o godi tâl am fynediad i amgueddfeydd ac, ar sail yr adolygiad hwn, ddarparu canllawiau.
9. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y caiff amgueddfeydd a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol ryddhad rhag Ardrethi Annomestig Cenedlaethol ar yr un sail ag amgueddfeydd a weithredir gan elusennau.
10. Dylai Gweinidogion Cymru fod yn ffurfiol gyfrifol am gefnogi a datblygu pob amgueddfa gyhoeddus yng Nghymru.



Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-Pysgod  
© Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru



# Cyflwyniad

## Cefndir yr Adolygiad

1. Diffinnir amgueddfeydd<sup>1</sup> yng Nghymru gan eu casgliadau o dystiolaeth berthnasol o brofiad dynol a'r byd naturiol a'r astudiaeth o'r ddau drwy lygad yr arlunydd. Maent yn cadw tystiolaeth sy'n dangos pam mae Cymru yn wlad greadigol, yn ogystal â'i chyfraniad at y byd a hanesion ehangach.

2. Mae'r amgueddfeydd hyn yn perthyn i dri grŵp cyffredinol, sef:

- amgueddfeydd cenedlaethol sy'n dod o dan fantell Amgueddfa Cymru, a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru;
- amgueddfeydd lleol, a weithredir ac a ariennir gan awdurdodau lleol;
- amgueddfeydd lleol<sup>2</sup> annibynnol, a gymhorthdelir weithiau gan awdurdodau lleol.

3. Nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau amgueddfeydd - maent yn ddewisol. Serch hynny, mae 20 o'r 22 o gynghorau sir yn ariannu rhyw fath o ddarpariaeth amgueddfeydd.

4. Ar hyn o bryd, mae'r cyd-destun ar gyfer darparu gwasanaethau gan lywodraeth leol yng Nghymru yn newid. Mae gostyngiadau sylweddol mewn cyllid yn cael cryn effaith ar amgueddfeydd, sydd weithiau yn arwain at ganlyniadau difrifol iawn. Cyn hir bydd llywodraeth leol yn cael ei had-drefnu a'i diwygio. Felly, mae'n briodol cynnal adolygiad o amgueddfeydd lleol nawr.

## Comisiynu Adolygiad Arbenigol

5. Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth y câi Adolygiad Arbenigol ei gomisiynu, ac iddo ddau ddiben penodol sef:

- adolygu'r newidiadau arfaethedig gan awdurdodau lleol i ddarpariaeth amgueddfeydd lleol o fis Ebrill 2014;
- nodi modelau cynaliadwy o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, a fydd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a gynigir drwy gydweithredu, partneriaeth ac arloesi.

6. Ceir y Cylch Gorchwyl llawn yn Atodiad 1.

7. Penododd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Banel Arbenigol, a gadeirir gan Dr Haydn E Edwards, Is-Lywydd Amgueddfa Cymru. Roedd y Panel yn cynnwys Adrian Babbidge o Egeria Consultancy, yr Athro Gaynor Kavanagh, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, a Peter Gomer, Swyddog Polisi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ceir manylion bywgraffyddol cryno aelodau'r Panel yn Atodiad 2. Cynorthwyodd is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru y Panel gyda'i waith.

<sup>1</sup> Yn yr adroddiad hwn i gyd, defnyddir y term amgueddfa i gynnwys orielau celf sy'n cyflawni swyddogaethau casglu a dysgu.

<sup>2</sup> Ystyrir bod lleol, yn y cyd-destun hwn, yn cwmpasu pob amgueddfa annibynnol, sydd hefyd yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â chymunedau buddiant penodol, er enghraifft amgueddfeydd Catrodol.

## Gwaith y Panel

8. Rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Mai 2015, cyfarfuom ddeg gwaith, pan wnaethom gyfweld 20 o gynrychiolwyr o 10 corff gwahanol. Er ein bod yn canolbwyntio ar amgueddfeydd awdurdodau lleol, gwnaethom hefyd ystyried sampl gynrychioliadol o amgueddfeydd lleol annibynnol ac edrych ar rôl Amgueddfa Cymru. Fel rhan o'r ymgynghoriad, cynhaliwyd dau gyfarfod rhanbarthol, yng Nghyffordd Llandudno a Merthyr Tudful, a fynychwyd gan gyfanswm o 61 o gynadleddwyr. Cafwyd 29 o gyflwyniadau ysgrifenedig. At hynny, ystyriwyd tystiolaeth a ddarparwyd yn 2014 gan 21 o awdurdodau lleol. Rhestrir y cyfranwyr yn Atodiad 3.

9. Defnyddiwyd amrywiaeth eang o adroddiadau ac astudiaethau annibynnol ar y sector, gan gynnwys y rhai a gomisiynwyd gan yr awdurdodau lleol eu hunain ar ddyfodol eu hamgueddfeydd a'r rhai a gynhaliwyd gan Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru. Hefyd, defnyddiwyd amrywiaeth eang o ddata ar amgueddfeydd at ddibenion cymharu, a'n gwybodaeth helaeth ein hunain am amgueddfeydd ledled y byd i lywio ein barn a chynnig safbwynt ar amgueddfeydd awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhestrir ein ffynonellau yn y llyfryddiaeth.



Amgueddfa Abergavenny  
© Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

# Pennod 1: Cefndir Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru

10. Mae adolygiad o'r math hwn yn gofyn am ddealltwriaeth o gefndir y ddarpariaeth bresennol. Er mwyn gwneud hyn, gwnaethom ddychwelyd at hanfodion absoliwt, gan gynnwys yr hyn sy'n diffinio amgueddfa fel amgueddfa a chasglu data sylfaenol ar gyllid a swyddogaeth. Mae'r canlynol yn crynhoi ein canfyddiadau.

## Diffiniadau

11. Deöllir y diffiniad o amgueddfa a ddatblygwyd gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd yn 1998 yn eang o fewn y sector, ond i raddau llai y tu allan iddo. Mae'n nodi:

**'Mae amgueddfeydd yn galluogi pobl i archwilio casgliadau i gael ysbrydoliaeth, i ddysgu ac i gael mwynhad. Sefydliadau ydynt sy'n casglu, yn diogelu ac yn cynnig mynediad i weld arteffactau ac enghreifftiau, y maent yn eu dal mewn ymddiriedolaeth ar ran cymdeithas'**

12. Er mwyn cael ei ystyried yn amgueddfa, dylai fod gan sefydliad holl nodweddion allweddol y diffiniad hwn. Mae'r nodweddion hyn yn cael eu datblygu ymhellach gan y Cynllun Achredu Amgueddfeydd yn y DU ac yn ategu Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Amgueddfeydd yng Nghymru.<sup>3</sup> Disgrifir y broses achredu yn fanylach ym mhennod 2 (paragraffau 46 – 49).

## Amgueddfeydd yng Nghymru

13. Dywedir yn aml fod darpariaeth amgueddfeydd lleol yn y DU yn seiliedig ar ymrwymadau a wnaed yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan oedd amgueddfeydd weithiau yn cael eu hystyried yn ddarpariaeth bwysig ar gyfer hyfforddi crefftwyr a chodi statws cynghorau trefi a dinasoedd a oedd yn datblygu. Yng Nghymru, yr amgueddfa gyntaf oedd Sefydliad Brenhinol De Cymru, Amgueddfa Abertawe bellach, a sefydlwyd yn 1846, ac erbyn y 1860au roedd Cyngor Caerdydd yn dechrau casgliad amgueddfa. Aeth Corfforaeth y Trallwng yn gyfrifol am Amgueddfa Powysland ar 1 Ionawr 1888, ac yn yr un flwyddyn sefydlwyd Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd fel rhan o Lyfrgell ac Amgueddfa Ddi-dâl a ariannwyd gan Gyngor.

14. Mae awdurdodau lleol wedi llywio twf darpariaeth amgueddfeydd yng Nghymru, gyda nifer y gwasanaethau amgueddfeydd a ddarperir gan awdurdodau lleol yn cynyddu o 12 yn 1967<sup>4</sup> i 45 yn 2011.<sup>5</sup> Felly, erbyn hyn awdurdodau lleol yw prif ariannwr amgueddfeydd lleol ac maent yn rhoi cyllid refeniw gwerth oddeutu £9.3 miliwn<sup>6</sup> yn uniongyrchol ar gyfer darparu gwasanaethau amgueddfeydd lleol.

15. Mae Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif, erbyn hyn, fod tua 160 o sefydliadau lleol neu ranbarthol yng Nghymru y gellid, yn yr ystyr fwyaf cyffredinol, eu disgrifio fel amgueddfa.

<sup>3</sup> *Strategaeth Amgueddfeydd Cymru* (Llywodraeth Cymru 2010)

<sup>4</sup> *Y Comisiwn Sefydlog ar Amgueddfeydd ac Oriolau Survey of Provincial Museums & Galleries* (Llyfrfa Ei Mawrhydi 1967) Atodiad C

<sup>5</sup> *Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011* (Llywodraeth Cymru 2013) tud9


<sup>6</sup> *Revenue Outturn Forms, Local Government Finance Statistics 2013-14* (Llywodraeth Cymru 2014. Heb ei gyhoeddi)



O'r rhain, gallai tua 120 o bosibl ateb diffiniad Cymdeithas yr Amgueddfeydd o amgueddfa, ac mae 98 (gan gynnwys saith amgueddfa Amgueddfa Cymru<sup>7</sup>) yn cymryd rhan yn y Cynllun Achredu Amgueddfeydd ym mis Mai 2015.<sup>8</sup> O'r rhain, mae 44<sup>9</sup> yn cael eu rheoli'n uniongyrchol, neu'n cael cyllid craidd, gan awdurdod lleol.

16 Yn 2011, roedd cyfanswm gweithlu'r amgueddfeydd yng Nghymru tua 3435 o bobl, a oedd yn cynnwys 1317 o staff cyflogedig a 2118 o wirfoddolwyr.<sup>10</sup> Dengys Ffigurau 1 a 2 y cyfrannau ar gyfer gweithlu amgueddfeydd Cymru gyfan a gweithlu'r amgueddfeydd lleol yn y drefn honno.

**Ffigur 1: Cyfran y gwirfoddolwyr a'r staff cyflogedig yn amgueddfeydd Cymru.<sup>11</sup>**



*Ffynhonnell: Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011 (Llywodraeth Cymru 2013)*

<sup>7</sup> Mae saith safle Amgueddfa Cymru wedi'u Hachredu'n unigol.


<sup>8</sup> Rhoddir y rhestr lawn o amgueddfeydd Achrededig yng Nghymru yn Atodiad 4.

<sup>9</sup> Amgueddfeydd Achrededig unigol yw'r rhain, yn hytrach na gwasanaethau amgueddfeydd.

<sup>10</sup> *Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011 (Llywodraeth Cymru 2013) tud74*

<sup>11</sup> Diffinnir y term proffesiynol fel unrhyw weithiwr sydd ag o leiaf bum mlynedd o brofiad mewn amgueddfa, cymhwyster perthnasol ac ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

**Ffigur 2: Cyfran y gwirfoddolwyr a'r staff cyflogedig yn amgueddfeydd lleol<sup>12</sup>**



*Ffynhonnell: Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011 (Llywodraeth Cymru 2013)*

17. Yn draddodiadol mae gwirfoddolwyr wedi helpu i ddarparu gwasanaethau amgueddfeydd yn y sector awdurdodau lleol a'r sector annibynnol. Maent yn ychwanegu gwerth at waith staff proffesiynol mewn amgueddfeydd awdurdodau lleol ac yn ffurfio 88% o weithlu'r amgueddfeydd annibynnol.


18. Mae amgueddfeydd llwyddiannus yn dibynnu ar argaeledd amrywiaeth eang o sgiliau ac arbenigedd ond mae sgiliau curadurol a chadwraethol yn benodol iawn i

amgueddfeydd ac yn hanfodol i ddatblygu a deall casgliadau a gofalu amdanynt.

19. Dengys Ffigur 3 gyfran y gweithlu ar draws pob amgueddfa sy'n cyflawni rolau curadurol a chadwraethol fel cyfran o'r gweithlu cyfan ac, mewn cymhariaeth, dengys Ffigur 4 y cyfrannau mewn amgueddfeydd lleol yn unig. Mae rolau eraill yn y ffigurau hyn yn cynnwys arbenigwyr ym maes addysg a dysgu, mynediad, blaen y tŷ a rheoli.


<sup>12</sup> Nid yw'n cynnwys Amgueddfa Cymru na'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n sefydliadau cenedlaethol ac nas cwmpeisir gan yr adolygiad.

**Ffigur 3: Rolau curadurol a chadwraethol fel cyfran o gyfanswm gweithlu'r amgueddfeydd**



*Ffynhonnell: Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011 (Llywodraeth Cymru 2013)*

**Ffigur 4: Rolau curadurol a chadwraethol fel cyfran o gyfanswm gweithlu amgueddfeydd lleol<sup>12</sup>**




*Ffynhonnell: Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011 (Llywodraeth Cymru 2013)*

<sup>12</sup> Nid yw'n cynnwys Amgueddfa Cymru na'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n sefydliadau cenedlaethol ac nas cwmpesir gan yr adolygiad.

20. Dengys Ffigur 5 y dadansoddiad o'r gweithlu sy'n lleol sy'n cyflawni rolau curadurol a chadwraethol rhwng gwirfoddolwyr a staff cyflogedig. Ers 2011, mae lefelau staffio wedi gostwng am fod arbedion a wnaed drwy beidio â llenwi swyddi gwag wedi'u defnyddio i ariannu toriadau i gyllidebau.

21. Yn ogystal â gwirfoddolwyr, mae'r rhan fwyaf o'r amgueddfeydd hefyd yn cael cymorth gan 7000 o bobl eraill drwy grwpiau Cyfeillion Amgueddfeydd, grwpiau â diddordeb arbennig a chyrff aelodaeth eraill. Mae'r cymorth hwn yn amrywio o ddarparu anerchiadau arbenigol i godi ymwybyddiaeth o amgueddfeydd ac ymgyrchoedd codi arian.

**Ffigur 5: Cyfrannau'r gwirfoddolwyr a'r staff cyflogedig sy'n cyflawni rolau curadurol a chadwraethol mewn amgueddfeydd lleol<sup>12</sup>**



*Ffynhonnell: Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011 (Llywodraeth Cymru 2013)*

<sup>12</sup> Nid yw'n cynnwys Amgueddfa Cymru na'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n sefydliadau cenedlaethol ac nas cwmpeisir gan yr adolygiad.



## Amgueddfa Cymru

22. Bu cydberthynas hir rhwng Amgueddfa Cymru ag amgueddfeydd lleol yng Nghymru ers lansio ei chynllun ymgysylltu yn 1923 a oedd yn fodd i sefydlu trefniadau cydweithio ffurfiol, nes iddo ddod i ben yn y 1980au. Darparai Amgueddfa Cymru arbenigedd a hyfforddiant ym maes curaduriaeth a chytunai amgueddfeydd lleol i ofalu am gasgliadau, eu gwarchod a'u cofrestru'n briodol. Anogwyd Amgueddfa Cymru i roi benthyciadau i'r amgueddfeydd lleol ac fel arall.

23. Tra oedd nifer yr amgueddfeydd cysylltiedig yn parhau'n fach (13 yn 1924) gweithiodd y cynllun yn dda, ond yn sgil y cynnydd yn nifer yr amgueddfeydd lleol a welwyd o'r 1970au nid oedd modd ei reoli mwyach. Ymgorfforwyd llawer o'i swyddogaethau yng Nghyngor Amgueddfeydd Cymru (a sefydlwyd yn 1965 o dan nawdd Amgueddfa Cymru) a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru, a grëwyd yn 1975. Mae adroddiadau blaenorol wedi cyfeirio at 'shadow of the National', gyda'i 'umbrella providing welcome shade' ond yn cysgodi amgueddfeydd lleol rhag y 'sun and rain'.<sup>13</sup>

24. Heddiw, ystyrir ar y cyfan fod Amgueddfa Cymru yn gydweithredwr hael a brwdfrydig. Mae cynlluniau megis Cyfoeth Cymru Gyfan<sup>14</sup> a ariennir gan Lywodraeth Cymru, wedi gwneud llawer i ddileu unrhyw rwystrau a fodolai ac mae cysylltiadau ar bob lefel wedi cryfhau dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2010, defnyddiodd 73% o amgueddfeydd lleol wasanaethau a ddarparwyd gan Amgueddfa Cymru.<sup>15</sup>

25. Mae gan amgueddfeydd cenedlaethol ac amgueddfeydd lleol berthynas gyddibynnol. Mae gan Amgueddfa Cymru gasgliadau na ellir eu hefelychu'n lleol,

a staff arbenigol. Mae gan amgueddfeydd lleol gasgliadau sy'n ymgorffori deunydd o bwys cenedlaethol ond sy'n bwysig i'w cymunedau lleol yn bennaf, y mae ganddynt gysylltiadau cryf â hwy yn aml. Felly, er bod gan Amgueddfa Cymru ac amgueddfeydd lleol gryfderau gwahanol, maent yn rhannu cyfleoedd tebyg, yn arbennig o ran ffyrdd creadigol ac arloesol o ymdrin â'r heriau a wynebir gan y ddau ohonynt. Mae llawer o gyfleoedd iddynt ddysgu oddi wrth ei gilydd a helpu ei gilydd.

## Amgueddfeydd Annibynnol

26. Mae nifer o gynghorau sir yn rhoi cymorth ariannol yn uniongyrchol i amgueddfeydd annibynnol. Dim ond mewn ychydig o achosion y mae'r cymorth a ddarperir ar ffurf cyllid craidd, y mae ei lefel, ar y cyfan, wedi aros yn ddigyfnawid neu wedi gostwng dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae rhai amgueddfeydd yn cael grantiau bach (llai na £2k fel arfer) yn rheolaidd gan gynghorau sir a / neu gymuned. Mae ychydig o gynghorau sir, megis Conwy, yn rhoi cymorth datblygu i amgueddfeydd annibynnol yn eu meysydd gweinyddol. Yn 2010, roedd o leiaf 76 o amgueddfeydd yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol neu yn cael cymorth o ryw fath gan awdurdodau lleol.

27. Mae'r amgueddfeydd annibynnol hynny sy'n elusennau yn cael budd o ryddhad gorfodol ar gyfradd o 80% o'r Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (a elwir hefyd yn ardrethi busnes) ar y safleoedd a feddiennir ganddynt. Telir costau'r ardrethi hyn o'r gronfa ardrethi genedlaethol. Gall cynghorau lleol roi rhyddhad dewisol ar ran o'r 20% arall neu'r swm cyfan, ond telir y gost hon bron i gyd o'u cyllidebau. Amcangyfrifir nad yw cyfanswm budd y rhyddhad dewisol hwn i amgueddfeydd annibynnol yng Nghymru yn fwy na £50k y flwyddyn.<sup>16</sup>

<sup>13</sup> Morris, Yr Athro B., Y Comisiwn Sefydlog ar Amgueddfeydd ac Oriolau *Report on Museums in Wales* (Llyfrfa Ei Mawrhydi 1981)

<sup>14</sup> *Cyfoeth Cymru Gyfan: Y Gorffennol a'r Dyfodol* (Llywodraeth Cymru 2011)

<sup>15</sup> *Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011* (Llywodraeth Cymru 2013) tud98

<sup>16</sup> Yn seiliedig ar werthoedd ardrethadwy 2010 Asiantaeth y Swyddfa Briso.

28. Lleolir rhai amgueddfeydd annibynnol ar safleoedd awdurdodau lleol, naill ai fel yr unig feddiannydd neu gan rannu cyfleusterau â gwasanaethau cyngor (e.e. llyfrgell) a / neu grwpiau cymunedol eraill. Yn gyffredinol, codir rhent sydd islaw gwerth y safle ar y farchnad ar gyfer defnydd o'r fath neu caniateir i'r amgueddfeydd ddefnyddio'r safle ar sail gras a ffafr. Yn achos cyfleusterau a rennir, fel arfer mae'r cyngor yn talu costau gwaith atgyweirio a chyfleustodau (sy'n cyfateb i tua £75k y flwyddyn), a cheir hefyd y gost cyfle<sup>17</sup> i'r awdurdod sy'n gysylltiedig â defnyddio'r safle fel lleoliad i amgueddfa.

29. Mae nifer o enghreifftiau o gymorth mewn nwyddau i amgueddfeydd annibynnol, gan gynnwys secondio staff a darparu staff blaen tŷ. Nid yw pob gymorth o'r fath yn amlwg ac ni chaiff cost lawn cyfleustodau, gwaith cynnal a chadw tiroedd a gwasanaethau eraill ei throsglwyddo bob amser o awdurdodau lleol i'r amgueddfa.

30. Mae cymorth o'r fath yn arbennig o agored i gael ei dorri yn ystod cyfnod o bwysau ariannol, naill ai am fod cynghorau lleol yn aml yn ystyried mai eu blaenoriaeth yw diogelu eu gwasanaethau mewnol eu hunain yn hytrach na'r rhai a ddarperir gan sefydliadau eraill yn y gymuned, neu fel niwed cyfochrog a achosir gan newidiadau mewn polisi (er enghraifft, rhoi'r gorau'n llwyr i roi rhyddhad ardrethi dewisol a chynlluniau rheoli asedau er mwyn adennill y gost lawn ar eiddo'r cyngor) yn ogystal â strategaethau i realeiddio gwerthoedd asedau adeiladau.

31. Gall newidiadau o'r fath effeithio'n gyflym ar amgueddfeydd annibynnol a, lle mae cydberthynas yn un anffurfiol neu heb ei dogfennu, gallent fod yn ddinistriol, hyd yn oed pan fydd egwyddorion Cynllun

Trydydd Sector (2014)<sup>18</sup> Llywodraeth Cymru wedi'u mabwysiadu gan gyngor lleol. Lle y ceir trefniadau anffurfiol, dylent fod wedi'u diffinio gan gytundebau ffurfiol cyfrwymol a chynnwys (lle y bo'n berthnasol) sicrwydd deiliadaeth a chyfnodau rhybudd digonol.

## Fframwaith deddfwriaethol ar gyfer amgueddfeydd yng Nghymru

### Llywodraeth Cymru

32. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer cyffredinol i wneud unrhyw beth sy'n briodol i gefnogi amgueddfeydd ac orielau yng Nghymru,<sup>19</sup> yn eu barn hwy, ochr yn ochr â phwerau tebyg ar gyfer llyfrgelloedd, archifau a chofnodion hanesyddol.

### Awdurdodau Lleol

33. Gall cynghorau sir yng Nghymru, ond nid cynghorau cymuned, arfer pwerau sy'n ymwneud ag amgueddfeydd, er nad oes unrhyw ddiffiniad statudol o'r term amgueddfa, ond nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny.<sup>20</sup> Mae'r pwerau hyn yn eang eu cwrpas ac yn galluogi cynghorau i wneud 'unrhyw beth sy'n angenrheidiol neu'n fuddiol' mewn perthynas â darparu eu hamgueddfeydd neu eu cynnal a'u cadw, gan gynnwys:

- darparu a chynnal a chadw amgueddfeydd, boed hynny yn eu hardal(oedd) eu hunain, neu unrhyw le yng Nghymru a Lloegr, ar eu pen eu hunain, neu ar y cyd â chynghorau eraill;
- codi tâl am fynediad i'r amgueddfeydd a ddarperir ganddynt, gan sicrhau, wrth wneud hynny, y gall yr amgueddfeydd hynny chwarae rhan lawn ym maes addysg yn eu hardal, yn arbennig o ran plant a myfyrwyr;

<sup>17</sup> Gwerth y defnydd amgen gorau y gellid ei wneud o'r safle hwnnw.

<sup>18</sup> *Cynllun y Trydydd Sector* (Llywodraeth Cymru 2014)

<sup>19</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a 61 (f)

<sup>20</sup> Deddf Llywodraeth Leol 1972 a 206 a Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a 1

- cefnogi amgueddfeydd a redir gan gyrff eraill;<sup>21</sup>
- darparu safleoedd ar renti rhad / nominal;<sup>22</sup>
- rhoi rhyddhad dewisol ar Ardrethi Annomestig Cenedlaethol yn ychwanegol at y rhyddhad gorfodol o 80% a roddir i elusennau.<sup>23</sup>

34. Er na all cynghorau cymuned a thref ddarparu nac ariannu gwasanaethau amgueddfeydd gallant wneud y canlynol:

- darparu gwasanaethau amgueddfeydd a ddirprwyir iddynt gan gyngor sir;<sup>24</sup>
- rhoi arian i amgueddfeydd sy'n gyrff elusennol neu ddarparu gwasanaethau, cyhoeddus<sup>25</sup> neu hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol, yn ddarostyngedig i derfyn arian parod blynyddol;<sup>26</sup>
- derbyn, dal a gweinyddu fel ymddiriedolwr roddion ar ffurf eiddo er budd eu cymuned, a all gynnwys casgliadau ac amgueddfeydd.<sup>27</sup>

## Elusennau

35. Fel arfer mae amgueddfeydd lleol nas darperir gan gynghorau wedi'u cyfansoddi fel elusennau. Mae rhai awdurdodau lleol hefyd yn gysylltiedig ag endidau elusennol, naill ai fel unig ymddiriedolwr gwaddol elusennol, neu mewn cysylltiad ag elusen sydd wedi'i chreu i godi arian ar gyfer gweithgareddau amgueddfa. Mewn rhai achosion, mae gan awdurdodau lleol yr hawl i enwebu rhai o ymddiriedolwyr amgueddfeydd annibynnol.

36. O dan y gyfraith mae'n ofynnol i elusennau feddu ar y nodweddion canlynol:

- bod â diben elusennol<sup>28</sup> h.y. rhaid i ddiben yr elusen fod o fudd i'r cyhoedd (neu ryw ran o'r cyhoedd), ac nid i grŵp bach o unigolion preifat yn unig;
- ni ddylai elusennau gael eu rhedeg er mwyn dosbarthu elw, ac ni chaniateir i'w hymddiriedolwyr (y rhai sy'n gyfrifol yn y pen draw am elusen) elwa'n ariannol na chael budd mewn ffordd arall o weithredu yn rhinwedd y swydd honno – mae'n rhaid iddynt bob amser weithredu er budd yr elusen;
- rhaid iddynt fod yn annibynnol ar endidau eraill (megis awdurdod lleol);
- rhaid i weithgareddau'r elusen fod yn gyfyngedig i'r rhai sy'n hyrwyddo ei diben elusennol ei hun, sef gweithgareddau sy'n gyfan gwbl elusennol a dim gweithgareddau eraill (hyd yn oed os gellir cofrestru'r rhain fel gweithgareddau elusennol yn eu rhinwedd eu hunain), ac ni ddylai fasnachu, ac eithrio fel rhan o'r gwaith o gyflawni ei diben elusennol (ac, felly, ni chaniateir masnachu er mwyn codi arian, ac mae'n rhaid gwneud hynny drwy endid masnachu anelusennol);
- mae'n ofynnol i elusen gyhoeddi adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol, y mae'n rhaid iddynt fod ar ffurf, a chyda manylder, sy'n ofynnol gan reoliadau.<sup>29</sup>

<sup>21</sup> Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 a 12 – 14

<sup>22</sup> Deddf Llywodraeth Leol 1972 a 123 ac a 127 a Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003

<sup>23</sup> Deddf Llywodraeth Leol 1988 a 43 ac a 47

<sup>24</sup> Deddf Llywodraeth Leol 1972 a 101

<sup>25</sup> Deddf Llywodraeth Leol 1972, a 137

<sup>26</sup> Deddf Llywodraeth Leol 2000: Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru Y Pŵer i Hybu neu Wella Lles Economaidd, Cymdeithasol neu Amgylcheddol para 2.1 (iii)

<sup>27</sup> Deddf Llywodraeth Leol 1972 a 139

<sup>28</sup> Deddf Elusennau 2011 Rhan I

<sup>29</sup> Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 (OS 2008 rhif 629)

## Cyd-destun Ewropeaidd Darpariaeth Amgueddfeydd Lleol

37. Ystyriwyd sefyllfa amgueddfeydd yng Nghymru yng nghyd-destun Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (UE) a rhanbarthau ymreolaethol â phoblogaethau

o faint tebyg, sef rhwng 1.3 miliwn a 4.6 miliwn (Tabl 1). Oherwydd y diffyg arfer cyffredin wrth gasglu'r ffigurau hyn, ni allant fod ond yn rhai dangosol, ond efallai eu bod yn ddigonol i ddangos yr amrywiaeth o brofiadau.

**Tabl 1: Gwybodaeth am amgueddfeydd o wledydd / rhanbarthau eraill**

Gwlad	Poblogaeth amcangyfrifedig	Safle	Nifer amcangyfrifedig yr amgueddfeydd	Amgueddfeydd fesul 100,000 o drigolion	Safle	Nifer amcangyfrifedig yr ymweliadau	Ymweliadau fesul 100,000 o drigolion	Safle
Crotia <sup>1</sup>	4,435,056	1	221	4.96	6	2,427,000	54,801	7
Iwerddon <sup>2</sup>	4,111,672	2	258	6.27	5	4,500,000	109,444	6
Lithwania <sup>3</sup>	2,979,527	3	104	3.49	8	3,757,000	126,093	5
Cymru <sup>4</sup>	3,063,456	4	120	3.92	7	4,270,000	139,385	3
Galicia <sup>5</sup>	2,772,927	5	76	2.80	9	Ddim ar Gael		
Slofenia <sup>6</sup>	2,061,085	6	168	8.15	3	3,558,000	172,654	2
Latfia <sup>6</sup>	2,023,825	7	144	7.10	4	2,636,000	130,248	4
Sardinia <sup>7</sup>	1,675,411	8	225	13.43	2	1,579,000	94,245	7
Estonia <sup>6</sup>	1,317,917	9	250	18.97	1	3,693,000	280,220	1

Ffynonellau: <sup>1</sup>Y Grŵp Ewropeaidd ar Ystadegau Amgueddfeydd (EGMUS) (ffigurau 2005); <sup>2</sup>EGMUS (ffigurau 2005), ffigurau wedi'u grosio yn seiliedig ar arolygon gan Fáilte Ireland Visits Attractions Survey 2013; <sup>3</sup>Statistics Lithuania (ffigurau 2013); <sup>4</sup>Llywodraeth Cymru (2013); <sup>5</sup>Statistics on Museums and Museum Collections 2012 (Gweinyddiaeth Addysg, Diwylliant a Chwaraeon Sbaen 2014); <sup>6</sup>EGMUS (ffigurau 2013); <sup>7</sup>Sintesi Statistiche sul Sistema Museale in Sardegna Anno 2011 (Regione Autonoma della Sardegna 2014)

## Ariannu Amgueddfeydd gan Lywodraethau Cenedlaethol

38. Mae llywodraethau cenedlaethol yn y DU yn rhoi arian yn uniongyrchol i fwy na 60 o amgueddfeydd. Mae pob un ohonynt wedi'u sefydlu fel elusennau ac maent yn annibynnol ar y llywodraeth ac wedi'u hachredu. Mae'r trefniant hwn yn gymwys i Amgueddfa Cymru, elusen sy'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Fe'i llywodraethir o dan Siarter Frenhinol drwy Fwrdd Ymddiriedolwyr, a benodir ar y cyd gan Amgueddfa Cymru a Gweinidogion

Cymru. Mae gan Castell Bodelwyddan bartneriaeth strategol â'r Oriol Bortreadau Genedlaethol yn Llundain ac mae'n arddangos grŵp pwysig o bortreadau o gasgliad yr Oriol o luniau sy'n dyddio o'r 19eg ganrif.

39. Mae amgueddfeydd lleol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael rhywfaint o gymorth ariannol gan lywodraethau cenedlaethol ac fel arfer dosberthir yr arian drwy gyrff a noddir gan y llywodraeth, sef: Arts Council England (ACE), Museums Galleries Scotland a Chyngor Amgueddfeydd Gogledd Iwerddon.



Yng Nghymru, ariennir amgueddfeydd lleol yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru drwy ei His-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, er nad yw hyn yn cynnwys cyllid refeniw.

## Safonau a Strategaeth Amgueddfeydd yng Nghymru

### Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru

40. Sefydlwyd Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (CyMAL gynt) yn 2004 fel is-adran bolisi arbenigol. Ar hyn o bryd mae gan yr Is-adran tua 28 o aelodau o staff, y mae gan lawer ohonynt gymwysterau arbenigol a/ neu arbenigedd yn y sector.

41. Mae ei chylch gwaith yn cynnwys:

- rhoi cyngor i'r Gweinidog(ion) perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru;
- rhoi cyngor arbenigol a chymorth strategol i amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol;
- noddi Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- monitro'r gwaith o gyflawni rhaglen Casgliad y Werin Cymru.

42. Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru yw prif ddarparwr cyrsiau hyfforddi arbenigol i'r sector yng Nghymru ac mae'n gweinyddu cynlluniau grant er mwyn hyrwyddo polisïau a mentrau perthnasol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys codi safonau drwy'r Cynllun Achredu a chyflawni *Strategaeth Amgueddfeydd Cymru 2010-2015*.

43. Mae'r is-adran hefyd wrthi'n arwain rhaglen Llywodraeth Cymru o weithgareddau i ddathlu canmlwyddiant

y Rhyfel Byd Cyntaf a'r gwaith o gyflawni rhaglen Diwylliant a Thlodi Llywodraeth Cymru.

## Strategaeth Amgueddfeydd Cymru 2010-2015

44. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar gyfer amgueddfeydd. Datblygwyd y strategaeth gan Lywodraeth Cymru drwy ymgynghori'n agos â'r sector amgueddfeydd.

Mae'r strategaeth yn nodi blaenoriaethau ar gyfer y sector o dan dair egwyddor allweddol sy'n ategu lle amgueddfeydd ym mywyd Cymru:

- Amgueddfeydd i Bawb  
Bydd amgueddfeydd yn cyfrannu at gymunedau byw, gan hyrwyddo gwerthoedd cymdeithas deg a chyfiawn ac yn darparu cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb.
- Casgliad i'r Genedl  
Bydd amgueddfeydd yn dal casgliadau i'r genedl sy'n cynrychioli ein diwylliant cyfoethog ac amrywiol, gan ofalu amdanynt a pharhau i'w datblygu.
- Gweithio'n Effeithiol  
Bydd amgueddfeydd yn rheoli eu safleoedd, eu gweithrediadau, eu casgliadau a'u pobl yn fwy effeithiol er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n berthnasol, yn gadarn ac yn gynaliadwy ar gyfer dinasyddion.

45. Y strategaeth hon oedd yr ymgais cyntaf i ddarparu cyfeiriad teithio y cytunwyd arno ar gyfer pob amgueddfa yng Nghymru. Mae wedi cael croeso brwd a chefnogaeth gan bob rhan o'r sector. Mae'r gwaith o gyflawni'r strategaeth yn cael ei oruchwylio gan grŵp llywio o randdeiliaid, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Amgueddfa Cymru, Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol,

Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.


## Safonau Ansawdd

46. Y systemau safonau ac ansawdd a ddefnyddir amlaf yng Nghymru yw'r Cynllun Achredu ar gyfer Amgueddfeydd yn y DU a Chynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr Cymru. Mae safonau perthnasol eraill, gan gynnwys Buddsoddwyr mewn Pobl,<sup>30</sup> Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr,<sup>31</sup> PQASSO<sup>32</sup> ac EFQM<sup>33</sup> ar gael, ond mae cost cyfranogi yn golygu na all y rhan fwyaf o amgueddfeydd fforddio cyrraedd na chynnal safonau o'r fath.

## Cynllun Achredu ar gyfer Amgueddfeydd yn y DU

47. Mae'r cynllun Achredu yn pennu safonau gofynnol ar gyfer darpariaeth amgueddfeydd. Fe'i rheolir gan ACE, sy'n darparu llawer o swyddogaethau gweinyddol allweddol, gan gynnwys ei ysgrifenyddiaeth, yn ogystal â chyflwyno unrhyw ddiwygiadau sydd angen eu gwneud i'r cynllun a'i brosesau. Mae'r sefydliadau a noddir gan y llywodraeth sy'n gweithredu yn y sector yng ngwledydd eraill y DU, a Llywodraeth Cymru, drwy ei His-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, yn gyfrifol am weinyddu'r cynllun yn eu priod wledydd ac yn gweithio mewn partneriaeth ag ACE. Mae 1,630 o amgueddfeydd Achrededig yn y DU (ym mis Mai 2015) a dengys ffigur 6 ddadansoddiad o'r 98 sydd yng Nghymru.

**Ffigur 6: Nifer yr Amgueddfeydd yn y Cynllun Achredu yn ôl math ledled Cymru**



*Ffynhonnell: Accreditation scheme update 5 March 2015 (Arts Council England 2015)<sup>34</sup>*

<sup>30</sup> Investors in People, The Journey to Accreditation ([www.investorsinpeople.co.uk](http://www.investorsinpeople.co.uk) 2015)

<sup>31</sup> The National Council for Voluntary Organisations, Investing in Volunteers ([iv.investinginvolunteers.org.uk](http://iv.investinginvolunteers.org.uk) 2015)

<sup>32</sup> Safon ansawdd a ddatblygwyd ar gyfer y trydydd sector yw PQASSO. Fe'i rheolir gan y Gwasanaethau Gwerthuso Elusennau, sy'n rhan o Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol. O dan PQASSO, caiff sefydliadau eu hasesu gan gorff annibynnol o dan 12 maes ansawdd sy'n cynnwys cynllunio a llywodraethu, arwain a rheoli, defnyddwyr, dysgu, cyfathrebu a gwerthuso. The National Council for Voluntary Organisations, Charities Evaluation Services, PQASSO ([www.ces-vol.org.uk](http://www.ces-vol.org.uk) 2015)

<sup>33</sup> Mae Model Rhagoriaeth EFQM yn fframwaith sicrhau ansawdd a ddatblygwyd gan y Sefydliad Ewropeaidd er Rheoli Ansawdd (a elwir bellach yn EFQM). Caiff y Model hwn ei adolygu'n rheolaidd a chyhoeddiwyd y diweddariad diwethaf yn 2013. EFQM, The EFQM Excellence Model ([www.efqm.org](http://www.efqm.org) 2015)

<sup>34</sup> Roedd y ffigurau yr un peth ym mis Mai 2015.

48. Nodir gofynion cyffredinol yn y Safon Achredu,<sup>35</sup> a ategir gan ddogfennau canllaw sy'n nodi disgwyliadau ar gyfer mathau gwahanol o amgueddfeydd ac amgueddfeydd o wahanol feintiau. Er mwyn cael eu hachredu mae angen i amgueddfeydd ddangos eu bod yn cydymffurfio â safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer tair nodwedd amgueddfeydd, sef: *Iechyd Sefydliadol, Casgliadau a Defnyddwyr a'u Profiadau*.

49. Er mwyn iddynt gadw eu statws Achredu, mae'n rhaid i amgueddfeydd ddangos eu bod yn cydymffurfio â phob agwedd ar y safon drwy ffurflen a gyflwynir bob tair blynedd. Mae'n ofynnol i amgueddfeydd hysbysu Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau mawr arfaethedig i'w gweithrediadau. Gall methiant i gydymffurfio â safonau'r cynllun arwain at dynnu statws Achredu yn ôl. Yng Nghymru, byddai hyn yn golygu na fyddai amgueddfeydd yn gymwys i gael grantiau Llywodraeth Cymru.

## Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr (VAQAS)

50. Mae'r Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr (VAQAS)<sup>36</sup> yn darparu adnoddau i weithredwyr atyniadau i ymwelwyr wella ansawdd a rhannu arfer gorau. Mae'n cynnig asesiad ansawdd sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr er mwyn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Dim ond i atyniadau sydd wedi'u hasesu gan gorff annibynnol yn erbyn safonau cenedlaethol y dyfernir Nod Ansawdd Croeso Cymru. Mae'r rhain yn ymestyn safonau ymwelwyr

a defnyddwyr a gyrhaeddwyd eisoes ar gyfer y Cynllun Achredu Amgueddfa ac, felly, mae Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i alluogi pob amgueddfa sydd wedi'i hachredu'n llawn i gymryd rhan yng nghynllun VAQAS.

51. Nid yw VAQAS yn ceisio graddio atyniadau ond mae'n asesu pob atyniad yn ôl ei deilyngdod ei hun ac, o 2014, mae sgorau yn cael eu rhoi ar gyfer pob maes allweddol a ddarperir gan atyniadau unigol. Mae'n rhaid iddynt gael sgôr o 60% ar gyfer pob maes a ddarperir. Hyd yma, y sgôr ganolrifol ar gyfer amgueddfeydd yw 78% a dim ond un amgueddfa sydd wedi methu â chael y sgôr basio, sef 60%. Mae meysydd allweddol yn cynnwys gwybodaeth cyn cyrraedd, y croeso a gaiff ymwelwyr wrth gyrraedd yr atyniad a'r croeso a gânt gan aelodau eraill o staff ym mhob rhan o'r atyniad, y modd y cyflwynir arddangosion yn gyffredinol; o'r fynedfa i'r allanfa; eglurder y deunydd dehongli i bob ymwelydd; ansawdd y gwasanaeth arlwygo a manwerthu (os yw'n cael ei ddarparu); ac effeithlonrwydd staff, gofal cwsmeriaid a gwybodaeth (gan gynnwys ymwybyddiaeth anabled a chydraddoldeb).

## Pwy sy'n Ymweld ag Amgueddfeydd yng Nghymru?

52. Mae data diweddar yn awgrymu ei bod yn bosibl bod trigolion Cymru yn llai tebygol o ymweld ag amgueddfeydd ac orielau na phobl yn y DU yn gyffredinol, er nad oes ffigurau uniongyrchol gymaradwy ar gael. Dangosodd prif ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 fod

<sup>35</sup> Cynllun Achredu ar gyfer Amgueddfeydd yn y Deyrnas Unedig: Y Safon Achredu (Arts Council England 2011)

<sup>36</sup> Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr (VAQAS) (Llywodraeth Cymru 2015)

39% o drigolion Cymru yn defnyddio amgueddfeydd yng Nghymru.<sup>37</sup> Yn Lloegr, dangosodd arolwg Taking Part,<sup>38</sup> yn yr un cyfnod, fod 52% o oedolion wedi ymweld ag amgueddfa er nad yn Lloegr o reidrwydd. Nododd arolwg o ymwelwyr ag Amgueddfa Ceredigion a gynhaliwyd yn 2013 nad oedd 44% wedi ymweld ag unrhyw amgueddfa arall yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a dim ond 5% a oedd wedi ymweld ag amgueddfeydd Amgueddfa Cymru yng Nghaerdydd, a 2% â'i hamgueddfeydd yn Abertawe a Sir Gaerfyrddin.

53. Rydym yn amcangyfrif<sup>39</sup> mai cyfanswm yr ymweliadau ag amgueddfeydd yng Nghymru a weithredir gan sefydliadau llywodraethol / nid er elw (h.y. y rhai a allai gyrraedd y Safon Achredu Amgueddfeydd) oedd tua 4.27 miliwn yn 2013, gydag 1.34 miliwn (31%) yn ymweliadau ag amgueddfeydd a redir yn uniongyrchol gan wasanaethau awdurdodau lleol. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o 7% mewn sampl gyson o amgueddfeydd ers 2009,<sup>40</sup> o gymharu â 4% ar gyfer amgueddfeydd yng Nghymru yn gyffredinol. Gall ffactorau megis effaith gwyliau gartref ac amgueddfeydd awdurdodau lleol yn cynnig mynediad am ddim yn ystod dirwasgiad economaidd, esbonio'r gwahaniaeth rhwng y ddwy ganran.

54. Yn unigol, niferoedd cymharol fach o ymwelwyr y bydd amgueddfeydd lleol yng Nghymru yn eu denu mewn termau absoliwt. Cafodd hanner yr amgueddfeydd a redir gan awdurdodau lleol lai na 10,400 o ymweliadau y flwyddyn, a dim ond chwarter a gafodd fwy na 31,000. Mae ymchwil

i'r farchnad yn awgrymu, yn gyffredinol, fod y rhan fwyaf o'r ymweliadau hyn gan drigolion Cymru (p'un a ydynt yn byw'n lleol neu ar wyliau), sy'n ferched yn bennaf, o ystodau oedran hŷn ac yng ngrwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1).

55. Er bod hanner yr ymwelwyr o dramor yn nodi eu bod yn bwriadu ymweld ag amgueddfa,<sup>41</sup> mewn gwirionedd maent ond hanner mor debygol o ymweld ag amgueddfa fel ymwelwyr â'r DU yn gyffredinol (23% o gymharu â 48%),<sup>42</sup> felly nid yw hyd yn oed y rhai a allai ymweld ag amgueddfeydd rywle arall yn cael eu hysgogi i ymweld ag amgueddfa yng Nghymru.

## Casgliadau

56. Mae amgueddfeydd lleol yng Nghymru yn gyfrifol ar y cyd am fwy na miliwn o arteffactau a sbesimenau, gan gynnwys 603,300 mewn amgueddfeydd awdurdodau lleol a 440,000 mewn amgueddfeydd annibynnol. Ynghyd â'r casgliadau sydd gan Amgueddfa Cymru (tua 4.5 miliwn o arteffactau a sbesimenau), mae'r rhain yn adnodd sylweddol ar gyfer arddangos, dehongli, astudio a mwynhau gorffennol Cymru ar gyfer y cyhoedd. Mae'r rhan fwyaf o'r amgueddfeydd hynny sydd wedi'u creu dros y 50 mlynedd diwethaf yn tueddu i ganolbwyntio ar hanes diweddar sy'n ymwneud â'u hardal neu'n ymdrin â phwnc penodol, megis trafniadaeth, er bod amgueddfeydd mwy sefydledig yn cynnwys casgliadau pwysig o archeoleg, celfyddyd gain ac addurnol a'r gwyddorau naturiol. O ran nifer, arteffactau hanes cymdeithasol sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o gasgliadau

<sup>37</sup> *Arolwg Cenedlaethol Cymru: Prif ganlyniadau, mis Ebrill 2014 i fis Mawrth 2015* (Llywodraeth Cymru 2015) tud40-4. Gallai defnydd gynnwys gwrando ar anerchiad gan guradur amgueddfa neu ddefnyddio caffi neu siop amgueddfa.

<sup>38</sup> *Taking Part 2014/15 Quarter 3 Statistical Release March 2015* (Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Lloegr 2015) tud22

<sup>39</sup> Yn seiliedig ar ffurflenni amgueddfeydd a gyflwynwyd i arolwg blynyddol Llywodraeth Cymru, *Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru (llyw.cymru)* a gwybodaeth a ddarparwyd gan amgueddfeydd unigol.

<sup>40</sup> Yn seiliedig ar ffurflenni blynyddol amgueddfeydd a gyflwynwyd i arolwg *Llywodraeth Cymru, Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru (llyw.cymru)* o 2009 i 2013; *Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011* (Llywodraeth Cymru 2013) a gwybodaeth a ddarparwyd gan amgueddfeydd unigol.

<sup>41</sup> *Arolwg Ymwelwyr Cymru 2013 CyMAL Arolwg Cydategol* (Strategic Marketing 2013) tud8

<sup>42</sup> *Inbound Tourism to Britain's Nations and Regions* (VisitBritain 2013) tud69



amgueddfeydd lleol gyda 200,00 o eitemau, wedi'u dilyn gan gasgliadau ffotograffig ac archeolegol gyda 165,000 a 144,000 o eitemau yn y drefn honno.<sup>43</sup> Mae casgliadau archeolegol, casgliadau gwyddorau naturiol a chasgliadau ethnograffig oll wedi cael budd o arolygon datblygu yn cwmpasu Cymru gyfan.

57. Mae'r rhan fwyaf o gasgliadau a gedwir yn lleol yn adlewyrchu diddordebau lleol neu arbenigol, ond mae llawer hefyd yn cynnwys eitemau sydd o arwyddocâd rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol. Er enghraifft, ceir casgliadau sy'n ymwneud â Mudiad y Siartwyr yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinas Casnewydd, gwaith celf gan Syr Kyffin Williams yn Oriel Ynys Môn, yr olwyn sbâr gyntaf ar gyfer ceir yn Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin, deunydd sy'n ymwneud â'r Llyngesydd Arglwydd Nelson yn Amgueddfa Trefynwy ac â Robert Recorde, a ddyfeisiodd yr hafalnod mathemategol, yn Amgueddfa Dinbych-y-pysgod. Mae pob un o'r casgliadau a gedwir gan Amgueddfa'r Bathdy Brenhinol yn Llantrisant yn enwog ledled y byd ac mae'r rhai yn yr Amgueddfa Tân Mewnol yng Ngheredigion yn bwysig ymhell y tu hwnt i ffiniau Cymru.

58. Ni ellir arddangos holl gasgliadau amgueddfa yn ei horielau arddangos. Fel arfer, cedwir y rhan fwyaf ohonynt mewn storffeydd fel casgliadau wrth gefn y gellir eu defnyddio mewn gweithgareddau eraill a gynhelir gan yr amgueddfa neu eu darparu i fyfyrwyr ac ymchwilwyr. Mae angen i'r storffeydd hyn gyrraedd safon sy'n sicrhau bod casgliadau yn hygyrch ac na fydd cyflwr y gwrthrychau a gedwir yno yn dirywio.

## Sefydliadau cymorth yn y sector

59. Mae sawl sefydliad sy'n cefnogi amgueddfeydd a gweithwyr amgueddfa proffesiynol yng Nghymru. Mae gan rai ohonynt ddiddordeb arbennig mewn amgueddfeydd tra bod gan eraill gylch gwaith ehangach. Rhoddir ychydig o wybodaeth am rai o'r sefydliadau hyn isod, er nad yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr.

### Sefydliadau sy'n ymwneud yn benodol ag Amgueddfeydd a Threftadaeth

60. Mae **Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru** yn cefnogi amgueddfeydd yng Nghymru. Sefydliad aelodaeth a redir gan wirfoddolwyr ydyw a llenwir swyddi ei bwyllgor gan bobl sy'n gweithio mewn neu gydag amgueddfeydd yng Nghymru. Mae'r Ffederasiwn yn bartner pwysig i Lywodraeth Cymru o ran cyflawni'r strategaeth amgueddfeydd ac mae'n gweithredu cynllun grantiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Hwn yw'r unig sefydliad eiriolaeth sy'n gweithio'n benodol i amgueddfeydd yng Nghymru a'r bobl sy'n gweithio ynddynt.

61. Mae **Cymdeithas yr Amgueddfeydd (MA)** yn sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli amgueddfeydd ac orielau a'r bobl sy'n gweithio ynddynt. Mae'n cynnig gwasanaeth eirioli i lywodraethau, arweiniad ar ddatblygu mentrau i'r DU gyfan a chyfleoedd datblygu a gwasanaethau, gan gynnwys datblygiad proffesiynol.

<sup>43</sup> *Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011* (Llywodraeth Cymru 2013) tudalennau 54 a 5

62. Mae **Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AIM)** yn cynrychioli buddiannau amgueddfeydd sy'n gweithredu'n annibynnol ar awdurdodau lleol a llywodraeth genedlaethol ac yn rhoi gwybodaeth a chymorth wedi'u targedu iddynt. Ar lefel strategol, mae'n ceisio darparu llais cryf o blaid aelodau'r Gymdeithas ac amgueddfeydd yn gyffredinol. Mae'n cynnig amrywiaeth o adnoddau gan gynnwys deunyddiau eirioli sy'n seiliedig ar dystiolaeth, pecynnau cymorth ar gyfer gwerthuso effeithiau a chyfres o bapurau ffocws.

63. Mae **Cymdeithas Cyfeillion Amgueddfeydd Prydain (BAfM)** yn sefydliad annibynnol a sefydlwyd yn 1973 i Gyfeillion, gwirfoddolwyr a chefnogwyr mewn amgueddfeydd, orielau a safleoedd treftadaeth ac mae'n cynrychioli mwy na 200,000 o Gyfeillion a gwirfoddolwyr ledled y DU. Mae'n cynnig rhwydwaith ymarferol o gymorth gan bobl sydd â phrofiad ymarferol o redeg sefydliadau Cyfeillion ac yn gweithredu fel system glirio ar gyfer problemau cyffredin a'r atebion iddynt ac mae'n ffynhonnell ganolog o wybodaeth am Gyfeillion i Gyfeillion.

64. Mae'r **Ymddiriedolaeth Casgliadau** yn elusen sy'n helpu amgueddfeydd, orielau, llyfrgelloedd ac archifau i wella'r modd y rheolir ac y defnyddir eu casgliadau drwy ddarparu gwybodaeth a chynngor, datblygu a hyrwyddo safonau o ran cofnodi a rheoli casgliadau a chynnig cyfleoedd i rwydweithio.

65. **Cronfa Dreftadaeth y Loteri** yw dosbarthwr arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer prosiectau sydd â'r nod o ddiogelu treftadaeth y genedl a sicrhau ei bod yn hygyrch. Y Gronfa yw prif ddarparwr buddsoddiadau mewn amgueddfeydd, gan gynnwys ar gyfer caffaeliadau, prosiectau adeiladu a gweithgareddau.

## Sefydliadau cysylltiedig

66. Mae **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)** yn rhoi cyngor a chymorth i sefydliadau yn y trydydd sector, y mae llawer ohono yn berthnasol i amgueddfeydd ac yn arbennig i ymddiriedolwyr amgueddfeydd annibynnol. Mae Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda CGGC i gyflawni rhaglen *Catalydd Cymru - Codi Arian ar gyfer Treftadaeth* a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac sydd wedi'i thargedu at y sector treftadaeth ehangach. Nod y rhaglen yw meithrin hyder a gwella effeithiolrwydd wrth godi arian gan roddwyr preifat, ffynonellau corfforaethol ac ymddiriedolaethau a sefydliadau.

67. **Croeso Cymru** yw cangen dwristiaeth Llywodraeth Cymru ac mae'n gyfrifol am lunio polisiau twristiaeth, gwella ansawdd profiad ymwelwyr yng Nghymru ac annog buddsoddi ynddo. Mae hefyd yn gyfrifol am farchnata Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol. Ceir pedwar prif faes gwaith o fewn Croeso Cymru, sef: Marchnata, Partneriaethau a Pholisi, Menter a Gweithrediadau.

68. Sefydlwyd **Canolfan Cydweithredol Cymru** gan yr Undebau Llafur tua 30 mlynedd yn ôl a hon yw'r asiantaeth fwyaf o'i bath yn y DU. Dyma gorff cenedlaethol Cymru ar gyfer cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol, mentrau cymdeithasol a busnesau a berchenogir gan gyflogaion. Mae'n cymhwyso gwerthoedd cydweithredol at y gwaith o atgyfnerthu cymunedau a gwasanaethau yn ogystal â chefnogi'r busnesau hyn.

69. **Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (CYD Cymru)** yw'r rhwydwaith menter ac adfywio cymunedol ar gyfer Ymddiriedolaethau Datblygu yng Nghymru ac mae'n rhan o rwydwaith o fwy nag 800 o ymddiriedolaethau datblygu sy'n cwmpasu'r DU gyfan. Mae CYD Cymru yn sefydliad aelodaeth annibynnol i ymarferwyr sy'n cefnogi mudiad yr ymddiriedolaethau

datblygu sy'n tyfu yng Nghymru ac yn hyrwyddo ei waith. Mae Ymddiriedolaethau Datblygu yn sefydliadau cymunedol sy'n gweithredu fel mentrau cymunedol neu gymdeithasol. Mae CYD Cymru wedi cynorthwyo amgueddfeydd unigol a oedd yn cymryd rhan mewn prosesau trosglwyddo asedau ac yn datblygu modelau mentrau cymdeithasol drwy gynnig gwasanaeth ymgynghori iddynt. Mae hefyd yn rheoli Grŵp Gweithredu ar Ynni ar ran Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol, gan ddatblygu opsiynau prynu ynni grŵp ar gyfer ei haelodau, ledled y DU.

## Sylwadau i gloi

70. Wrth adolygu cefndir darpariaeth gwasanaethau amgueddfeydd yng Nghymru, daethom i'r casgliad ein bod yn ymdrin â sector amgueddfeydd bach ac amrywiol ond pwysig. Yn y penodau canlynol rydym yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni ac yn dechrau dod i gasgliadau ynghylch y sefyllfa bresennol a'r hyn sydd ei angen er mwyn datblygu'r sector.



Tŷ Weindio, New Tredegar  
© Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

## Pennod 2: Y Dystiolaeth

71. Fel rhan o'n trafodaethau, gwnaethom ystyried tystiolaeth gan amrywiaeth o ffynonellau a'i defnyddio i ystyried y sefyllfa bresennol o ran nifer o feysydd penodol. Trafodir y rhain yn fanwl yn y bennod hon.

### Cynulleidfaoedd

72. Mae amgueddfeydd lleol (y rhai a redir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol ac amgueddfeydd annibynnol) yn denu tua dwy filiwn o ymweliadau bob blwyddyn, sy'n cyfateb i gynnydd o 24% ers 2004, cyfnod pan gynyddodd nifer yr amgueddfeydd nad ydynt yn rhai cenedlaethol 8%. Rhwng 2011 a 2013 gwnaeth cyfran yr ymwelwyr ag amgueddfeydd yng Nghymru:

- sy'n dweud eu bod yn mwynhau ymweld ag amgueddfeydd gynyddu o 75% i 85%;
- sy'n credu bod amgueddfeydd yn 'lleoedd cyfeillgar a chroesawgar' gynyddu o 75% i 84%;
- sy'n nodi nad oes ganddynt ddi-ddordeb mewn unrhyw amgueddfeydd ostwng o 14% i 10%.

73. Er bod gwybodaeth am ochr gyflenwi amgueddfeydd yng Nghymru, prin yw'r dystiolaeth ar ochr y galw. Mae data o amgueddfeydd yn dameidiog ac, felly, ni ellir eu defnyddio i ddadansoddi'r defnydd a wneir o amgueddfeydd o safbwynt demograffig na safbwyntiau eraill, fel y mae dirfawr angen ei wneud. Yn benodol, prin iawn yw'r wybodaeth gyson sydd gennym am gynulleidfaoedd amgueddfeydd lleol, gan gynnwys ysgolion a cholegau, ac mae hyn yn wendid. Yn ogystal â phrinder data i

adlewyrchu'r newidiadau mewn tueddiadau o ran cynulleidfaoedd amgueddfeydd a'r defnydd a wneir o amgueddfeydd, prin yw'r wybodaeth gyhoeddedig ynghylch a yw'r gweithgareddau addysgol a ddarperir gan amgueddfeydd yng Nghymru yn meithrin gwybodaeth, yn gwella canfyddiad neu'n arwain at ddatblygiad personol mewn gwirionedd.

74. Mae'r ffaith nad oes gennym wybodaeth gadarn yn golygu ei bod yn fwy anodd cynllunio ac ymateb i anghenion y cyhoedd. Mae tystiolaeth o dueddiadau sy'n newid, rhesymau dros gymryd rhan mewn rhaglenni amgueddfeydd a pheidio â chymryd rhan ynddynt, a rhwystrau i ymgysylltu, yn tueddu i fod yn anghyflawn ac yn ymwneud â'r ardal leol. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei gwaethygu gan brinder data ar weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ar lefel strategol yng Nghymru, a allai daflu rhywfaint o oleuni ar ddefnydd cymdeithasol-demograffig ac amllder ymgysylltu.

75. Heb ddata manwl gywir, mae'n amhosibl cynllunio gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned yn effeithiol, na meithrin dealltwriaeth o'r ffordd orau i ddiwallu anghenion grwpiau ymylol neu arbennig. Yn yr un modd, ni ellir datblygu dulliau cyfathrebu effeithiol i roi gwybod am ddigwyddiadau a gweithgareddau a drefnir gan amgueddfeydd ac mae gwybodaeth yn cael ei lledaenu ar hap.

76. Bu llawer o sôn am y ffaith bod polisiau corfforaethol awdurdodau lleol yn atal eu hamgueddfeydd rhag datblygu gwefannau a gwneud gwaith marchnata uniongyrchol. Er ei bod yn amlwg bod bwllch mewn

arbenigedd yn y ddau faes hyn, mae'n bosibl bod hyn yn cuddio problem fwy o faint mewn rhai achosion sy'n gysylltiedig â phennu blaenoriaethau. Mae'r ffaith nad oedd unrhyw amgueddfeydd a redir gan awdurdodau lleol wedi cyflwyno ceisiadau ar gyfer Gwobrau Rhagoriaeth Marchnata 2014 i amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau, o bosibl, yn awgrymu maint y broblem. Heb gynlluniau marchnata, yn seiliedig ar waith ymchwil diweddar, a'r adnoddau i'w rhoi ar waith, ni all y sefyllfa wella.

77. Nododd y *Strategaeth Marchnata Amgueddfeydd*<sup>44</sup> a gyhoeddwyd yn 2013 fod angen ymchwilio i ganfyddiad ac anghenion y bobl hynny sy'n defnyddio amgueddfeydd a'r rhai nad ydynt yn eu defnyddio, ac rydym o blaid hynny. Mae data a gesglir yn genedlaethol sy'n cyrraedd safonau Ystadegau Gwladol yn allweddol i ddeall y bobl hynny sy'n defnyddio amgueddfeydd a'r rhai nad ydynt yn eu defnyddio a bydd y data yn galluogi amgueddfeydd i addasu eu gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd cyfoes.

## Casgliadau

78. Derbynnir yn gyffredinol fod amgueddfeydd yn gyfrifol am ddiogelu gwrthrychau a sbesimenau a ddewiswyd yn arbennig, ynghyd â'u cofnodion, sy'n cynrychioli diwylliannau ac amgylcheddau amrywiol. Maent yn gwneud hyn ar gyfer yr hirdymor ac er budd cenedlaethau'r dyfodol lawn cymaint â'r genhedlaeth bresennol. Mae hon yn dasg sy'n gofyn am fedrusrwydd a chraffter er mwyn sicrhau bod y deunydd a gesglir yn wirioneddol werthfawr a pherthnasol. At hynny, mae'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â gofalu

am deunydd o'r fath i mewn i'r ganrif nesaf ac ar ôl hynny yn rhai sylweddol, sy'n codi cwestiynau pwysig ynghylch beth y dylid ei gofnodi a'i gasglu, a beth y dylid ei anwybyddu neu ei waredu.

79. Yn 2011, roedd 41% o storffeydd amgueddfeydd eisoes yn llawn ac amcangyfrifwyd y bydd 25% arall yn llawn erbyn 2016.<sup>45</sup> At hynny, ymddengys fod llawer o amgueddfeydd wedi rhoi'r gorau'n gyfan gwbl i gasglu a chofnodi'n rhagweithiol ac, felly, mae tystiolaeth hanfodol o fywyd yng Nghymru yn cael ei cholli. Os bydd y sefyllfa hon yn parhau mae'n bosibl na fydd amgueddfeydd lleol yng Nghymru yn ddim byd mwy na chabinetau llawn hynodion sy'n dod yn fwyfwy anhygyrch ac amherthnasol i bobl Cymru. Felly, erbyn 2016, bydd dwy o bob tair amgueddfa yng Nghymru wedi peidio â chyflawni swyddogaeth graidd.

80. Ni olyga hyn nad yw'r sector yn deall beth sydd angen ei wneud. Yn 2010, nododd Llywodraeth Cymru a'r gymuned amgueddfeydd yn glir iawn yr hyn roedd angen ei wneud. Roedd y tair egwyddor allweddol, a gyhoeddwyd yn *Strategaeth Amgueddfeydd ar gyfer Cymru: Amgueddfeydd i Bawb, Casgliad i'r Genedl, a Gweithio'n Effeithiol*, yn rhai craff ac yn dal i fod yn gwbl berthnasol heddiw. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen; ni phennwyd unrhyw amcanion penodol ac ni sefydlwyd unrhyw raglenni gwaith er mwyn datblygu'r sector.

81. Er enghraifft, nodwyd y cysyniad o'r casgliad cenedlaethol sydd ar wasgar yn y *Strategaeth Amgueddfeydd*<sup>46</sup> ac fe'i trafodwyd mewn digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol.<sup>47</sup>

<sup>44</sup> *Strategaeth Marchnata Amgueddfeydd ar gyfer Cymru 2013-2016. Crynodeb Gweithredol* (Creative Cultures Associates 2013) tud7

<sup>45</sup> *Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011* (Llywodraeth Cymru 2013) tud66

<sup>46</sup> *Strategaeth Amgueddfeydd Cymru* (Llywodraeth Cymru 2010) tud22-23

<sup>47</sup> Henderson, J., Kerr, L-A. a Gwilt, D. *The Distributed National Collection in Wales – Conservation on the national agenda*. Yn ICOM-CC 17th Triennial Conference Preprints, Melbourne, 15–19 Medi 2014, gol. J. Bridgland, erth. 1501, 9 tud. Paris: Cyngor Rhyngwladol yr Amgueddfeydd.



Mae rhywfaint o arfer da eisoes i'w weld.<sup>48</sup> Fodd bynnag, ni fu'r effaith gyffredinol yn un sylweddol ac mae hyn i'w briodoli i'r ffaith nad yw'r gwaith o resymoli a datblygu casgliadau ledled Cymru yn cael ei reoli'n strategol.

82. Mae'r broses achredu wedi cael effaith gadarnhaol ar amgueddfeydd o ran sicrhau bod amgueddfeydd wedi nodi'r hyn y maent yn berchen arno a'r hyn sydd wedi cael ei fenthyca iddynt. Er ei bod yn bosibl mai awdurdodau lleol yw perchenogion cyfreithiol y rhan fwyaf o'r casgliadau a gedwir yn yr amgueddfeydd a redir ganddynt, mae rhai eitemau ar fenthyg ac mae telerau ac amodau ynghlwm wrth eitemau eraill. Er bod y broses Achredu yn gofyn am dull proffesiynol o gadw cofnodion, nid yw'n rhoi unrhyw ganllawiau ar yr amodau perthnasol ac nid yw'n profi dulliau caffael a chofnodi ychwaith.

83. Ar hyn o bryd mae'n amhosibl nodi pa gyfran o'r casgliadau a gedwir mewn amgueddfeydd sydd â digon o wybodaeth am eu perchenogaeth, eu lleoliad a'u cydestun iddi fod o werth. Yn yr un modd, nid yw'n glir a yw amgueddfeydd yn cadw casgliadau sydd bob amser yn berthnasol i hanes eu hardaloedd ac, os nad ydynt, gallai arwain at golli tystiolaeth werthfawr nad yw byth yn cael ei chofnodi, ei chasglu na'i diogelu. Nid yw cyfran y casgliadau presennol mewn amgueddfeydd sy'n gofyn am systemau gwaredu moesegol wedi'i nodi eto. Mae angen mynd i'r afael â materion o'r fath fel rhan o raglen rhesymoli casgliadau ystyriol yn unol â gofynion moesegol Cymdeithas yr Amgueddfeydd. Os na wneir hyn, ni fydd amgueddfeydd lleol yn gallu rheoli casgliadau o fewn y lle a'r adnoddau eraill sydd ar gael iddynt.

84. Rydym o'r farn ei bod yn hanfodol cynnal adolygiad mawr o gasgliadau a dulliau casglu presennol. Byddai hon yn dasg sylweddol ac ni ellid ei chwblhau heb ymrwymiad llawn yr amgueddfeydd lleol a chyllid penodedig. Mae arweinyddiaeth yn hanfodol, yn ogystal ag amserlen ar gyfer newid ac argaeledd staff arbenigol i gyflawni amcanion gofynnol.

## Adeiladau

85. Lleolir llawer o amgueddfeydd yn y DU mewn adeiladau sy'n anfoddhaol ar hyn o bryd. Mae rhan o'r broblem hon yn ymwneud â thybiaeth gyffredin bod defnyddio eiddo hanesyddol fel lleoliad i amgueddfa leol, heb fuddsoddiad addas yn y gwaith o'i addasu neu ei ymestyn, yn ffordd dda o'i gynnal a'i gadw.

86. Ychydig o'r adeiladau sy'n gartref i amgueddfeydd a adeiladwyd i'r pwrpas; yn 2011, roedd mwy na 90% o'r amgueddfeydd lleol yng Nghymru wedi'u lleoli mewn adeiladau gwarchoddedig. Cynlluniwyd yr ychydig adeiladau hynny a adeiladwyd yn bwrpasol fel amgueddfeydd mewn cyfnod pan oedd gofynion o ran mynediad wedi'u diffinio'n wahanol. Mae stoc adeiladau amgueddfeydd yng Nghymru yn peri nifer o broblemau sydd yn eu tro yn cyfyngu ar yr hyn y gall amgueddfa ei gyflawni ar gyfer pobl ei hardal ac weithiau ei hatal rhag cyflawni unrhyw beth.

87. Ni ellir gwella llawer o amgueddfeydd heb fuddsoddiad sylweddol. Heb y buddsoddiad hwn, cyfyngir ar fynediad i ymwelwyr ac ni ellir gwasanaethu grwpiau penodol sy'n aml yn rhai ymylol.

<sup>48</sup> Er enghraifft, adolygiadau o gasgliadau i nodi natur a maint casgliadau gwyddorau naturiol, a gaiff eu digideiddio a'u darparu ar-lein drwy Casgliad y Werin Cymru - People's Collection Wales ([www.casgliadywerin.cymru](http://www.casgliadywerin.cymru)) a phrosiect *doliau* sy'n edrych ar ddatblygiad gwisgoedd cenedlaethol Cymreig drwy astudio doliau sy'n dyddio o'r 19eg ganrif.

Mae hyn hefyd yn rhwystr i newid neu wella arddangosfeydd, ehangu'r amrywiaeth o weithgareddau, darparu mynediad digonol i gasgliadau ymchwil neu greu storfeydd priodol mewn amgueddfeydd.

88. Ni ellir datblygu amgueddfeydd awdurdodau lleol yng Nghymru i'r dyfodol heb fabwysiadu ymagwedd realistig tuag at yr adeiladau lle y'u lleolir. Mae'n ddigon posibl y bydd hyn yn gofyn am resymoli storfeydd a newid dulliau o ymdrin â chasgliadau wrth gefn. Bydd yn golygu gwahaniaethu rhwng adeiladau hanesyddol y mae angen iddynt weithredu fel y cyfryw a'r adeiladau hanesyddol hynny a all gynnig lleoliad addas i amgueddfeydd, gyda holl oblygiadau hynny o ran eu swyddogaethau ategol.

89. Nid yw statws rhestredig adeilad yn rheswm dros wneud dim byd. Ceir sawl enghraifft wych ledled y DU o amgueddfeydd mewn eiddo hanesyddol a addaswyd er mwyn bodloni gofynion eu cynulleidfaoedd. Mae gwaith o'r fath yn gofyn am fuddsoddiad a dychymyg.

## Cyllid

90. Yn 2013/14 gwariodd llywodraeth genedlaethol a lleol £33.6 miliwn ar amgueddfeydd ac orielau yng Nghymru, gyda £9.3 miliwn (28%) o'r swm hwnnw yn cael ei wario fel gwariant cyfredol gan gynghorau lleol, naill ai ar yr amgueddfeydd y maent yn eu gweithredu'n uniongyrchol neu drwy gymorth grant. At hynny, gwariwyd £3.7 miliwn o dan y pennawd 'treftadaeth', sy'n cynnwys rheoli a chynnal a chadw adeiladau hanesyddol, a mentrau a gwasanaethau y bwriedir iddynt feithrin neu gynnal ymwybyddiaeth o hanes lleol, sy'n aml yn dod o fewn cwmpas y gwasanaeth amgueddfeydd lleol. Mae Tabl 2 yn rhoi manylion am incwm a gwariant awdurdodau lleol ar amgueddfeydd ac orielau a threftadaeth ar gyfer 2013/14.

**Tabl 2: Incwm a gwariant awdurdodau lleol ar amgueddfeydd a threftadaeth 2013/14**

		Amgueddfeydd ac Orielau £ miliynau	Treftadaeth £ miliynau	CYFANSWM £ miliynau
	<b>INCWM</b>			
	Taliadau mynediad, gwerthiannau a thaliadau	1.080	4.224	5.304
	Incwm arall	0.421	0.700	1.121
<b>A</b>	<b>Cyfanswm yr Incwm*</b>	<b>1.501</b>	<b>4.924</b>	<b>6.425</b>
	<b>GWARIANT</b>			
	Gwariant uniongyrchol ar gyflogeion a gwasanaethau	-9.498	-7.761	-17.259
	Cymorth canolog ac adrannol	-1.358	-0.946	-2.304
<b>B</b>	<b>Cyfanswm y Gwariant</b>	<b>-10.856</b>	<b>-8.707</b>	<b>-19.563</b>
	<b>GWARIANT CYFREDOL NET</b>	<b>-9.355</b>	<b>-3.783</b>	<b>-13.138</b>
<b>C</b>	<b>llai penodol a grantiau'r llywodraeth*</b>	<b>0.605</b>	<b>0.885</b>	<b>1.490</b>
	<b>GWARIANT NET</b>	<b>8.750</b>	<b>2.898</b>	<b>11.648</b>
	<b>*Incwm o bob ffynhonnell (A + C)</b>	<b>2.106</b>	<b>5.809</b>	<b>7.915</b>


*Ffynhonnell: Revenue Outturn Forms, Local Government Finance Statistics (Llywodraeth Cymru 2014. Heb ei gyhoeddi)*

91. Mae llywodraeth leol Cymru yn gwario £3.03 y pen o'r boblogaeth ar amgueddfeydd ac orielau sy'n llai na'r Alban (£7.84) a Lloegr (£3.61). Mae'r cymorth a roddir i amgueddfeydd ac orielau yn gost ymylol i gynghorau yng Nghymru a rhwng 2004 / 05 a 2013 / 14 roedd yn cyfateb i 3% o gyfanswm eu gwariant refferniw ar ddiwylliant, treftadaeth a chwaraeon, ar gyfartaledd, a 0.13% o gyfanswm gwariant cynghorau.



Amgueddfa Tecstilau'r Drenewydd  
© Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

**Ffigur 7: Gwariant Awdurdodau Lleol ar amgueddfeydd ac orielau 1996–2014**



*Ffynhonnell: Ystadegau Ariannol Llywodraeth Leol ar gyfer Cymru 1996/07-2013/14;<sup>49</sup> Cynlluniau gwariant sampl o awdurdodau lleol 2014/15-2015/16*

92. Dengys Ffigur 7 wariant net gan awdurdodau lleol mewn arian parod a thermau real rhwng 1996 a 2014, gyda rhagolygon ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol. Nodweddir y cyfnod tan 2010 gan dwf termau real o 24%, er bod hyn yn adlewyrchu ymrwymadau ychwanegol yn fwy na gwariant uwch ar weithgareddau presennol. Felly, hyd at 2014, gostyngodd gwariant net 14% ac mae rhagamcanion hyd at 2015/16 yn awgrymu y gwelir gostyngiad pellach o 15% yn ystod y blynyddoedd hynny. O fewn y duedd gyffredinol hon ceir amrywiaeth eang o brofiadau. Mae rhai awdurdodau wedi cynnal (ac mewn ychydig o achosion wedi cynyddu) gwerth gwariant yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, tra bod eraill wedi lleihau cyllidebau amgueddfeydd cymaint â 50%.

93. Er y gall y rhagamcanion yn ffigur 7 fod yn rhai pesimistaidd, mae rhagolygon gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn awgrymu, hyd yn oed os bydd gwariant cyhoeddus yn dechrau cynyddu eto, y bydd angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol barhau i wneud dewisiadau anodd. Mae'r galwadau ar gyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol o du poblogaeth sy'n heneiddio yn arwain y Sefydliad Astudiaethau Cyllid i awgrymu, hyd yn oed o safbwynt optimistaidd, y gallai gwariant ar wasanaethau diwylliannol fod 24% yn llai mewn termau real yn 2025/26 nag ydoedd yn 2013/14.<sup>50</sup> Pe bai toriadau o'r maint hwn yn cael eu gwneud yng nghyllidebau amgueddfeydd byddai'r cyllid a ddarperid iddynt ar yr un lefel mewn termau real ag yn y 1950au, pan oedd nifer yr amgueddfeydd a oedd yn cael eu rhedeg gan gynghorau ond yn cyfateb i chwarter yr amgueddfeydd a redir gan gynghorau heddiw.

<sup>49</sup> Ystadegau Ariannol Llywodraeth Leol Cymru (Llywodraeth Cymru 1998-2013)

<sup>50</sup> Deaner, B. a Phillips, D. *Scenarios for the Welsh Government Budget to 2025–26* (Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid 2013)

94. Nid yw'r trefniadau presennol yn darparu ar gyfer mabwysiadu dull strategol o ymdrin â gostyngiadau mewn gwariant o'r maint hwn. Yn aml mae gan yr amgueddfeydd hynaf sylfaen costau uwch am eu bod yn tueddu i gynnwys casgliadau mawr sy'n cynnwys deunydd o'r tu allan i'w hardal eu hunain. Mae hyn yn golygu eu bod yn arbennig o agored i ostyngiadau mewn cyllid. Er bod amgueddfeydd yn arbennig o bwysig i'w cymunedau eu hunain, dylai fod gan y rhai sy'n cadw deunydd o bwys ehangach i fywyd diwylliannol ac ymchwil wyddonol, yng Nghymru a thu hwnt, le arbennig ymysg treftadaeth Cymru.

95. Mae nifer fach yr ymwelwyr yn golygu mai prin yw'r adnoddau i gynhyrchu elw gwirioneddol o weithgareddau masnachu (megis manwerthu ac arlwyo). Fel arfer mae trosiant sy'n deillio o weithgareddau masnachu i'w briodoli i gostau a adenillwyd yn hytrach nag elw, ac mae'n debygol, ar ôl didynnu treuliau, mai ychydig o weithgareddau o'r fath sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at gostau rhedeg. Ymddengys fod llawer o gynghorau yn ystyried bod yr incwm a gynhyrchir yn ddibwys, i'r graddau bod gweithgareddau sy'n cynhyrchu incwm wedi'u cwtogi o ganlyniad i doriadau mewn gwariant, ac, felly, lleihaodd incwm a enillir 22% mewn termau arian parod rhwng 2010/11 a 2013/14.

96. Yn gyffredinol, mae amgueddfeydd awdurdodau lleol yn adennill tua 19% o'u gwariant o nifer o ffynonellau. Cyfrannodd ffioedd mynediad, gwerthiannau a thaliadau £1,080 miliwn yn 2013/14, neu tua 80c fesul ymwelydd. Er bod y rhan fwyaf o amgueddfeydd awdurdodau lleol yn adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru, sef y dylai fod mynediad am ddim i Amgueddfa Cymru, y cynghorau hynny sy'n codi tâl (ac yn 2011 roedd traean o amgueddfeydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn

gwneud hynny<sup>51</sup>) sy'n cynhyrchu'r incwm mwyaf. Mae'r tâl mynediad a godir gan awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr ac fel arfer mae cost tocyn teulu yn amrywio rhwng £9 a £18. Yn 2011, dim ond 11% o amgueddfeydd awdurdodau lleol a oedd yn codi tâl a oedd yn credu bod yr arian a gasglwyd yn fwy na chostau codi'r tâl.<sup>52</sup>

97. Mae nifer fach o amgueddfeydd a redir gan gynghorau yn cael budd o fuddsoddiadau a chronfeydd eraill sy'n gysylltiedig ag ymddiriedolaethau elusennol, neu o incwm rhent o eiddo a gyfrannodd, ynghyd ag incwm amrywiol arall, £0.421 miliwn, neu 20% o incwm amgueddfeydd ac orielau o bob ffynhonnell, yn 2013/14. Darparodd grantiau'r Llywodraeth ac arian gan ddsbarthwyr y Loteri Genedlaethol 29% o'r incwm o bob ffynhonnell (£0.605 miliwn). Rhwng 2004 a 2014 rhoddodd Is-adran Amgueddfeydd, Oriellau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gyfrwng Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriellau Cymru, grantiau gwerth cyfanswm o £5.2 miliwn, gyda £2.8 miliwn o'r swm hwnnw yn mynd i wasanaethau amgueddfeydd awdurdodau lleol. Heb grantiau o'r fath byddai'n amhosibl i rai amgueddfeydd gynnal eu busnes craidd.

## Buddsoddi

98. Mae angen i amgueddfeydd fod yn lleoedd deinamig er mwyn iddynt gadw diddordeb y cyhoedd a pharhau i fod yn rhan berthnasol o fywydau lleol. Golyga hyn fod angen buddsoddi'n barhaus mewn arddangosfeydd ac adeiladau, yng nghyd-destun her a hawl pobl i ddisgwyl gwasanaeth gwell.

99. Ers 1996, mae awdurdodau lleol wedi gwario tua £2 filiwn y flwyddyn ar amgueddfeydd, ar gyfartaledd - sef tua 0.2% o gyfanswm gwariant refferniw

<sup>51</sup> *Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011* (Llywodraeth Cymru 2013) tud79

<sup>52</sup> *Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011* (Llywodraeth Cymru 2013) tud96



awdurdodau lleol. Mae hyn yn cyfateb i tua £40k y flwyddyn fesul amgueddfa. Nid yw'r rhan fwyaf o amgueddfeydd a redir gan gynghorau wedi gwneud cais am fuddsoddiad hirdymor yn eu cynnyrch.

100. Ers iddi gael ei sefydlu yn 1994, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi cyfrannu mwy na £1 biliwn i amgueddfeydd yn y DU. Fodd bynnag, dim ond rhyw £24 miliwn y mae wedi'i roi i amgueddfeydd lleol yng Nghymru, yr aeth £16 miliwn ohono i wasanaethau amgueddfeydd awdurdodau lleol. O'r grantiau hyn, rhoddwyd £13 miliwn i brosiectau a oedd yn brosiectau cyfalaf yn bennaf, gyda £5 miliwn o'r swm hwnnw yn cael ei roi ers 2010. Gan ystyried cyfalaf a ariannwyd gan y loteri a wariwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar ddatblygiadau mewn orielau, yn arbennig Oriel Glynn Vivian yn Abertawe, mae cyfanswm y buddsoddiad a ariannwyd gan y loteri yn adeiladau amgueddfeydd ac orielau ac mewn arddangosfeydd a gwasanaethau i ymwelwyr yng Nghymru tua £15 miliwn, neu £750k y flwyddyn, ar gyfartaledd, ers 1995.

101. Yn ôl unrhyw safon, mae'r buddsoddiad mewn amgueddfeydd lleol yng Nghymru, o ba ffynhonnell bynnag, wedi bod ar raddfa fach. Nid yw hyn wedi gwneud fawr ddim i wella ansawdd yr hyn a gynigir gan amgueddfeydd yng Nghymru, yn arbennig o'i chymharu â'r datblygiadau sydd wedi digwydd mewn rhannau eraill o'r DU.

102. Mae'n rhaid i'r gwaith o newid a datblygu amgueddfeydd lleol yng Nghymru gael ei lywio gan weledigaeth glir o'r hyn y dylent fod yn ei ddarparu i bobl Cymru. Mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol, ond mae'n rhaid iddo fod yn seiliedig ar waith cynllunio strategol rhagorol a safonau gweithredol uchel, sydd â'r nod o gyflawni cyfres o flaenoriaethau clir. Heb hynny, bydd amgueddfeydd lleol yng Nghymru yn parhau i ddirywio, o ran yr hyn y maent yn ei gynnir i'r cyhoedd a lles eu casgliadau.

## Codi arian

103. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau amgueddfeydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn dibynnu'n fawr ar arian grant. Daw'r rhan fwyaf o'r arian hwn o lywodraeth ganolog a llywodraeth leol neu ddsbarthwyr y Loteri Genedlaethol. Fel arall, mae gweithgarwch codi arian wedi'i gyfyngu i gyfraniadau gan grwpiau Cyfeillion ac arian o flychau rhoddion, lle maent i'w cael.

104. Prin yw'r amgueddfeydd a redir gan awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n mynd ati mewn ffordd strategol i godi arian ac, yn wir, gall systemau rheoli ariannol cynghorau fod yn rhwystr i hyn. Mae gan ddwy amgueddfa leol ymddiriedolaeth ddatblygu gysylltiedig sydd â'r nod o gynyddu rhoddion gan unigolion er mwyn cefnogi'r amgueddfa (gan sicrhau'r budd mwyaf posibl o Gymorth Rhodd), ceisio cymynroddion a denu cyfraniadau gan ymddiriedolaethau a sefydliadau. Gall ymddiriedolaethau datblygu ac, yn wir, grwpiau Cyfeillion, fod yn garfanau pwysu allanol pwerus am eu bod yn rheoli'r adnoddau datblygu a grëir ganddynt.

105. Mae gweithgarwch codi arian hefyd yn gofyn am adnoddau. Mae'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd o fewn amgueddfeydd yn golygu mai grantiau Llywodraeth Cymru a grantiau llai Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer gweithgareddau yw'r unig ffynonellau cyllid y gallant fanteisio arnynt. Mae nifer y grantiau gan gyrff yn y sector amgueddfeydd yn gymharol fach ac ni cheir bron dim grantiau gan ymddiriedolaethau a sefydliadau. Mae'n debyg bod cyfanswm cyfraniadau o'r fath yn llai na £50,000 y flwyddyn, ac mewn rhai blynyddoedd mae gryn dipyn yn llai.

106. Mae codi arian yn her i elusennau yng Nghymru (mae arolwg diweddar wedi dangos, ar y cyfan, fod llai o arian yn cael ei roi i elusennau yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill o'r DU<sup>53</sup>). Yr incwm o roddion unigol a chorfforaethol i'r pedair elusen ddiwylliannol fwyaf yng Nghymru yn 2013/14<sup>54</sup> oedd £6.629 miliwn, a chostiodd £1.202 miliwn i'w godi, sef cymhareb buddsoddi i ennill o 1 : 5. Roedd yr arian hwn yn cyfateb i 7% o incwm crynswth yr elusennau hyn, sy'n ganran isel iawn. Mae'r potensial ar gyfer codi arian gymaint yn llai mewn sefydliadau llai o faint oherwydd, heb godwyr arian penodol, mae'n anodd neilltuo amser i godi arian yn wyneb pwysau anghenion eraill a hefyd rheoli'r pwysau amser sy'n gysylltiedig â chwblhau pecynnau ariannu cymhleth. Os bydd yn penderfynu cyflogi codwr arian profiadol, hyd yn oed yn rhan-amser, mae angen i amgueddfa fod yn hyderus y gall godi arian anghyfyngedig gwerth o leiaf £30k, dim ond er mwyn talu gorbenion ei gweithgarwch codi arian.

107. Mae'r sefyllfa yn fwy heriol byth i amgueddfeydd a redir gan awdurdodau lleol. Mae llawer o bobl yn ystyried y dylai amgueddfeydd gael eu hariannu gan wariant cyhoeddus yn hytrach nac o'u pocedi eu hunain ac efallai fod pobl leol yn gyndyn i wneud cyfraniadau gwirfoddol ar ben yr hyn y maent yn ei dalu fel treth gyngor. Mae dulliau modern o godi arian megis cyllido torfol yn debygol o fod yn llai llwyddiannus yn yr amgueddfeydd hynny na allant roi hwb i'w hapêl drwy gynnig gwobr am eu rhodd. Mae hyn yn aml yn seiliedig ar fynediad am ddim, nad yw'n opsiwn i amgueddfa awdurdod lleol nad yw'n codi tâl.

## Gweithlu a Rhwydweithiau

108. Fe'n trawyd nid yn unig gan ymroddiad y staff arbenigol y gwnaethom gyfarfod â hwy ond hefyd gan y ffaith bod cymaint ohonynt nad oeddent yn ymwybodol o arfer gorau yn y sector. Mae adroddiad blaenorol ar amgueddfeydd yng Nghymru<sup>55</sup> wedi cyfeirio at y ffaith bod gweithwyr mewn amgueddfeydd, yn ogystal â bod wedi'u hynysu oddi wrth ei gilydd, hefyd yn anymwybodol o ddatblygiadau prif ffrwd mewn amgueddfeydd mewn mannau eraill. Cydnabyddir yn gyffredinol fod ynysu o'r fath yn peri risg i allu staff ac ansawdd yr hyn a gynigir gan yr amgueddfa. Er bod nifer o ffactorau, gan gynnwys y rhyngwyd, wedi helpu i leihau ynysu ymhlith y gweithlu amgueddfeydd, mae gorwelion llawer o bobl sy'n rhedeg amgueddfeydd yng Nghymru yn gul. Yng ngeiriau un gweithiwr amgueddfa, 'mae angen i ni fynd allan yn fwy aml.'

109. O ran hyfforddiant, Llywodraeth Cymru yw prif ddarparwr cyrsiau hyfforddi arbenigol i'r sector yng Nghymru, drwy ei His-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd. Mae pob cwrs a gynigir am ddim ac yn agored i unrhyw un sy'n gweithio mewn amgueddfeydd achrededig, p'un a yw'n gyflogedig neu'n gwirfoddoli. Maent yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau o reoli newid i gynllunio ar gyfer trychinebau ac o ofalu am gasgliadau i reoli gwirfoddolwyr. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar arolwg blynyddol o anghenion hyfforddi ynghyd â chynghor gan gynghorwyr. Nid yw'n ofynnol dilyn cyrsiau ac fel arfer nid ydynt yn dyfarnu credydau.

<sup>53</sup> Y Trydydd Sector, *Fundraising survey: Giving is still strong - but what about trust?* ([www.thirdsector.co.uk](http://www.thirdsector.co.uk) 2015) tud32

<sup>54</sup> Amgueddfa Cymru (yn cynnwys gwerth asedau treftadaeth a roddwyd), Canolfan Mileniwm Cymru, Opera Cenedlaethol Cymru (yn cynnwys nawdd) a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

<sup>55</sup> Morris, Yr Athro B., *Y Comisiwn Sefydlog ar Amgueddfeydd ac Oriolau Report on Museums in Wales* (Llyfrfa Ei Mawrhydi 1981) tud38

110. Gan ddefnyddio arian gan Lywodraeth Cymru, mae Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru yn cynnig grantiau hyfforddi a datblygu i helpu'r gweithlu amgueddfeydd i ddilyn rhaglenni hyfforddi arbenigol, megis Aelodaeth Gyswllt o Gymdeithas yr Amgueddfeydd, neu rwydweithio drwy fynd i gynadleddau'r sector. Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad i nodi a yw'r adnodd hwn yn cael ei wario'n effeithiol ac a yw lefel y gwariant yn ddigonol.

111. Nid oes unrhyw ffordd o ennill cymhwyster amgueddfa cydnabyddedig drwy'r sector Addysg Uwch yng Nghymru ac nid oes unrhyw lwybr datblygu effeithiol drwy gymwysterau NVQ. Mae'r sector yn cynnwys llawer o unigolion ymroddedig, ond nid ydynt yn cael cyfle i wireddu eu potensial sy'n golygu bod Cymru ar ei cholled. Fodd bynnag, mae Agored Cymru bellach wedi datblygu cymwysterau NVQ lefel 4 a 5 newydd sy'n ymwneud â rheoli casgliadau.<sup>56</sup>

112. Mae sefydliadau sy'n cwmpasu'r DU gyfan megis Cymdeithas yr Amgueddfeydd a Chymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol wedi gwneud ymdrech bendant i sicrhau bod eu rhaglenni a'u gweithgareddau yn hygyrch i'r rhai sy'n gweithio yng Nghymru. Mae Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru bellach yn rhan hanfodol o'r sector amgueddfeydd yng Nghymru ac mae'n hwyluso cyfathrebu a chysylltiadau ar sail hunangymorth. Ac eto, mae'n dal yn siomedig bod presenoldeb staff amgueddfeydd yng Nghymru mewn cyfarfodydd a chynadleddau yn aml yn dibynnu ar gymorth grant gan arianwyr allanol.

113. At hynny, nid oes unrhyw system o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus nac unrhyw ofyniad i'w ddarparu, heblaw am CPD Plus, a weithredir gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd<sup>57</sup> ac, felly, prin yw'r cyfleoedd ar gyfer secondiadau, mentora neu gysgodi gwaith.

114. Rydym yn ymwybodol bod nifer y swyddi sy'n gysylltiedig â chasgliadau arbenigol wedi graddol leihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Sefydlwyd y prosiect diweddar *Tacsonomeg a Thacsidermi: Cysylltu Casgliadau Gwyddorau Naturiol yng Nghymru*, a ariannwyd gan Sefydliad Esmée Fairbairn, drwy Gymdeithas yr Amgueddfeydd, mewn ymateb i'r ffaith bod bron pob un o'r swyddi gwyddorau naturiol mewn amgueddfeydd lleol yng Nghymru wedi'u dileu. Er nad oes angen i bob amgueddfa gyflogi gwyddonydd naturiol, mae angen i arbenigedd o'r fath fod ar gael i amgueddfeydd â chasgliadau perthnasol. Mae materion tebyg yn effeithio ar fathau eraill o gasgliadau, gan gynnwys archeoleg. Gellid rhannu arbenigedd, mewn cysylltiad â swyddogaethau amgueddfa eraill yn ogystal â chasgliadau, drwy gytundebau partneriaeth.

115. Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at bartneriaeth fel ffordd o fynd i'r afael â phwysau presennol a galluogi cynaliadwyedd yn y dyfodol. Ceir sawl rhwydwaith anffurfiol ledled Cymru ac maent yn cynnig cyfle i weithwyr proffesiynol yn y sector rannu profiadau a datblygu trefniadau cydweithio. Gwelwyd nifer fawr o fentrau partneriaeth yn y Gogledd yn arbennig dros y blynyddoedd ond mae'r mentrau hyn wedi dibynnu ar gyllid allanol a phan ddaw'r cyllid hwnnw i ben bydd prosiectau nail ai'n dirwyn i ben neu'n cael eu rhoi o'r neilltu.

<sup>56</sup> Agored Cymru, Cyfeiriadur Chymwysterau ([www.agored.cymru](http://www.agored.cymru) 2015)

<sup>57</sup> Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Professional Development ([Museumsassociation.org](http://Museumsassociation.org) 2015)

116. Nid yw trefniadau cydweithio o'r fath yn gofyn am rannu adnoddau a risgiau ar raddfa fawr. Mewn rhai achosion nid yw canlyniadau prosiectau bob amser wedi'u gwerthuso i'r graddau sydd eu hangen er mwyn gwneud achos darbwyllog dros barhau â'r prosiect. Er bod sgysiau ar lefel rheolwyr canol a swyddogion yn parhau, sy'n arwain weithiau at gomisiynu adroddiadau gan ymgynghorwyr blaenllaw ym maes amgueddfeydd sy'n annog cynnydd, yn ddieithriad ymddengys na cheir lefel y gweithgarwch ymgysylltu gan uwch reolwyr neu Aelodau Etholedig sydd ei angen er mwyn troi geiriau yn weithredoedd. Ac nid yw gwaith partneriaeth mewn meysydd unigol megis addysg, marchnata neu arddangosfeydd dros dro yn ateb ynddo'i hun ychwaith. Nododd un ymgynghorydd amgueddfeydd adnabyddus os nad yw gwasanaeth amgueddfa yn gynaliadwy nawr, ni fydd cydweithio ar rai agweddau yn newid hynny, ac ni fydd ailwampio ar raddfa fach yn sicrhau gwasanaeth cynaliadwy.

117. Yn gyffredinol, prin yw'r cyfleoedd i ddatblygu neu ddangos y sgiliau a'r arweiniad sydd eu hangen er mwyn datblygu gwasanaethau. Gellid dadlau bod hyn wedi lleihau gallu amgueddfeydd i ddenu a chadw staff o ansawdd uchel ac wedi cyfrannu at y diffyg proffil sydd gan amgueddfeydd o fewn awdurdodau lleol a'r ffaith eu bod wedi disgyn i lawr drwy'r strwythur sefydliadol.

118. Mae gwirfoddolwyr hefyd yn chwarae rôl allweddol wrth ddarparu gwasanaethau amgueddfeydd a dylid llwyr werthfawrogi eu cyfraniad. Mae'r sector annibynnol, yn arbennig, yn dibynnu arnynt ac mae 16 o amgueddfeydd annibynnol yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr yn unig heb unrhyw staff cyflogedig.<sup>58</sup>

119. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy'n ymddiriedolaeth elusennol annibynnol, yn un o brif gyflogwr unigol staff proffesiynol cyflogedig yng Nghymru, gyda 400-500 o aelodau o staff (llawn amser a rhan-amser). Mae ganddo enw da iawn am ddenu gwirfoddolwyr a chynnig cyfleoedd gwyb ac amrywiol, gan gynnwys gwyliau gwaith yn ogystal â darparu hyfforddiant a chymorth ardderchog. Yn 2015, rhoddodd gwirfoddolwyr yng Nghymru fwy na chwarter miliwn o oriau o'u hamser. Mae angen staff cyflogedig i reoli gwirfoddolwyr ac mae'n rhaid iddynt feddu ar y sgiliau a'r hyder i wneud hynny. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi nodi nad yw fyth yn penodi gwirfoddolwyr yn lle staff cyflogedig ac y gallai barhau i weithredu ar lefel sylfaenol heb gyfraniad gwirfoddolwyr.

120. Mae gan amgueddfeydd lleol wirfoddolwyr hefyd ac enghreifftiau da o arfer gwirfoddolwyr a phrosiectau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr, gan gynnig amrywiaeth o sgiliau a chyfleoedd i'w gwirfoddolwyr. Maent yn tueddu i fod yn llai niferus na'r amgueddfeydd a geir o fewn y sector annibynnol ond mae'n amlwg eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu hymrwymiad a'r arbenigedd y maent yn ei gynnig.

121. Credwn y dylai unigolion sy'n gweithio mewn amgueddfeydd deimlo eu bod yn rhan o sector ehangach ac rydym o'r farn bod angen cynnal asesiad annibynnol o anghenion datblygu gweithlu'r sector. Dylai ystyried anghenion strategol y sector amgueddfeydd yng Nghymru, gan nodi'r bylchau mewn gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y rhaglen i drawsnewid y sector amgueddfeydd a gynigir yn yr adroddiad hwn.

<sup>58</sup> *Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011* (Llywodraeth Cymru 2013) tud73

## Strwythurau

122. Mae darpariaeth amgueddfeydd ledled Cymru yn dameidiog iawn o ran llywodraethu, dulliau cyflawni a'r gweithlu. O fewn y system awdurdodau lleol, mae gwasanaethau amgueddfeydd wedi'u lleoli o fewn amrywiaeth o adrannau gwahanol sydd eu hunain wedi bod yn newid yn barhaus, bron, ers y 1970au. Mae'r dyddiau pan oedd amgueddfeydd yn uned weithredu ar wahân, gyda phennaeth yr amgueddfa yn atebol i un o bwyllgorau'r cyngor, wedi hen fynd heibio. Yn sgil cyflwyno'r system cabinet o lywodraethu mae'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau wedi'i drosglwyddo o bwyllgorau i aelodau unigol o'r pwyllgor gweithredol / cabinet neu uwch reolwyr o dan gynlluniau dirprwyo.

123. Felly, mae amgueddfeydd bellach yn uned o fewn nifer fach o adrannau cyngor amlswyddogaeth, wedi'u halinio â gwasanaethau sy'n seiliedig ar fodolau busnes a modelau gweithredu gwahanol. Mae'r swyddog amgueddfa uchaf o fewn llawer o awdurdodau ar y drydedd haen neu'n is, ymhell o'r penderfynwyr allweddol yn yr awdurdod. O ganlyniad i'r trefniadau hyn, mae'r rhan fwyaf o'r amgueddfeydd a redir gan awdurdodau yng Nghymru yn gorfforaethol anweladwy.

124. Gwnaeth ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 waethygu'r anawsterau hyn. Arweiniodd datgyfuno'r Cynghorau Sir mwy o faint yn awdurdodau unedol, a oedd yn aml yn seiliedig ar ardaloedd gweinyddol cyn-gynghorau dosbarth, at bwysau cyllidebol yn ogystal â cholli arbenigedd gwasanaeth-benodol ar lefel uwch. Aeth y sefyllfa hon a oedd eisoes yn anfoddhaol yn anghynnaladwy yn dilyn y gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus a welwyd ar ôl 2010. Rydym bellach wedi cyrraedd y sefyllfa lle mae nifer gynyddol o awdurdodau lleol

am roi'r gorau i ddarparu amgueddfeydd fel gwasanaeth a reolir yn uniongyrchol. Mae nifer o gynghorau yn datblygu ymddiriedolaethau fel ffordd o gyfyngu ar eu cyfrifoldeb ariannol, heb ildio rheolaeth o reidrwydd.

125. Er yr ymddengys nad yw strwythurau awdurdodau lleol lle mae amgueddfeydd wedi'u lleoli yn addas i'r diben mwyach, nid oes unrhyw seilwaith rhanbarthol na chenedlaethol ychwaith. Mae angen y seilwaith hwn er mwyn rhoi cyfeiriad strategol, darparu arbenigedd a chydgyssylltu gwasanaethau, yn arbennig ar draws ffiniau awdurdodau. Er bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth a chyngor, yn ogystal â rhywfaint o gyfeiriad strategol drwy ei His-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, a'i Strategaeth Amgueddfeydd, mae hyn yn dibynnu ar dîm bach o arbenigwyr. Ni ellir gwarantu y bydd hyn yn parhau ar ei ffurf bresennol.

126. Deuwn i'r casgliad bod angen datblygu strwythur newydd sy'n rhoi cymorth strategol a gweithredol i amgueddfeydd lleol yng Nghymru. Ni ddylai'r strwythur hwn gael ei gyfyngu gan ffiniau presennol awdurdodau lleol a dylai fod iddo ffocws cenedlaethol a rhanbarthol, tra bod gwasanaethau amgueddfeydd yn parhau i gael eu darparu yn lleol, lle maent yn cael eu gwerthfawrogi fwyaf ac yn gallu diwallu anghenion cymunedau orau.

## Llywodraethu a Rheoli

127. Ar hyn o bryd, mae llawer o amgueddfeydd lleol yn wynebu'r pwysau mwyaf sylweddol ar gyllid a welwyd erioed. Ar yr un pryd, mae disgwyliadau pobl yn newid. O fewn yr amgylchedd hwn, mae modelau gwahanol ar gyfer darparu gwasanaethau amgueddfeydd (anstatudol) yn cael eu hystyried a'u rhoi ar waith.



128. Nid yw newidiadau i'r math o gorff llywodraethu yn rhywbeth newydd; mae Amgueddfa Abertawe wedi cael ei rhedeg gan gymdeithas hyddysg fel elusen, prifysgol ac awdurdod lleol ar wahanol adegau ers iddi gael ei sefydlu 169 o flynyddoedd yn ôl. Mae'r pwerau eang sydd ar gael i awdurdodau lleol yn golygu bod opsiynau amgen ar gael iddynt yn lle darparu gwasanaethau amgueddfeydd yn uniongyrchol. Roedd dau sefydliad amgueddfa (sef Ymddiriedolaeth Amgueddfa Torfaen ac Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan) yn wasanaethau awdurdodau lleol gynt a ddatganolwyd, y naill yn 1978 a'r llall yn 1994, i elusennau a grëwyd yn arbennig, gyda rhai o'r asedau neu bob un ohonynt, yn y ddau achos, yn parhau i fod yn eiddo i'r priod gyngor ond gyda strategaeth, polisi a gweithrediad wedi'u hildio i'r amgueddfeydd.

129. Fodd bynnag, mae cyfluniad presennol amgueddfeydd awdurdodau lleol yn newid. Yn fwy diweddar, yn 2015, trosglwyddwyd amgueddfeydd Merthyr Tudful i ymddiriedolaeth hamdden newydd a chynigir newidiadau tebyg mewn mannau eraill. Mae cyrff o'r fath yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol, chwaraeon a gweithgareddau eraill. Gall graddfa gymharol fach gweithrediadau amgueddfa o fewn gweithrediadau ymddiriedolaeth diwylliannol / hamdden drosglwyddo'r anawsterau a wynebier ganddynt o fewn awdurdodau lleol, tra'n cyflwyno rhwystr ychwanegol, o bosibl, i wneud achos dros gymorth i'r cyngor.

130. Yn achos yr amgueddfeydd hynny sy'n parhau i fod yn wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol, gwelir fwyfwy bod awdurdodau lleol yn blaenoriaethu'r swyddogaethau statudol sy'n defnyddio'r rhan fwyaf o'u hadnoddau. Felly, mae gwasanaethau amgueddfeydd yn gweithredu ar eu hymylon ac maent yn aml yn anweladwy yn strwythur corfforaethol cyngor. Mae'r rhan fwyaf o benderfyniadau yn cael eu gwneud ar lefel rheolwyr ac anaml y mae polisi yn cael ei ystyried gan Aelodau Etholedig. Anaml y mae amgueddfeydd yn haeddu llinell gyllidebol ar wahân ac mae hyn, ynghyd â diffyg adroddiadau gweladwy ar berfformiad, yn cyfrannu at ddiffyg tryloywder.

131. Mae trefniadau llywodraethu effeithiol yn gofyn am bedair elfen sef rhagolwg, strategaeth, goruchwyliaeth rheolwyr ac atebolrwydd.<sup>59</sup> Ar hyn o bryd, mae lle i amau a yw trefniadau llywodraethu amgueddfeydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn bodloni'r gofynion hyn. Ac nid oes unrhyw sicrwydd y bydd pethau yn gwella yn y dyfodol ychwaith. Mae llywodraeth leol yng Nghymru yn newid ac mae rhaglen ad-drefnu fawr ar y gorwel. Ymddengys fod y duedd tuag at gynghorau mwy o faint sy'n blaenoriaethu swyddogaethau statudol, ailgyflunio strwythurau sefydliadol, alinio gweithgareddau â gweithgareddau awdurdodau cyhoeddus eraill a chomisiynu (ac weithiau datgomisiynu) gwasanaethau. Mae risg y bydd y tueddiadau hyn yn gwaethygu'r sefyllfa yn hytrach na'i gwella.

<sup>59</sup> Babbidge, Adrian *Successful Governance in Independent Museums* (Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol 2013) tud3

132. Mae maint bach amgueddfeydd yn golygu eu bod yn fwy tebygol o fod â synergeddau ag amgueddfeydd eraill mewn siroedd cyfagos ag â sefydliadau mewn mannau eraill o fewn yr awdurdod sy'n eu noddi. Mae gan hyd yn oed gynghorau â'r ardal weinyddol fwyaf rai swyddogaethau sydd ar raddfa mor fach fel ei bod yn gwneud synnwyr i nifer o awdurdodau gydweithio ag eraill yn hytrach na'u cyflawni ar eu pen eu hunain.

133. Mae eisoes rywfaint o brofiad yng Nghymru o weithio ar y sail hon yn y sector treftadaeth; y bartneriaeth rhwng Cyngor Dinas Abertawe ac Amgueddfa Cymru i weithredu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe, a'r gwasanaethau archifau ar y cyd ym Morgannwg a Gwent yw'r rhai mwyaf nodedig. Fodd bynnag, nid oedd fawr ddim tystiolaeth o'r math hwn o gydweithredu yn y sector amgueddfeydd.

134. Rydym yn credu'n gryf bod sefyllfa bresennol y sector amgueddfeydd lleol yng Nghymru yn golygu bod y ffordd y caiff ei lywodraethu yn y dyfodol yn fater mor ddybryd fel na ellir aros i weithredu penderfyniad terfynol ar y strwythur llywodraethu lleol a fabwysiedir yn y dyfodol. Er ein bod yn cydnabod bod sawl opsiwn ar gael i awdurdodau lleol, dylai'r angen sylfaenol i ddiogelu treftadaeth Cymru ac annog prosesau gwneud penderfyniadau effeithiol, tryloywder, atebolrwydd a rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd fod wrth wraidd unrhyw drefniadau yn y dyfodol.

## Diwylliant Sefydliadol

135. Dros y degawd diwethaf bu'n rhaid i staff amgueddfeydd, ynghyd â'r sector cyhoeddus yn gyffredinol, ddelio â lleihad sylweddol yn yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Ceir enghreifftiau o feddwl creadigol a dychmygus sydd wedi lliniaru rywfaint ar effaith y toriadau. Fodd bynnag, mae amgueddfeydd yn flaenoriaeth isel i'r awdurdodau lleol yng

Nghymru. O ganlyniad, yn gyffredinol maent ar gyrion strwythurau corfforaethol ac ar ymyl eu hystod bolisi. Mae hyn wedi rhwystro datblygiad strategaethau amgueddfeydd effeithiol ac wedi cyfyngu ar y rhai a gyflogir i redeg amgueddfeydd. Ymddengys nad oes gan yr awdurdodau sy'n gyfrifol am amgueddfeydd lleol yng Nghymru fawr ddim uchelgais ar eu cyfer. Yn eu tro, mae staff yn teimlo eu bod ymhell o brosesau gwneud penderfyniadau ac na allant ddylanwadu ar newid.

136. Mae hyn wedi arwain at ddiwylliant o ddarpariaeth sy'n araf i ymateb ac yn agored i feddylfryd byrdymor ac na all gymryd risgiau. Clywsom fod morâl yn isel, sy'n arwain at anallu i fod yn uchelgeisiol ac arloesol. Mae diffyg hyder a chyfeiriad sylweddol. Ymddengys hefyd nad yw amgueddfeydd yn gydnaws â llawer o strwythurau awdurdodau lleol, sy'n golygu ei bod yn amhosibl cynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol ac nad oes cyfle i ddatblygu arfer da. Yn gyffredinol, nid yw amgueddfeydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn datblygu. Ni all fod unrhyw ddyfodol i amgueddfeydd lleol yng Nghymru oni fydd eu diwylliant sefydliadol yn newid yn sylweddol ac oni chyflwynir strategaethau CAMPUS<sup>60</sup> a gofynion gweithredol sy'n mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd.

## Achredu a Pherfformiad

137. Er mwyn parhau i fod yn achrededig, mae'n rhaid i amgueddfeydd ddangos eu bod yn cydymffurfio â phob agwedd ar y safon drwy lenwi ffurflen bob tair blynedd. Yn y cyfamser, mae'n ofynnol i amgueddfeydd hysbysu Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau sylweddol arfaethedig i'w gweithrediadau. Yn fwy diweddar, bu'n rhaid i staff amgueddfeydd wneud hyn yn ôl-weithredol am nad ymgynghorwyd â hwy ynghylch newidiadau arfaethedig bob amser.

<sup>60</sup> Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrrol

138. Er bod Achredu yn ddull hanfodol o sicrhau y bodlonir safonau sylfaenol, mae ei brif gryfder, sef ei fod yn pennu safonau gofynnol y mae'n rhaid i unrhyw amgueddfa eu cyrraedd, hefyd yn gyfyngiad. Nid yw'n nodi targedau ar gyfer gwelliant parhaus, nac yn darparu unrhyw ddull mesur sy'n galluogi amgueddfa i ddangos sut mae'n cyflawni meysydd penodol o'i gwaith. Rydym o'r farn, er bod yn rhaid i Achredu barhau i fod yn safon ofynnol, fod angen system mesur ansawdd hefyd.

139. Mae datblygu meincnod i ddiffinio gofynion o ran ansawdd yn un ffordd o fynd i'r afael â rhai o'r diffygion a nodwyd. Byddai angen parhau i wneud hyn drwy system gadarn ar gyfer adolygu perfformiad a mesur cyflawniad. Mae'n anochel y byddai'n cynnwys gwaith hunanasesu mwy trylwyr a hyfforddiant gorfodol. Byddai ei mabwysiadau a'i rhoi ar waith yn sicrhau cyrff llywodraethu, Gweinidogion Cymru a'r cyhoedd bod amgueddfeydd lleol yn cyflawni.

## Cyfrifoldeb

140. Mae'r broses adolygu wedi hawlio sylw pawb ar y mater hwn sy'n destun pryder. Er gwaethaf llythyrau oddi wrth y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth a Chadeirydd y Panel Arbenigol, at Arweinwyr a Phrif Swyddogion awdurdodau lleol, ni chafwyd fawr ddim cyfraniad at yr Adolygiad gan unrhyw Aelodau Etholedig na chyfarwyddwyr corfforaethol. Yn hytrach, swyddogion yr amgueddfeydd a gymerodd ran yn yr adolygiad er nad oes ganddynt y statws na'r adnoddau i hyrwyddo newid o fewn eu hawdurdod.

141. Ym mhennod 1, gwnaed cymhariaeth â nifer o wledydd a rhanbarthau eraill yn Ewrop (tabl 1). Datblygir y gymhariaeth hon yn nhabl 3, sy'n nodi pwy sy'n gyfrifol am amgueddfeydd lleol. Dylid cofio bod llawer o'r gwledydd hyn yn rhan o'r Bloc Sofietaidd a'u bod yn wledydd sy'n ailymddangos y mae eu diwylliant a'u hanes yn hanfodol bwysig iddynt o ran mynegi eu hunaniaeth.



Amgueddfa Lloyd George, Llanystumdwy  
© Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

**Tabl 3: Nodweddion systemau amgueddfeydd lleol mewn gwledydd a rhanbarthau ymreolaethol yn Ewrop**

Gwlad	Fframwaith Deddfwriaethol	System amgueddfeydd a reolir gan y Wladwriaeth	Cynllun Cofrestru / Achredu	Un o Gyngorau/ Pwyllgorau'r Wladwriaeth	Cyllid Refeniw'r Wladwriaeth	Grantiau ar gyfer Prosiectau
Iwerddon			•	(1)		•
Croatia	•	•	•	•	•	•
<i>Cymru</i>			•		(3)	•
Galicia	•	•	•	(2)	•	•
Lithwania	•	•	•	•	•	•
Sardinia	•	•	•	•	•	•
Slofenia	•		•		•	•
Latfia	•	•	•	•	•	•
Estonia	•	•			•	•

*Nodiadau: (1) Cyngor Treftadaeth (2) Cyngor Diwylliannol (3) Gellir defnyddio grant cymorth gan Llywodraeth Ganolog er mwyn cefnogi gwasanaethau amgueddfeydd.*

142. Dengys hyn fod Cymru ac Iwerddon yn perthyn i draddodiad gwahanol o'u cymharu â'r gwledydd eraill. Nid oes gan yr un ohonynt sail ddeddfwriaethol sy'n cwmpasu pob amgueddfa ac er bod llywodraeth ganolog yn noddi sefydliadau cenedlaethol ac yn rhoi rhywfaint o arian ar gyfer rhai prosiectau mewn amgueddfeydd lleol, ni roddir unrhyw gymorth ariannol i gyllidebau refeniw mewn amgueddfeydd lleol. Mae'r trefniant hwn yn wahanol iawn i aelodau eraill y grŵp, sy'n rhannu'r nodweddion canlynol ym mhob achos neu'r rhan fwyaf o achosion:

- sail statudol i weithgarwch amgueddfeydd, sy'n seiliedig fel arfer ar ddeddfwriaeth sylfaenol neu ordinhad;
- system amgueddfeydd sy'n cysylltu amgueddfeydd, naill ai ar sail ddaearyddol neu yn ôl y math o amgueddfa (ac weithiau'r ddau);
- pwyllgor cyngor neu bwyllgor cynghorol a benodir gan weinidogion i roi cyngor iddynt hwy a'r amgueddfeydd ar arfer da a sut i ymateb i faterion allweddol;

- system achredu/gwerthuso a weithredir gan y wladwriaeth sy'n pennu safonau (sydd weithiau yn seiliedig ar statud) y mae angen eu cyrraedd er mwyn cael cymorth ariannol;
- cyllid refeniw a roddir gan Llywodraeth ganolog i amgueddfeydd lleol allweddol, yn ogystal â grantiau i ddatblygu prosiectau penodol.

143. Nid yw'r nodweddion hyn yn perthyn i wledydd a rhanbarthau llai o faint yn unig, ond maent yn cynrychioli traddodiad gweinyddol sefydledig mewn llawer o wledydd Ewropeaidd. Mae hyn yn cyferbynnu â'r sefyllfa yng Nghymru lle yr ymddengys fod amgueddfeydd, yn hytrach na chael eu hystyried yn ased cymdeithasol gwerthfawr, yn cael eu hystyried yn rhwymedigaeth ac yn gyfrifoldeb gan bron pob awdurdod lleol y maent yn teimlo na allant eu cyflawni i safon briodol o fewn yr hinsawdd gyllido bresennol. Mae hyn yr un mor berthnasol i amgueddfeydd a grëwyd yn ddiweddar drwy fuddsoddi cryn dipyn o arian cyhoeddus ac arian arall, ag ydyw i amgueddfeydd ac orielau hirsefydlog a fu'n ganolbwynt i'w cymunedau lleol ers canrif a mwy.



144. Yn ein barn ni, ni all awdurdodau lleol gyda'i gilydd gyflawni'r cyfrifoldeb hwn ar eu pen eu hunain. Er mwyn i Gymru gael ei hystyried yn wlad sy'n cymryd ei diwylliant ei hun o ddifrif, mae angen i'r cyfrifoldeb amdano gael ei gymryd ar y lefel uchaf. Credwn y dylai Gweinidogion Cymru dderbyn amgueddfeydd lleol fel asedau diwylliannol cenedlaethol sy'n gofyn am gyfarwyddyd, adnoddau ac, os oes angen, ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau y parheir i ddiogelu'r dreftadaeth genedlaethol yn barhaus a'i bod yn sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r cyhoedd.

## Sylwadau i gloi

145. Dengys y dystiolaeth a gyflwynwyd yn y bennod hon fod amgueddfeydd lleol yn wynebu anawsterau a heriau mawr y mae angen mynd i'r afael â hwy. Mae angen gwneud newidiadau ym mron pob maes gweithgarwch er mwyn i'r sector ffynnu yn y dyfodol. Rydym wedi gweld rhai enghreiffitiau da o ddatblygiadau ond eithriadau yw'r rhain. Mae rhannau eraill o'r sector yn aros yn eu hunfan ac ymddengys fod dirywiad yn thema bwysig i lawer ohonynt. Nid yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni gan y sector wedi bod yn ysbrydoledig a phrin iawn oedd yr unigolion a allai ymdrin â materion ehangach y tu hwnt i'w cyfrifoldebau eu hunain. Daeth dau gwestiwn i'r amlwg wrth i ni werthuso'r dystiolaeth, sef: ble mae'r arferion da mesuradwy? Beth yw'r opsiynau ar gyfer newid er mwyn ateb yr heriau presennol? Trafodir y ddau fater hyn yn y bennod nesaf.



Castell Bodelwyddan  
© Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru



## Pennod 3: Gwerthuso

146. Daeth yn glir yn gynnar fod angen i ni nodi i ba raddau yr oedd amgueddfeydd yng Nghymru yn llwyddo neu'n methu. Roedd angen i ni nodi a oedd pwynt tyngedfennol rhwng darpariaeth amgueddfeydd a oedd yn bodloni disgwyliadau rhesymol a darpariaeth a oedd yn methu â gwneud hynny. Ar yr un pryd, roedd yn rhaid i ni nodi pa opsiynau ar gyfer newid a oedd ar gael i awdurdodau lleol a'u gwerthuso.

### Arfarniad o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru

147. Fel rhan o'r broses adolygu ymwelwyd â nifer o amgueddfeydd lleol yng Nghymru. Ceir enghreifftiau da o gyflawniadau, gyda chyfranogiad ymroddedig cymunedau ac ymdeimlad clir o ymdrech a diben. Mae amgueddfeydd o'r fath yn sefydliadau rhagweithiol a dyfeisgar a chanddynt amcanion clir ac maent yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd, yn enwedig pan allant sicrhau arian allanol.

148. Fodd bynnag, mae hefyd yn wir fod gormod yn siomedig. Yn yr amgueddfeydd hyn, ymhlith y diffygion a nodwyd roedd y canlynol: diffyg gwaith cynnal a chadw sylfaenol; safonau arddangos elfennol; fawr ddim dealltwriaeth o'r ffordd orau o gael ystyr o'r casgliadau; arddangosfeydd a oedd yn rhy syml ar y gorau; casgliadau ystrydebol yn hytrach na chraff; ac odid ddim darpariaeth addysgol na gwaith gyda grwpiau ymylol.

149. Roedd angen i ni gael rhyw syniad o ansawdd amgueddfeydd er mwyn llywio'r adroddiad a gwnaethom geisio nodi mesurau y gellid eu defnyddio i asesu a deall ansawdd a sefydlogrwydd cymharol amgueddfeydd awdurdodau lleol yng Nghymru. Gwnaethom ddatblygu ffordd o roi syniad o ansawdd a safonau a phrofi'r lefelau hyn yn erbyn sampl o 52 o amgueddfeydd Achrededig sydd naill ai'n cael eu rhedeg yn uniongyrchol, neu'n cael cymorth uniongyrchol gan, lywodraeth leol yng Nghymru. Roedd y sampl hefyd yn cynnwys detholiad cynrychioliadol o wyth amgueddfa annibynnol a gafodd gymorth anuniongyrchol gan Awdurdodau Lleol yn 2010.<sup>61</sup> Gallai cymorth anuniongyrchol gynnwys y canlynol:

- cymorth i amgueddfeydd annibynnol gan staff proffesiynol;
- rhyddhad ardrethi annomestig dewisol;
- meddiannu adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor am ddim neu am rent rhad; a / neu
- ffioedd i ddarparu gweithgareddau addysgol i grwpiau ysgol.

150. Yn ddelfrydol, byddem wedi hoffi cael cyfle i ddadansoddi data rhyw fesur trylwyr o safonau, yn erbyn meini prawf cenedlaethol y cytunwyd arnynt, yn seiliedig ar waith arolygu rheolaidd a gwaith craffu annibynnol, fel sy'n gyffredin mewn nifer o feysydd o fywyd cyhoeddus, yn arbennig maes addysg. Fodd bynnag, yn achos y sector amgueddfeydd, nid oes unrhyw system o'r fath yn bodoli yng Nghymru nac ychwaith wedi cael ei datblygu yn y

<sup>61</sup> Yn seiliedig ar ymatebion a gyflwynwyd i *Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011* (Llywodraeth Cymru 2013)

DU. Defnyddiodd yr asesiad wybodaeth o arolwg Llywodraeth Cymru, Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011, ynghyd â ffigurau ar gyfer ymweliadau yn 2013, a gwariant dangosol a sgorau boddhad ar ddiwedd tymor 2014 gan TripAdvisor.

151. Gellid bod wedi ychwanegu mesurau eraill, ond nis cynhwyswyd am nad oedd unrhyw ddata ar gael. Er enghraifft, byddem wedi hoffi cynnwys gwybodaeth am y defnydd addysgol o amgueddfeydd lleol, ond nid oedd y data hyn ar gael yn llawn a lle roeddent ar gael, roedd amheuaeth ynghylch eu dibynadwyedd. Byddai rhywfaint o waith cysylltu gwybodaeth am broffiliau ymwelwyr a maint a phroffil demograffig y cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu gan yr amgueddfeydd wedi bod yn werthfawr hefyd. Yn yr un modd, byddai dadansoddiad hyddysg o berthnasedd casgliadau; manylion gweithgareddau a oedd yn cynnwys gwaith cofnodi gwerth chweil; gwaith gyda chynulleidfa oedd gwahanol; neu effaith addysgol, wedi bod yn fuddiol, ond nid oedd ar gael yn hawdd.

152. Mae Achredu Amgueddfeydd yn ddull o gydnabod bod y safonau gofynnol wedi'u cyrraedd ac mae'n parhau felly. Ni all warantu ansawdd, perthnasedd nac effeithiolrwydd unrhyw amgueddfa yn llwyr ac ni fwriedir iddo wneud hynny. Er bod Achredu yn bwysig, yng nghyd-destun yr Adolygiad hwn nid oeddem yn fodlon ei ddefnyddio fel yr unig fesur o ansawdd nac fel tystiolaeth o sefydlogrwydd, a hynny yn rhannol oherwydd y dangosyddion diamwys o anawsterau a nodwyd mewn amrywiaeth eang o adroddiadau gan ymgynghorwyr annibynnol ar amgueddfeydd yng Nghymru, yn ogystal ag mewn tystiolaeth a roddwyd yn uniongyrchol i ni.

153. Roeddem yn wynebu darlun o amgueddfeydd awdurdodau lleol yng Nghymru a oedd yn awgrymu bod diffygion systematig ar raddfa fawr. Yn hyn o beth, mae'n bosibl bod Achredu wedi llesteirio methiannau mwy sylweddol ond ni allai fod wedi atal ansawdd y ddarpariaeth rhag dirywio.

154. Mae'n rhaid ystyried bod canlyniadau ein hasesiad yn rhai dangosol, yn hytrach nag absoliwt. Serch hynny, nid oeddent wedi peri syndod mawr i ni. Roeddent yn adlewyrchu llawer o'r sylwadau a wnaed mewn nifer o adroddiadau annibynnol, yn ogystal â thystiolaeth a gyflwynwyd yn yr Adolygiad, ynghyd â'n profiad ein hunain o ymweld â sampl o'r amgueddfeydd yng Nghymru.

155. Roedd y system asesu yn seiliedig ar bedair lefel o ddarpariaeth, a nodir isod, a chrynhir y wybodaeth yn nhabl 4.

## Darpariaeth gynaleidig

156. Dangoswyd hyn gan yr amgueddfeydd hynny yr ystyriwyd, yn gyffredinol, eu bod yn rhai cynaleidig, drwy'r canlynol:

- gwaith casglu a chofnodi blaengar, strategol a rhagweithiol;
- capasiti storio wedi'i gynllunio;
- rhaglenni o arddangosfeydd, â diweddariadau rheolaidd a gynlluniwyd;
- gwaith rheoli casgliadau rhagweithiol.

157. Nododd yr asesiad fod 25% o'r 52 o sefydliadau a restrwyd yn rhai cynaleidig; cyfanswm o ddim ond 13. Yn 2013, gwariodd llywodraeth leol £258,923, ar gyfartaledd, ar bob un o'r amgueddfeydd cynaleidig. Eu ffigurau ymwelwyr

oedd 61,455 o ymweliadau yn 2013, ar gyfartaledd. Y sgôr boddhad ymwelwyr ar TripAdvisor oedd 91% (cadarnhaol). Hwn oedd y prif grŵp o amgueddfeydd lleol yng Nghymru. Ni olyga hyn na ellid gwella'r ddarpariaeth yn yr amgueddfeydd hyn, ond nododd darpariaeth o safon nad oedd i'w chael yn unman arall.

## Darpariaeth oddefol

158. Dangoswyd hyn gan yr amgueddfeydd hynny yr ystyriwyd, yn gyffredinol, eu bod yn rhai goddefol, drwy'r canlynol:

- ychydig iawn o waith casglu a chofnodi goddefol;
- fawr ddim capasiti storio;
- fawr ddim gwaith rheoli casgliadau;
- fawr ddim newidiadau i arddangosfeydd.

159. Dangosodd yr asesiad fod 46% o'r 52 sefydliadau a restrwyd yn rhai goddefol; sy'n cyfateb, i bob pwrpas, i 24. Yn 2013, gwariodd llywodraeth leol £157,426, ar gyfartaledd, ar bob un o'r amgueddfeydd goddefol. Cafwyd 18,545 o ymweliadau yn 2013, ar gyfartaledd, a'r sgôr boddhad ymwelwyr ar TripAdvisor oedd 80%. Roedd y rhan fwyaf o'r amgueddfeydd lleol yng Nghymru yn perthyn i'r grŵp hwn.

## Darpariaeth anghynaliadwy

160. Dangoswyd hyn gan yr amgueddfeydd hynny yr ystyriwyd, yn gyffredinol, eu bod yn anghynaliadwy, drwy'r canlynol:

- fawr ddim gwaith casglu na chofnodi, os o gwbl;
- storfeydd llawn neu bron yn llawn;
- arddangosfeydd nad oeddent wedi newid ers dros bum mlynedd;
- dull goddefol o reoli casgliadau.

161. Dangosodd yr asesiad fod 10% o'r 52 o sefydliadau a restrwyd yn anghynaliadwy; sy'n cyfateb, i bob pwrpas, i bump. Yn 2013, gwariodd llywodraeth leol £30,875, ar gyfartaledd, ar bob un o'r amgueddfeydd anghynaliadwy a chafwyd 12,777 o ymweliadau, ar gyfartaledd, y flwyddyn honno. Y sgôr boddhad ymwelwyr ar TripAdvisor oedd 64%.

## Heb ddsbarthiad

162. Wrth asesu'r 52 o amgueddfeydd, nodwyd 10 sy'n eiddo hanesyddol yn bennaf lle mae'r adeilad, y gosodiadau a'r ffitiadau yr un mor bwysig â'r casgliadau a gedwir ynddynt neu'n bwysicach na hwy ac, felly, prin yw'r swyddogaethau amgueddfa a gyflawnir ganddynt. Yn hyn o beth, nid ystyrir eu bod yn rhan bwysig o'r adroddiad. Roedd hyn yn cyfateb i 19% o'r sefydliadau ar y rhestr. Maent yn cyflwyno set wahanol o faterion a phryderon ac, felly, byddai angen iddynt gael eu hystyried ar wahân gan y rhai sydd â phrofiad ym maes yr amgylchedd adeiledig.

**Tabl 4: Dadansoddiad o'r sampl asesu**

Darparwr yr Amgueddfa	Cyaledig	Goddefol	Anghyaledig	Heb ddsbarthiad	Cyfanswm y sampl
Rheolir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol	10	14	5	9	38
Rheolir gan ymddiriedolaeth annibynnol ond yn ddibynnol ar gyllid craidd gan awdurdod lleol	2	4			6
Rheolir gan ymddiriedolaeth annibynnol ac yn cael cymorth anuniongyrchol gan awdurdod lleol	1	6		1	8
Cyfanswm	13	24	5	10	52
% o'r Cyfanswm	25%	46%	10%	19%	100%
Gwariant llywodraeth leol, ar gyfartaledd, yn 2013	£258,923	£157,426	£30,875		
Ffigurau ymwelwyr	61,455	18,545	12,777		
Sgôr Tripadvisor	91%	80%	64%		

163. Yn ogystal â'r 52 o amgueddfeydd a ystyriwyd yn y sampl, mae dau awdurdod lleol yn ariannu gwasanaethau cymorth amgueddfeydd yn uniongyrchol. Cydnabyddir y ddarpariaeth hon ond nid ystyriwyd ei bod yn briodol eu cynnwys yn yr asesiad o gynaliadwyedd.

## Gwaith Dadansoddi Pellach

164. I bob diben, dim ond chwarter yr amgueddfeydd lleol yng Nghymru sy'n gweithredu ar y lefel y mae'n rhesymol disgwyl i wasanaeth a ariennir, ac a redir yn broffesiynol, weithredu arni. Nid yw'n syndod mai'r amgueddfeydd a oedd yn cael y cyllid mwyaf oedd y rhain a'r rhai a gafodd sgorau boddhad ymwelwyr uwch. Nid yw'r gweddill, sy'n cyfateb i ychydig dros hanner darpariaeth amgueddfeydd awdurdodau lleol yng Nghymru y gellir ei nodi fel y cyfryw, yn cyrraedd y safon y dylid yn rhesymol ddisgwyl i awdurdod lleol ei chyrraedd. Mae dulliau goddefol yn debygol o ddifrodi cofnodion diwylliannol Cymru ac, yn ddiau, nid ydynt yn cynnig i gymunedau

y math o wasanaeth amgueddfeydd y gallent ei ddisgwyl.

165. Mae'r darlun hwn yn codi cwestiynau am ymrwymiad llywodraeth leol i amgueddfeydd a'r ffordd y maent yn cael eu hariannu, yn arbennig yr adnoddau i recriwtio a chadw staff priodol, sydd â'r amrywiaeth o sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu amgueddfeydd yng Nghymru. Mae cwestiynau hefyd am y graddau y mae'r adnoddau ffisegol a'r adnoddau eraill sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau amgueddfeydd effeithiol wedi'u darparu'n briodol.

166. Ochr yn ochr â materion ariannu, ymddengys fod amrywiaeth o broblemau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn, er enghraifft: o ran cyfeiriad strategol a phennu blaenoriaethau; hyfforddiant priodol a datblygu staff; prosesau gwneud penderfyniadau ac eiriolaeth ar bob lefel; profiad hyddysg ym meysydd manwerthu, grantiau a chodi arian; a'r gallu i ymgysylltu â darparwyr addysgol a chymunedol.

167. Yng nghanol hyn i gyd mae pobl Cymru sy'n haeddu cael mwy o sicrwydd ynghylch y ffordd y mae eu hanes yn cael ei ddiogelu. Mewn llawer o achosion, mae'r cyfoeth o gasgliadau sy'n ymwneud â Chymru a'r byd, a gasglwyd yn enw pobl Cymru, mewn perygl.

## Opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol

168. O'r dystiolaeth a ddarparwyd a'r casgliadau y daethpwyd iddynt, gwnaethom nodi ac ystyried nifer o opsiynau posibl ar gyfer y ffordd ymlaen. Disgrifir y rhain isod.

### Opsiwn1 – Gwneud Dim

169. Mae darpariaeth amgueddfeydd yng Nghymru wedi datblygu mewn ffordd anstrwythuredig dros y ganrif a hanner ddiwethaf. Wedi'u gwreiddio mewn cymunedau o le, gan adlewyrchu anghenion lleol o ran amgueddfeydd, ac wedi'u rheoli gan bobl leol, maent wedi dangos y gallant addasu mewn ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau presennol yn cydnabod bod casgliadau mewn amgueddfeydd yng Nghymru, fel rhan allweddol o'r etifeddiaeth genedlaethol, yn bwysig y tu hwnt i ffin weinyddol yr awdurdod lleol sy'n eu hariannu. Maent yn bwysig i bobl Cymru yn gyffredinol a Chymry ar wasgar.

170. Mae amgueddfeydd yng Nghymru yn fach ac mae dadl y gall eu rheoli ar y cyd â gwasanaethau diwylliannol eraill (e.e. llyfrgelloedd, y celfyddydau ac archifau), p'un a ydynt yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan gyngor neu drwy ymddiriedolaeth hamdden, neu drwy gydberthnasau ariannu ag amgueddfeydd annibynnol, ddod â manteision drwy sicrhau arbedion maint. Mae llawer o amgueddfeydd awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes yn cael eu rhedeg ar y sail hon.

171. Fodd bynnag, pan fyddant yn rhan o strwythurau cydgasglol, p'un a ydynt o fewn awdurdod lleol neu'r tu allan iddo, mae maint bach gwasanaethau amgueddfeydd yn aml yn golygu eu bod yn cael eu hymyleiddio i'r graddau eu bod yn anweladwy. Gan fod eu model busnes yn aml yn wahanol i swyddogaethau eraill y maent wedi'u cydleoli â hwy, mae'r strwythurau lle y'u ceir yn aml yn amhriodol; er enghraifft, gallai'r hyn sydd o safbwynt corfforaethol yn cael ei ystyried yn 'synergeddau' (e.e. lleoli orielau amgueddfeydd mewn llyfrgelloedd cangen) yn aml ond yn weithred symbolaidd sy'n llai na'r hyn yr ystyrid ei fod yn ddarpariaeth amgueddfa ddigonol.

172. Mae tueddiadau o ran gweinyddiaeth gyhoeddus yn y dyfodol yn debygol o weld llawer o awdurdodau lleol yn cwmpasu ardaloedd mwy o faint a fydd yn gwahanu'r gwaith gweinyddol o reoli eu hamgueddfeydd oddi wrth y cymunedau lle y'u sefydlwyd. Mae rhai amgueddfeydd, prin eu bod yn weladwy i'r cyrff llywodraethu, ac sydd eisoes mewn cyflwr bregus, yn wynebu pwysau ar gyllid awdurdodau lleol ymlaen i'r dyfodol.

173. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cylch o ddirywio eisoes wedi dechrau a fydd, ar y gorau, yn arwain at amgueddfeydd 'sombi' fydd ond yn cael digon o gyllid i gynnal casgliadau yn unig a heb unrhyw 'arian gwneud' i wneud gwelliannau a chynnal gweithgareddau a digwyddiadau sy'n annog y gynulleidfa ehangaf i ymweld â hwy. O ganlyniad, bydd diddordeb yn yr amgueddfeydd hyn yn lleihau, a fydd yn ei dro yn arwain at ragor o doriadau mewn cyllid ac at gau amgueddfeydd.



174. Fel y nododd un ymgynghorai, mae esgeulustod yr un mor effeithiol wrth ddinistrio treftadaeth ddiwylliannol â cheibiau, driliau a gyrdd, er ei fod yn llai gweladwy ac yn cymryd mwy o amser. Dim ond os bydd Llywodraeth Cymru yn gwrthod cymryd cyfrifoldeb am yr etifeddiaeth ddiwylliannol genedlaethol y bydd gwneud dim yn opsiwn.

## Opsiwn 2 – Deddfwriaeth a Gofal y Wladwriaeth

175. Mae amgueddfeydd y rhan fwyaf o'r gwledydd a'r rhanbarthau ymreolaethol Ewropeaidd sydd o faint tebyg i Gymru yn gweithredu o dan fframwaith deddfwriaethol, sydd fel arfer yn cynnwys rhai o'r elfennau canlynol neu bob un ohonynt:

- diffiniad o ystyr amgueddfa;
- datganiad o gyfrifoldebau'r llywodraeth dan sylw;
- creu pwyllgor gweithredol neu bwyllgor cynghori mewn perthynas â'r gofynion deddfwriaethol;
- nodi ar ba sail y bydd amgueddfeydd a ariennir gan y llywodraeth yn gweithredu;
- y llywodraeth yn cydnabod y safonau y bydd amgueddfeydd yn gweithredu oddi tanynt;
- rheoleiddio'r broses cofnodi a gwaredu;
- cynllun indemnio ar gyfer deunydd a fenthycir.

176. Yn draddodiadol, mae deddfwriaeth y DU wedi canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu sefydliadau cenedlaethol a galluogi awdurdodau lleol i redeg amgueddfeydd, yn hytrach na chreu fframwaith strategol a moesegol. Heb roi sylw i ystyriaethau eraill, gellid dadlau y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu dull cydlynol o ddiogelu eiddo diwylliannol Cymru ac y dylai fod gan Weinidogion

Cymru gyfrifoldeb ffurfiol yn hytrach na bod disgwyl iddynt ymateb i sefyllfaoedd, yn aml ar fyr rybudd, mewn ffordd ad hoc.

177. Nid yw'n glir i ba raddau y mae'r ymagwedd bresennol tuag at ddeddfwriaeth yn cyd-fynd â'r cysyniad o gasgliad cenedlaethol dosbarthedig (paragraff 81) a'r angen i ddiogelu etifeddiaeth ddiwylliannol genedlaethol. Fodd bynnag, mae'n baradocsaid, er bod deddfau sy'n diogelu'r dreftadaeth adeiledig yn gyffredinol, nid oes unrhyw beth cyfatebol ar gyfer treftadaeth ddiwylliannol symudol, hyd yn oed ar gyfer eiddo a gedwir mewn adeiladau sy'n agored i'r cyhoedd. Fel gofyniad sylfaenol, gellid disgwyl rhwyd ddiogelwch ar gyfer eiddo diwylliannol o bwys cenedlaethol a gedwir mewn amgueddfeydd yng Nghymru, sy'n golygu y byddai Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am eiddo o'r fath pe bai perchenogion lleol yn teimlo na allent ei gynnal a'i gadw ar gyfer y dyfodol. Gallai perchenogion gadw'r teitl i'r asedau hyn ond byddai gan Lywodraeth Cymru fuddiant hirdymor ynddynt er mwyn sicrhau y byddai'r dreftadaeth hon yn parhau i fod ar gael i'w gweld gan y cyhoedd.

178. Nid yn unig y byddai trefniant o'r fath yn ddrud i'w sefydlu, byddai'r costau sy'n gysylltiedig â'i weithredu yn creu rhwymedigaeth ansicr ar Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, yn ogystal â dileu rheolaeth leol. Byddai cwmpas y trefniant yn gyfyngedig i eiddo diwylliannol o arwyddocâd cenedlaethol ac, felly, efallai na fyddai rhai casgliadau o arwyddocâd lleol yn rhan o'i gylch gwaith, sy'n golygu y byddai'r casgliadau hynny yn wynebu dyfodol ansicr.

## Opsiwn 3 – Datganoli

179. Gwnaethom ddiffinio datganoli fel dirprwyo'r gwaith o weithredu gwasanaethau amgueddfeydd i elusennau a grëir yn arbennig. Datblygwyd y dull gweithredu arloesol hwn yng Nghymru (yn Nhorfaen a Bodelwyddan) y naill

yn y 1970au a'r llall yn y 1990au, a dim ond nawr y mae'n dod i'r amlwg. Mae trosglwyddiadau diweddar wedi'u hysgogi i raddau helaeth gan fanteision ariannol byrdymor posibl rhyddhad rhag Ardrethi Annomestig Cenedlaethol a manteision ariannol rhagdybiedig eraill. Mae'r fantais wirioneddol yn gysylltiedig â'r potensial tymor hwy i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a rhoi cyfleoedd i bobl Cymru chwarae rhan fwy gweithredol yn y gwaith o ofalu am eu treftadaeth drwy gynnig cyfleoedd i wirfoddolwyr gyfrannu at ei rheoli a'i gweithredu.

180. Yn gyffredinol, dim ond os caiff gwasanaethau amgueddfeydd eu datganoli i elusen amgueddfa-benodol y sicrheir manteision llawn datganoli, gan gynnwys gweledigaeth glir ac ymdeimlad o gyfeiriad. Fodd bynnag, mewn rhai manau, mae gwasanaethau wedi'u trosglwyddo i ymddiriedolaethau hamdden, sy'n cyflawni cyfrifoldebau'r holl wasanaethau diwylliannol a'r holl wasanaethau hamdden a arferai gael eu rheoli gan gynghorau lleol. Gan fod y rhan fwyaf o'r trosglwyddiadau hyn yng Nghymru wedi digwydd yn gymharol ddiweddar, nid yw'n glir eto a fydd y newid o fudd i amgueddfeydd ac yn arwain at waith rheoli mwy effeithiol a buddsoddiad ychwanegol, neu ai dim ond trosglwyddo anfanteision y naill sefydliad cydgasglol i'r llall y mae'r trefniadau newydd wedi'i wneud.

181. Nid yw'r broses ddatganoli yn ateb ynddo'i hun. Nid yw'n gwarantu cyllid digonol ac nid yw'n gwarantu y buddsoddir mewn gwasanaethau amgueddfeydd neu y bydd ganddynt yr adnoddau a'r gallu i gynhyrchu incwm, boed hynny drwy gymhorthdal neu elw. Mae recriwtio ymddiriedolaeth a gwirfoddolwyr eraill o'r raddfa flaenaf o boblogaethau cymharol fach, yn erbyn cefndir o gystadleuaeth gynyddol, yn her gynyddol; a gall cymhlethdodau rhedeg yr hyn sydd, i bob diben, yn fusnesau bach, fod y tu hwnt i

setiau sgiliau neu 'fannau cysurus' llawer o weithwyr amgueddfeydd.

182. Mae risgiau hefyd yn gysylltiedig â throsglwyddo nodweddiad mwyaf negyddol awdurdodau lleol (amharodrwydd i fentro ac arferion gwaith amhriodol) ac, os bydd sefydliadau a drosglwyddwyd yn methu, ni ellir gwarantu y byddant yn dychwelyd i'r sefyllfa a fodolai cyn iddynt drosglwyddo o fewn awdurdodau lleol.

## Opsiw 4 – Partneriaethau

183. Mae'r term partneriaeth yn cael ei ddefnyddio'n eang i ddisgrifio trefniadau â lefelau amrywiol o ffurfioldeb. Yma ystyrir ei fod yn golygu cydberthynas hirdymor, gyfreithiol rwymol sy'n ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid rannu adnoddau, manteision a risgiau yn seiliedig ar gydymddiriedaeth a pharodrwydd i ildio rheolaeth ormodol dros eu hasedau. Nodwyd dau fath o bartneriaeth, sef:

### a. Cydweithio

184. Mae cydweithio rhwng awdurdodau lleol yn drefniant hirsefydlog ar gyfer darparu gwasanaethau arbenigol bach; er enghraifft, mae gwasanaethau archifau Gwent a Morgannwg, a fu'n gweithredu'n effeithiol ers dros hanner can mlynedd, yn seiliedig ar y model hwn. Mae trefniadau o'r fath yn seiliedig ar gydbwyllgorau, lle y daw grŵp o gynghorau at ei gilydd, gydag un yn gweithredu fel yr Arweinydd ac yn darparu'r bersonoliaeth gyfreithiol ar gyfer materion cytundebol. Er ei bod yn bosibl cyfansoddi trefniadau o'r fath fel cwmnïau sy'n eiddo ar y cyd i'r awdurdodau lleol, nid oes unrhyw enghreifftiau o gwmnïau o'r fath yn darparu gwasanaethau yn y sector diwylliannol na'r sector treftadaeth yng Nghymru.

185. Er eu bod yn addas iawn i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn newid fawr ddim dros amser, nid yw trefniadau o'r fath yn addas i sefyllfaoedd lle mae angen newid a gwella'n barhaus. Maent yn tueddu i gael

eu llywio gan y partner sydd am wario'r swm lleiaf o arian, heb ystyried materion yn ymwneud ag ansawdd a gwerth am arian. Gall anghydfodau godi rhwng cyfranogwyr, yn enwedig ynghylch rhannu costau, a all arwain at gynghorau yn tynnu nôl o drefniadau o'r fath gan fynd i gostau sy'n gysylltiedig â phroses ddatgyfuno ddrud wrth wneud hynny.

186. At hynny, nid oes i drefniadau o'r fath unrhyw fanteision ariannol ac maent yn gysylltiedig ag arferion gwaith cyngor arweiniol a all fod yn amhriodol i amgueddfeydd ac mae costau llywodraethu yn uwch am fod angen bodloni'r gofynion statudol a osodir ar lywodraeth leol. Ac ni ellid cymhwyso trefniadau o'r fath at bob amgueddfa ychwaith, oherwydd ni allai amgueddfeydd annibynnol nac amgueddfeydd prifysgolion gyfranogi ynddynt fel partneriaid cydradd.

#### **b. Partneriaethau Rhanbarthol**

187. Mae hyd yn oed yr amgueddfeydd lleol mwyaf yng Nghymru yn endidau bach ac, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd cyfuno ac uno amgueddfeydd yn golygu na fyddant mor fach, yn hytrach na'u bod yn fwy o faint. Er mwyn darparu unrhyw beth tebyg i'r hyblygrwydd a'r arbedion maint sydd eu hangen, byddai angen strwythur yn cynnwys, o bosibl, dri sefydliad rhanbarthol, a allai hefyd greu'r potensial i rannu adnoddau megis codi arian, cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau cefn swyddfa. Byddai'n darparu dalgylch mwy o faint i recriwtio ymddiriedolwyr a'r amrywiaeth sydd ei angen er mwyn ysgogi arloesi ac atebion gwahanol sy'n hanfodol i greadigrwydd o ran arferion amgueddfa.

188. Gellid cyfansoddi trefniant o'r fath fel cydbwyllgor awdurdod lleol neu gwmni o dan berchenogaeth lwyr er mai endid elusennol fyddai'r strwythur mwyaf addas efallai, er mwyn sicrhau'r manteision ariannol sy'n gysylltiedig â statws elusennol a galluogi amgueddfeydd annibynnol ac

amgueddfeydd prifysgolion i gyfranogi. Y corff llywodraethu presennol a fyddai'n berchen ar asedau a chasgliadau pob cyfranogwr o hyd, a byddai pob un o'r cyrff hyn yn berchen ar y cyd ar endid y bartneriaeth.

189. Mae anawsterau ymarferol sylweddol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae dwyn nifer fawr o endidau ynghyd ar yr un pryd yn dasg sefydliadol fawr ac mae'n debyg na ellid gwneud hynny ar un cynnig. Gan y byddai pob cyfranogwr yn talu costau cyfreithiol trosglwyddo, gallai'r opsiwn fod yn ddrud i'w gweithredu, er y gallai'r costau fod gryn dipyn yn llai pe defnyddid proses safonol.

190. Câi'r arbedion maint a fwynheir gan rai amgueddfeydd eu colli hefyd, yn ogystal â rhywfaint o reolaeth leol ac mae risg uchel y gallai unrhyw gynnydd mewn incwm gael ei wrthbwysu gan daliadau llywodraethu a rheoli uwch. Byddai angen prawfesur lefelau o gymhorthdal o gronfeydd cyhoeddus i'r dyfodol a'u gwarantu er mwyn annog sefydliadau i gyfuno fel hyn.

## **Goblygiadau Ariannol**

191. Rydym wedi ystyried amrywiaeth o ddulliau ariannu fel rhan o'r adolygiad hwn. Mae anawsterau yn gysylltiedig â phob un ohonynt, gan gynnwys:

- cynghorau lleol yn rhannu eu gwariant presennol er mwyn cefnogi system newydd, gan gydnabod y byddai ymrwymadau sydd eu hangen i warantu cynaliadwyedd cyllid yn y dyfodol yn lleihau eu hyblygrwydd ariannol (er y byddai'r lleihad hwnnw'n ddibwys am fod amgueddfeydd ond yn cyfrif am 0.13% o gostau awdurdodau lleol);
- 'neilltuo' rhan o Grant Cymorth Refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol at ddibenion amgueddfeydd, er bod y broses neilltuo yn canolbwyntio'n fwy ar sut y caiff yr arian ei wario yn hytrach

na sicrhau y caiff ei wario'n dda ac mae baich gweinyddol yn gysylltiedig ag ef i Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol;

- trosglwyddo (yn amodol ar gytundeb rhwng y partïon) swm sy'n cyfateb i'r arian ar gyfer amgueddfeydd lleol a roddir gan y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Llywodraeth Leol i'r pennaeth cyllidebau sy'n cynnwys gwariant diwylliannol Llywodraeth Cymru, lle y câi ei ddsbarthu'n uniongyrchol;
- rhyddhau awdurdodau lleol o'u cyfrifoldeb i dalu cost darparu gwasanaethau amgueddfeydd lleol drwy ddefnyddio arian Llywodraeth Cymru i'w thalu, heb addasu Grant Cymorth Refeniw Llywodraeth leol.

192. Byddai penderfynu pa un o'r dulliau ariannu hyn sydd fwyaf addas yn dibynnu ar y trefniadau y cytunir arnynt rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i roi ein hargymhellion ar waith, yn seiliedig ar y ddealltwriaeth, er mwyn galluogi sector amgueddfeydd cynaliadwy yng Nghymru, fod yn rhaid i'r llywodraeth genedlaethol neu lywodraeth leol barhau i ddarparu lefel ddigonol o gyllid craidd.

## Sylwadau i gloi

193. Yn yr adran hon rydym wedi ceisio nodi'r elfennau y byddem yn disgwyl eu gweld mewn gwasanaeth amgueddfeydd cynaliadwy a dadansoddi, i ryw raddau, y sefyllfa bresennol yn ein hamgueddfeydd lleol gan ddefnyddio'r dystiolaeth a roddwyd i ni. Yr hyn sy'n glir yw bod gennym sector sy'n methu ac ystyriwyd opsiynau sydd ar gael i atal a gwrthdroi'r dirywiad hwnnw. Mae Pennod 4 yn crynhoi ein syniadaeth ac yn adeiladu arni er mwyn cynnig cyfres o argymhellion y credwn y byddant yn dechrau'r broses o adfer sector amgueddfeydd lleol blaengar sy'n gwneud cyfiawnder â chyflawniadau pobl Cymru, nawr ac yn y gorffennol.



Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth  
© Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru



## Pennod 4: Argymhellion a Gweledigaeth

194. Mae'r argymhellion yn y bennod hon yn rhai strategol a rhyng-gysylltiedig. Maent yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â strwythur, cyllid, ansawdd a datblygiadau eraill i'r sector. Mae'r bennod yn gorffen gyda'n gweledigaeth ar gyfer dyfodol amgueddfeydd lleol yng Nghymru.

### Fframwaith Rhanbarthol ar gyfer Amgueddfeydd yng Nghymru

195. Nid oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ar eu ffurf bresennol, y màs critigol i ddatblygu na chefnogi gwasanaeth amgueddfeydd effeithiol. Oherwydd eu maint bach mae'n fwy tebygol bod gan amgueddfeydd fwy o synergeddau ag amgueddfeydd eraill mewn siroedd cyfagos nag mewn mannau eraill o fewn eu hawdurdod lleol presennol.

196. Er ei bod yn bosibl y gallai ad-drefnu llywodraeth leol yn y dyfodol unioni hyn, nid yw'n ganlyniad anochel ac, yn wir, mae profiad yn awgrymu ei bod yn fwy tebygol o hyrwyddo (ac efallai gyflymu) dirywiad y sector. Yn y cyfamser, bydd cyflwr amgueddfeydd lleol yn parhau i ddirywio. Mae angen dybryd i'r broses newid ddechrau ymhell cyn cychwyn unrhyw raglen i ad-drefnu llywodraeth leol.

197. Ystyriwyd y posibilrwydd o sefydlu un asiantaeth genedlaethol neu rhwng wyth a 10 corff rhanbarthol gennym i reoli a chefnogi amgueddfeydd a chynnig cyfleoedd datblygu ond daethom i'r casgliad, ar gyfer sector cymharol fach, mai tri Chorff Rhanbarthol fyddai'n sicrhau'r cydbwysedd sydd ei angen rhwng gwybodaeth leol a'r angen am fâs critigol. Byddai'r cyrff hyn yn gwasanaethu'r gogledd, y de-orllewin a'r de-ddwyrain

ac mae'n bosibl y gallent gydffinio â gwasanaethau rhanbarthol perthnasol eraill ar gyfer awdurdodau lleol, treftadaeth, addysg neu ddatblygiad economaidd. Fodd bynnag, y prif feini prawf y dylid eu mabwysiadu yw nifer yr amgueddfeydd mewn rhanbarth, daearyddiaeth, y trefniadau partneriaeth presennol ac incwm amcangyfrifedig, er mwyn sicrhau bod cydbwysedd priodol ledled Cymru.

198. Y Cyrff Rhanbarthol fyddai'n gyfrifol am roi cyfeiriad a chymorth i amgueddfeydd awdurdodau lleol ac amgueddfeydd eraill o ran meysydd megis y canlynol:

- strategaeth gasglu a datblygu arddangosfeydd;
- cyllid a strategaethau ar gyfer codi arian;
- cyngor ar farchnata ac ymgysylltu â'r gymuned;
- cymorth i ddatblygu'r gweithlu – gan gynnwys rôl gwirfoddolwyr;
- creu pont rhyngddynt â mentrau cenedlaethol;
- cymorth i newid y diwylliant cyfan a dull gweithredu'r sector amgueddfeydd newydd sy'n datblygu;
- sicrhau bod partneriaethau yn gweithio'n effeithiol ac y caiff arfer da ei rannu yng Nghymru ac o'r tu allan iddi;
- mynd yn gyfrifol am reoli amgueddfeydd lleol yn yr ardal yn uniongyrchol pan ofynnir iddynt wneud hynny gan gorff llywodraethu.



199. Cawsom drafodaeth hirfaith ynghylch swyddogaethau, strwythur a chydberthynas y tri Chorff Rhanbarthol arfaethedig a daethom i'r casgliad na ddylai'r Adroddiad fod yn rhy ragnodol o ran statws cyfreithiol a threfniadau llywodraethu, y cytunir arnynt rhwng y partneriaid lleol a Llywodraeth Cymru ac a allai ddatblygu dros amser. Trafodwyd sawl opsiwn ym mhennod 3 ac mewn rhai rhannau o Gymru mae'n ddigon posibl y gallai'r Corff Rhanbarthol fod yn gydbwyllgor sy'n cynnwys aelodau o'i awdurdod lleol. Mewn manau eraill, gellid ei greu fel elusen, gan ei alluogi i gael y fantais ariannol pe bai'n cymryd y cyfrifoldeb am reoli rhai o wasanaethau amgueddfeydd awdurdodau lleol a/neu amgueddfeydd a oedd eisoes wedi'u trosglwyddo i sefydliadau nid er elw amlwasanaeth gan awdurdodau lleol. Ym mhob sefyllfa, bydd angen cydberthnasau clir rhwng cyrff llywodraethu'r amgueddfeydd a'r corff rhanbarthol sy'n cyfateb iddynt.

200. Câi'r tri Chorff Rhanbarthol eu sefydlu yn dilyn trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac amgueddfeydd ym mhob rhanbarth. Caiff y Cyrff Rhanbarthol eu sefydlu a'u hariannu gan Lywodraeth Cymru a châl eu cyllidebau eu pennu ar sail y cymorth sydd ei angen arnynt. Yn ystod y cam hwn o sefydlu'r tri Chorff Rhanbarthol, byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn sicrhau nad ydynt yn dyblygu arbenigedd, megis sgiliau curadurrol. Gallai rhywfaint o arbenigedd ar gyfer y sector amgueddfeydd lleol cyfan yng Nghymru gael ei ddarparu gan un Corff Rhanbarthol.

201. Nid ein rôl yw darparu achosion busnes manwl ar gyfer y tri Chorff Rhanbarthol ond gallai secondiadau o amgueddfeydd lleol ddarparu cyfleoedd datblygu y mae eu mawr angen ar gyfer gweithwyr amgueddfa proffesiynol. Byddai cynnwys amgueddfeydd annibynnol yn y cyrff hyn yn cyfrannu ethos ac effaith wahanol a allai fod yn fuddiol.

Mae'n rhaid i'r Cyrff Rhanbarthol lywio newidiadau mawr yn y sector hwn ac er mwyn iddynt lwyddo mae'n rhaid sicrhau bod ganddynt arweinwyr effeithiol a threfniadau llywodraethu cadarn.

202. Er mwyn gweithredu'r Argymhelliad hwn yn llawn mae angen i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru gytuno ar rôl a chylch gwaith llawn y Cyrff newydd hyn gan gynnwys yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu, eu statws cyfreithiol, trefniadau llywodraethu a'r broses o'u sefydlu. Rydym yn ymwybodol y bydd y map o gynigion ar gyfer uno cyrff llywodraeth leol ar gael cyn toriad haf Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i bod yn ddigon posibl y gallai ddylanwadu ar union gwmpas daearyddol y tri Chorff Rhanbarthol, er ei bod yn bosibl nad yr hyn sy'n gweddu i awdurdodau lleol o reidrydd fydd yn gweddu orau i amgueddfeydd lleol.

## Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, greu tri Chorff Rhanbarthol i roi arweiniad gweithredol i amgueddfeydd a ddarperir yn lleol, eu rheoli a'u cefnogi.

### Arweiniad cenedlaethol

203. Gan ystyried y sefyllfa mewn gwledydd a rhanbarthau cymaradwy, ac er mwyn ategu'r fframwaith rhanbarthol, dylid sefydlu Cyngor Amgueddfeydd cenedlaethol. Ei brif rôl fyddai rhoi arweiniad a sicrhau y caiff y gwelliannau a nodir yn yr adroddiad hwn eu gwneud.

204. Prif waith y Cyngor Amgueddfeydd arfaethedig fyddai:

- datblygu Strategaethau Amgueddfeydd cenedlaethol llwyddiannus;
- datblygu'r diffiniad o wasanaethau amgueddfeydd y dylai'r cyhoedd ddisgwyl eu cael a'i oruchwylio;

- sefydlu a rheoli rhaglen o waith ymarferol ar resymoli a datblygu casgliadau ledled Cymru;
- sefydlu trefniadau partneriaeth newydd er mwyn osgoi dyblygu gwasanaethau yn ddiangen – gan gynnwys rhwng aelodau cynghorau;
- gwneud gwaith a nodir mewn llythyrau cylch gwaith blynyddol gan Lywodraeth Cymru;
- rhoi cyfeiriad a chymorth i'r tri Chorff Rhanbarthol;
- cyfathrebu â phartneriaid ariannu allweddol;
- goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu;
- monitro newidiadau mewn ethos ac arddull sydd eu hangen er mwyn i'r sector lwyddo;
- cydgysylltu â chyrrff cyfatebol yn y DU a thu hwnt.

205. Byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu Cyngor yr Amgueddfeydd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau llythyr cylch gwaith blynyddol, a fyddai'n cynnwys gofyniad y byddai'r cyngor yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar ei gynnydd a'i flaengynllun. O gofio'r rôl ganolog a chwaraeir gan Amgueddfa Cymru, drwy roi cyngor curadurol, ei phrofiad o waith ymchwil, ei chyd-destun o fewn y DU ac yn rhyngwladol ac arbenigedd arall sydd ganddo, rydym yn awgrymu y dylai Amgueddfa Cymru gael yr adnoddau i ddarparu ysgrifenyddiaeth y Cyngor, yn ogystal ag arian ar gyfer prosiectau untro y cytunir arnynt â Llywodraeth Cymru. Byddai prosiectau o'r fath yn annibynnol ar strwythur llywodraethu Amgueddfa Cymru.

206. Dylai fod gan y Cyngor newydd gadeirydd annibynnol a dylai ei aelodau ddod o'r tri Chorff Rhanbarthol, amgueddfeydd lleol ac annibynnol, Amgueddfa Cymru, Cadw, y Llyfrgell Genedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a hefyd gyrff cynrychioliadol megis Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru. Byddai Llywodraeth Cymru yn penodi arsylwr.

207. Rydym o'r farn y gallai perthynas glir rhwng Cyngor yr Amgueddfeydd a'r Cyrff Rhanbarthol ddarparu strwythur mwy cytbwys a chefnogol, a fydd yn sicrhau manteision byrdymor a hirdymor dros amser.

## Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Cyngor Amgueddfeydd cenedlaethol er mwyn darparu arweinyddiaeth gyfunol a gweithgareddau cydgysylltiedig yn genedlaethol ar gyfer y sector amgueddfeydd.

### Siarter

208. Rydym o blaid datblygu Siarter i amgueddfeydd yng Nghymru. Mae'r Siarter yn diffinio elfennau gwasanaeth amgueddfeydd effeithiol ac mae'n nodi'r safonau a ddisgwylir. Yn bwysicaf oll, mae'r Siarter yn gwneud y sawl sy'n rhedeg amgueddfeydd yn atebol i bobl Cymru drwy'r rhwymedigaeth i amgueddfeydd ddangos eu bod yn dilyn egwyddorion y Siarter, ac i fesur hyn. Mae'r Siarter yn rhwymo â'i gilydd yr amgueddfeydd lleol hynny y mae eu cyrrff llywodraethu yn ymrwymo'n llwyr i fod yn aelodau o strwythur cenedlaethol a rhanbarthol newydd a dilyn egwyddorion canlynol y Siarter:

- mae amgueddfeydd lleol yn gweithredu yn unol â'r Siarter, yn cyflawni amcanion a bennir bob blwyddyn ac yn rhoi cyfrif yn gyhoeddus am gynnydd yn erbyn targedau ac mae eu perfformiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd;
- gallant roi tystiolaeth gadarn bob blwyddyn am y graddau y maent wedi darparu ar gyfer diddordebau cymdeithasol ac addysgol lleol, gan roi sylw dyledus i degwch cymdeithasol;
- maent yn gweithredu'n gyson â chywirdeb ac ymwybyddiaeth foesegol, gan ennyn a chadw ymddiriedaeth eu cymunedau a'u grwpiau gwasanaethau amrywiol;
- mae amgueddfeydd lleol / rhanbarthol yn cadw ac yn datblygu casgliadau a gwybodaeth fel rhan o gasgliad cenedlaethol dosbarthedig Cymru sy'n dystiolaeth amlwg o bobl Cymru, eu hanes, eu diwylliannau a'u bywydau, neu sy'n ymwneud ag amgylchedd naturiol Cymru;
- mae ganddynt fesurau ar waith i ofalu am y casgliadau hyn, ynghyd â blaenoriaethau ar gyfer gwella systemau / cyfleusterau er mwyn sicrhau y bydd tystiolaeth wedi'i dogfennu'n dda yn goroesi yn yr hirdymor;
- gallant gyfleu y gwerth cynhenid ac anghynhenid sydd i'r deunydd, cofnodion llafar ac ysgrifenedig y maent yn eu cadw ac yn datblygu;
- diogelir gwrthrychau sydd o bwys cenedlaethol a rhyngwladol, a gedwir mewn amgueddfeydd lleol, ac fe'u delir mewn ymddiriedolaeth gyhoeddus ar ran y Genedl;
- maent yn gwasanaethu pobl Cymru ac ymwelwyr â Chymru drwy arddangosfeydd a dulliau cyfathrebu eraill sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth hyddysg a beirniadol;
- maent yn defnyddio arddangosfeydd fel system arbenigol o gyfathrebu a dull o ymgysylltu â chynulleidfaeodd er mwyn canfod pethau newydd;
- maent yn cynnig cyfleoedd dysgu anffurfiol a ffurfiol sy'n arwain at gynnydd gwerthfawr mewn gwybodaeth y gellir ei fesur;
- maent yn mynd ati i ddatblygu darpariaeth ar gyfer eu cynulleidfaeodd a chynnwys eu cymunedau yn y gwaith o ddatblygu'r ddarpariaeth honno, yn arbennig grwpiau ymylol a difreintiedig;
- maent yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau addysgol a chymdeithasol, ynghyd â grwpiau diwydiant a grwpiau cymunedol, er mwyn llywio a darparu gwasanaethau effeithiol i bobl Cymru.

## Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Siarter Amgueddfeydd er mwyn pennu disgwyliadau ar gyfer amgueddfeydd cyhoeddus yng Nghymru a'r gofyniad i fesur eu cynnydd a'r safonau a gyrhaeddwyd.

### Adolygu Gwasanaethau

209. Mae awdurdodau lleol yn darparu amgueddfeydd fel gwasanaeth i'w cymunedau a chredwn yn gryf fod yn rhaid i awdurdodau lleol eu hunain hefyd benderfynu ar eu dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r fframwaith er mwyn i'r broses honno ddigwydd mewn partneriaeth â chyrff eraill. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi adolygu eu gwasanaethau amgueddfeydd neu maent yn gwneud hynny eisoes ac mae rhai wedi dod i gasgliadau penodol ynghylch y cyfeiriad ar gyfer y ddarpariaeth yn y dyfodol.

210. Rydym wedi bod yn pryderu bod y meini prawf a ddefnyddir gan lawer o awdurdodau lleol wrth wneud eu penderfyniadau yn anghyflawn ac, felly, y byddant yn arwain at ragor o ansefydlogrwydd yn y sector. Hoffem weld awdurdodau lleol yn adolygu eu penderfyniadau ac ystyried y materion canlynol:

- y rhagolygon ariannol gan gynnwys ffynonellau arian a hyfywedd;
- asesiad o’u gwasanaethau amgueddfeydd yn erbyn tri chategori cynaliadwyedd a safonau ansawdd (paragraffau 156 i 161 ym mhennod 3);
- y cymorth a roddir gan y Cyrff Rhanbarthol newydd a’r Cyngor Amgueddfeydd newydd;
- gwasanaeth effeithiol a llywodraethu cadarn;
- cyrraedd y safonau yn Siarter yr Amgueddfeydd a nodi’n glir pwy sy’n berchen ar gasgliadau;
- trefniadau sy’n cael eu datblygu gan awdurdodau cyfagos a’r cyfle i weithio mewn partneriaeth.

211. Ar ôl cynnal proses o’r fath, mae un o sawl opsiwn ar gael i’r gwasanaeth gan gynnwys y canlynol:

- caiff y gwasanaeth amgueddfeydd ei gadw gan awdurdod lleol. Bydd penderfyniad o’r fath yn gofyn am fuddsoddiad ac arweiniad er mwyn sicrhau y cyrhaeddir y safonau a nodir yn yr Adroddiad hwn;

- trosglwyddo’r gwasanaeth i endid arall. Gallai’r endid hwn fod yn awdurdod cyfagos, yn ymddiriedolaeth annibynnol, yn brifysgol neu’n gorff rhanbarthol neu gellid manteisio ar gyfleoedd eraill a allai fod ar gael mewn rhannau penodol o Gymru. Mae’n rhaid cynllunio proses drosglwyddo o’r fath ac mae sawl asiantaeth ar gael a fyddai’n darparu cyngor a chanllawiau; neu
- gellid terfynu’r gwasanaeth, gyda’r casgliad yn cael ei symud o’r amgueddfa er mwyn ei werthu’n foesebol. Ar sail ein dadansoddiad o’r sector ym mhennod 3 hwn fyddai’r opsiwn realistig i nifer o amgueddfeydd, oherwydd diffyg buddsoddiad diweddar, diffyg màs critigol o ran arbenigedd, nifer isel yr ymwelwyr a diffyg uchelgais llwyr.

212. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod sawl awdurdod lleol eisoes wedi gwneud penderfyniadau ynghylch dyfodol eu gwasanaethau amgueddfeydd ac mae llawer wedi eu trosglwyddo i gorff nid er elw a grëwyd yn arbennig neu maent wrthi’n gwneud hynny. Mewn rhai achosion, mae’r rhain hefyd yn cynnwys cyfleusterau hamdden, llyfrgelloedd, theatrau, parciau a gwasanaethau eraill ac maent yn golygu y bydd amgueddfeydd yn aros ar y cyrion ac na chânt y cymorth arbenigol sydd ei angen arnynt er mwyn sicrhau’r budd mwyaf i’r cyhoedd. Rydym yn cydnabod na ellir newid rhai penderfyniadau a wnaed ar unwaith ond rydym o’r farn y dylid dod ag amgueddfeydd ynghyd ac y bydd cyfleoedd newydd yn ymddangos ar ôl i’r Cyrff Rhanbarthol newydd gael eu sefydlu. Drwy uno teulu’r amgueddfeydd a manteisio i’r eithaf ar y cydgymorth a grëir, gellid adfer neu gynyddu eu cadernid.

213. Felly, mae’r argymhelliad hwn yn gymwys i bob awdurdod lleol ac mae angen gwerthuso opsiynau ar gyfer newid yn drylwyr er mwyn gwella’r sector yn sylweddol dros y pum mlynedd nesaf. Os mai trosglwyddo’r gwasanaeth i gorff

arall yw'r opsiwn a ffefrir mae angen ystyried pob agwedd ar y strwythur newydd a dylai cymorth fod ar gael i gynorthwyo gyda'r broses drosglwyddo. Pan fydd newidiadau eisoes wedi'u gwneud bydd angen cynnal adolygiad amgueddfa-benodol arall er mwyn sicrhau bod trosglwyddo'r gwasanaeth er budd yr amgueddfa a'i chynulleidfaoedd o hyd.

## Argymhelliad 4

Dylai awdurdodau lleol, wrth adolygu eu gwasanaethau amgueddfeydd, ystyried pob opsiwn gan gynnwys cadw'r system bresennol, trosglwyddo i fodel cyflawni amgen neu gau a dylent wneud hyn mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru.

### Datblygu Casgliadau

214. Cododd y dystiolaeth a roddwyd i ni bryderon mewn perthynas â datblygu casgliadau a gedwir gan amgueddfeydd ledled Cymru. Rydym yn cefnogi'r casgliad cenedlaethol dosbarthedig ac yn credu bod angen i hyn newid o fod yn gysyniad i fod yn ffordd ymarferol a thrylwyr o reoli casgliadau Cymru mewn ffordd strategol a blaengar o dan nawdd Casgliadau Cymru.

215. Mae storfeydd amgueddfeydd bron yn llawn a phrin yw'r gwaith casglu cydlynol a chyson sy'n mynd rhagddo. Mae angen i'r broses o ddatblygu Casgliadau Cymru gynnwys dull ystyriol o asesu daliadau presennol a nodi rhaglen o waith rhesymoli moesegol. Byddai hyn wedyn yn ei gwneud yn bosibl i nodi bylchau mewn casgliadau a datblygu rhaglen gasglu gyfoes, gan ychwanegu at ein cofnod materol a sicrhau na chaiff cenedlaethau'r dyfodol eu hamddifadu o'u hawl i ddeall y gorffennol drwy ei ddiwylliant materol. Mae hwn yn faes lle mae gan Amgueddfa Cymru rôl glir i'w chwarae o ran arbenigedd sy'n ymwneud â mathau penodol o gasgliadau a gofalu am gasgliadau. Byddai gan Lywodraeth Cymru a /neu Gyngor

Cenedlaethol yr Amgueddfeydd rôl i'w chwarae hefyd o ran nodi rhaglen waith ag amserlenni ac allbynnau eglur.

216. Mae datblygu cysyniad Casgliadau Cymru yn cynnig nifer o gyfleoedd i godi proffil ehangach gwaith amgueddfeydd a gwella gwasanaethau i'r cyhoedd, gan gynnwys darparu presenoldeb digidol drwy Casgliad y Werin Cymru ac mewn arddangosfeydd teithiol o safon uchel. Er mwyn sicrhau y bydd ein casgliadau yn parhau i fod yn berthnasol i'r cyhoedd a'n harianwyr mae'n hanfodol meithrin dealltwriaeth glir o'r diwylliant materol a ddelir gennym a sicrhau ein bod yn gallu cyfleu ei werth o ran hanes Cymru a gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr a'n defnyddwyr.

## Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru roi mesurau ar waith i sefydlu Casgliadau Cymru a fydd yn rhesymoli, yn datblygu ac yn diogelu casgliadau sy'n bwysig i hanes a diwylliannau Cymru.

### Datblygu'r Gweithlu

217. Yn ystod yr adolygiad daethom yn ymwybodol o'r diffyg cyfleoedd sydd i'r rhai sydd am ddilyn gyrfa yn y sector amgueddfeydd yng Nghymru. Mae lefel isel amgueddfeydd o fewn strwythurau awdurdodau lleol a diffyg buddsoddiad mewn gwasanaethau wedi arwain at dimau bach iawn, lle mae curaduron proffesiynol yn cael eu gorfodi i gyflawni llawer o rolau gwahanol heb allu cael y profiad trylwyr sydd ei angen arnynt er mwyn datblygu. Ar hyn o bryd, ymddengys ei bod bron yn anochel y bydd yn rhaid i bobl symud i ffwrdd o Gymru i ddilyn gyrfa yn y sector amgueddfeydd. Mae'r sector yn colli pobl dda ac, ar hyn o bryd, nid oes neb yn cymryd eu lle.



218. Mae'r strwythur newydd rydym yn ei argymhell yn rhoi cyfle i bobl aros yng Nghymru a symud ymlaen i rolau a fydd yn eu herio a'u datblygu. Mae hyn yn helpu i atgyfnerthu'r sector yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod y sgiliau sydd eu hangen ar gael ac y gellir darparu rolau arbenigol, pan fo'u hangen, i amgueddfeydd gwahanol. Er mwyn gwneud y newidiadau a awgrymir yn yr adroddiad hwn bydd angen hyfforddi a datblygu'r gweithlu. Bydd angen sgiliau strategol, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â rheoli newid a phontio.

219. Mae cyfraniad cadarnhaol gwirfoddolwyr wedi'i bwysleisio gan nifer o'r rhai a ddarparodd dystiolaeth, yn arbennig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Dylai unrhyw strwythur newydd geisio parhau i roi'r cymorth traddodiadol i'r sector gwirfoddol a chynnig cyfleoedd i wirfoddoli mewn amgueddfeydd lleol. Mae gwella'r sgiliau sydd eu hangen i reoli gwirfoddolwyr, ac annog gwirfoddolwyr i fanteisio ar gyfleoedd datblygu, oll yn rhan o'r broses o wella sgiliau'r gweithlu yng Nghymru.

220. Credwn y dylid cynnal adolygiad o'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd ar gael, gan ystyried y cymwysterau sydd ar gael, eu lefelau, a sut y gall y gweithlu yng Nghymru fynd ati i'w hennill a beth arall y gallai fod ei angen.

## Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu eraill a chyrff yn y sector gydweithio er mwyn nodi pa sgiliau sydd angen eu datblygu er mwyn cefnogi'r gweithlu yn ystod y cyfnod pontio ac ar ôl hynny, er mwyn iddo allu llwyr fodloni gofynion Siarter yr Amgueddfeydd a datblygu'r sgiliau hynny.

## Cyllid

221. Mae goblygiadau ariannol i unrhyw newid. Ar hyn o bryd, cost net amgueddfeydd lleol yng Nghymru yw tua £9.3 miliwn y flwyddyn. Oherwydd y pwysau ariannol ar gyllid cyhoeddus a ddisgwylir yn ystod y blynyddoedd i ddod, ni ddisgwylir i'r ffigur hwn gynyddu yn y byrdymor. Fodd bynnag, efallai na fyddai'n afresymol i swm o'r fath, er ei fod yn ddbwys mewn perthynas â chyfanswm gwariant cyhoeddus Cymru, gael ei ddefnyddio fel meincnod ar gyfer y dyfodol, a'r her fyddai cynyddu'r gwerth a sicrhau ganddo. Er mwyn gwneud hyn, yn ogystal â diwygio'r systemau sy'n darparu'r arian hwnnw, bydd angen monitro sut y caiff arian ei wario a'i ennill yn lleol yn fanylach.

222. Byddai ein cynigion ar gyfer tri Chorff Rhanbarthol yn creu sefydliadau ag incwm blynyddol o rhwng £2 filiwn a £4 miliwn, a fyddai'n golygu eu bod yn chwartzel uchaf sefydliadau amgueddfa nad ydynt yn rhai Cenedlaethol yn y DU. Dim ond ar sail achosion busnes a lunnir gan y partneriaid yn y trefniadau newydd y gellir penderfynu ar y cydbwysedd rhwng gweithgareddau a gynhelir yn rhanbarthol a gweithgareddau a gynhelir yn lleol, a rhwng costau sefydlog ac 'arian gwneud'. Fodd bynnag, yn ein barn ni dylid anelu at alluogi amgueddfeydd lleol i barhau i wneud cyfraniad gwerthfawr a'r adnoddau prin (sydd o bosibl yn lleihau) sydd ar gael iddynt. Felly, o ran costau rhedeg blynyddol, dylai'r trefniadau newydd allu gweithredu am gost nad yw'n fwy i gronfeydd cyhoeddus. Er hynny, mae hyn yn rhagdybio y sicrhau rhai arbedion maint a pho fwyaf o weithgareddau a gedwir o dan reolaeth leol prinnaf yw'r cyfleoedd a fydd yn codi i wneud arbedion. Mae'n amlwg, pe na chytunid ar y ffordd ymlaen yn ystod y cam cychwynnol hwn, na fyddai arian a buddion eraill ar gael i amgueddfeydd yn y rhanbarthau hynny.

223. At hynny, bydd angen buddsoddi er mwyn ei gwneud yn bosibl rhoi ein hargymhellion ar waith. Yn ein barn ni, byddai rhwng £500,000 a £750,000 dros gyfnod o bum mlynedd yn ddigon i'w gwneud yn bosibl i gostau trosiannol gael eu talu, gyda 90% o'r arian hwn yn cael ei wario ar sefydlu a chomisiynu'r strwythur rhanbarthol, a'r gweddill yn cael ei wario ar lansio'r corff cenedlaethol. Yn y tymor hwy, ar ôl i'r strwythur ymsefydlu, efallai y bydd achos hefyd dros grantiau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau penodol (er enghraifft, mewn perthynas â Casgliadau Cymru) ond dylai hyn fod yn seiliedig ar ddyraniadau untro, efallai i roi arian cyfatebol ar gyfer ceisiadau llwyddiannus i Ddosbarthwyr y Loteri a chyrrff eraill.

## Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa drawsnewid er mwyn hwyluso'r newidiadau mawr sydd eu hangen yn y sector amgueddfeydd yng Nghymru.

### Mynediad am ddim a thaliadau mynediad

224. Mae tystiolaeth gan y sector amgueddfeydd lleol wedi dwyn mater codi tâl i'r amlwg. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw sail resymegol dros benderfynu p'un a ddylai amgueddfa godi tâl ai peidio, na faint yw pris y tocyn pan fydd yn gwneud hynny. Rydym wedi nodi bod y sector yn gyffredinol yn rhannu'n dri phrif faes, sef:

- mae Amgueddfa Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac ar hyn o bryd mae mynediad am ddim i bob un o'r saith safle. Mae mynediad am ddim wedi'i gynnig ers mis Ebrill 2001 ac mae'n un o ymrwymadau Llywodraeth Cymru;

- amgueddfeydd annibynnol: mae canran uchel o amgueddfeydd annibynnol yn codi tâl am mai dyma'r prif ddull o gynhyrchu refeniw yn amlach na pheidio. Mae'r sefydliadau hyn yn elusennau ac nid ydynt yn tueddu i gael cyllid refeniw craidd gan awdurdod lleol, er bod rhai yn ei gael;
- mae 33% o amgueddfeydd awdurdodau lleol yn codi tâl. Nid oes unrhyw gysondeb o ran p'un a ydynt yn codi tâl ai peidio ac ni nodir sut y pennir prisiau tocynnau ac nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â chodi'r tâl hwn wedi'u hasesu.

225. Credwn fod y diffyg cysondeb hwn yn peri dryswch i'r cyhoedd ac rydym yn awgrymu y dylid cynnal adolygiad o arfer presennol er mwyn nodi meini prawf i'w defnyddio ym mhob rhan o'r sector.

## Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â chyrrff llywodraethu amgueddfeydd, adolygu'r polisi a'r arfer o godi tâl am fynediad i amgueddfeydd ac, ar sail yr adolygiad hwn, ddarparu canllawiau.

### Ardrethi Annomestig Cenedlaethol

226. Un o'r prif gymhellion sy'n ysgogi awdurdodau lleol i ddatganoli'r gwaith o ddarparu gwasanaethau diwylliant a hamdden i elusennau yw'r rhyddhad statudol rhag Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n lleihau'r ardrethi busnes sy'n daladwy gan gyrff o'r fath 80%. Gan mai Llywodraeth Cymru sydd â'r prif gymhwysedd dros bolisi ardrethi busnes, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi dadlau y dylid codi ardrethi busnes ar gyfleusterau diwylliannol awdurdodau lleol ar yr un sail ag elusennau a fyddai, y mae'n dadlau, yn galluogi cynghorau lleol i arbed arian yn ogystal â rhoi mwy o ddewis i awdurdodau lleol wrth benderfynu pa fodolau ddarparu gwasanaethau a fyddai'n gweithio orau o fewn eu hardaloedd.

227. Rydym hefyd o'r farn ei bod yn anghyson y dylai statws amgueddfa o ran ardrethi busnes fod yn wahanol gan ddibynnu ar b'un a yw'n cael ei rhedeg gan elusen neu awdurdod lleol, ac yn awgrymu y dylid trin unrhyw swyddogaeth a gyflawnir gan lywodraeth leol, gan gynnwys darparu gwasanaethau amgueddfeydd, a fyddai'n bodloni gofynion ar gyfer statws elusennol pe na bai'n cael ei chyflawni gan awdurdod lleol, yn yr un ffordd ag elusennau o ran Ardrethi Annomestig Cenedlaethol.

## Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y caiff amgueddfeydd a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol ryddhad rhag Ardrethi Annomestig Cenedlaethol ar yr un sail ag amgueddfeydd a weithredir gan elusennau.

### Cyfrifoldeb am Arwain

228. Roedd y rhesymeg dros gynnal yr adolygiad hwn yn seiliedig ar gyflwr enbyd amgueddfeydd awdurdodau lleol. Mae'r ffaith bod hyn wedi'i gydnabod gan Lywodraeth Cymru yn gam cadarnhaol ac rydym yn gobeithio y bydd yr argymhellion a geir yn yr adroddiad hwn yn cynnig ffordd gadarnhaol ymlaen. Mae amgueddfeydd lleol yn gyfrifol am ddeunydd sy'n bwysig iawn i hunaniaeth Cymru ac sy'n dangos y cyfraniad y mae Cymru wedi'i wneud ac yn dal i'w wneud i'r byd. Fodd bynnag, mae wedi dod yn amlwg, o fewn y fframwaith awdurdodau lleol, nad oes unrhyw ymdeimlad gwirioneddol o gyfrifoldeb am rôl amgueddfeydd lleol wrth ddiogelu tystiolaeth bendant o hanes, diwylliannau ac amgylchedd Cymru na dealltwriaeth o'r rôl honno.

229. Credwn fod y cyfrifoldeb am roi arweiniad cyffredinol i'n treftadaeth ddiwylliannol symudol yn rhy bwysig i'w adael i awdurdodau lleol unigol. Galwn ar Weinidogion Cymru i dderbyn y rôl honno a chydabod bod angen rhoi systemau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau gwasanaethau hygyrch a reolir yn dda ar gyfer pobl Cymru ac ymwelwyr.

230. Gallai'r strwythur a argymhellir yn yr adroddiad hwn, ynghyd â'r argymhellion eraill a ategir gan system gadarn o gasglu tystiolaeth a mesurau perfformiad, roi hyder i bobl Cymru fod eu treftadaeth yn cael ei diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

231. Mae angen cynnal trafodaethau pellach ynghylch sut y gellid cyflawni'r cyfrifoldeb hwn ac a ddylid ystyried rôl deddfwriaeth o ran sicrhau na chaniateir i amgueddfeydd lleol gael eu hesgeuluso a dirywio eto.

## Argymhelliad 10

Dylai Gweinidogion Cymru fod yn ffurfiol gyfrifol am gefnogi a datblygu pob amgueddfa gyhoeddus yng Nghymru.

### Y weledigaeth ar gyfer y sector amgueddfeydd lleol yng Nghymru

232. Dylai amgueddfeydd lleol yng Nghymru fod yn arloesol, yn fentrus ac yn atebol. Dylent gael eu llywio gan gyfres o ofynion strategol clir, yn seiliedig ar arfer gorau, a'u rhedeg yn graff fel busnes gan ddangos parch mawr tuag at y cyhoedd fel eu 'cwsmeriaid' a'u partneriaid. Dylai cymunedau lleol ymfalchïo ynddynt a dylent gynnig profiad gwirioneddol bleserus i ymwelwyr. Dylent fod yn fannau lle mae pobl yn dysgu pethau ac yn cyfnewid gwybodaeth, yn fannau y mae pobl yn mwynhau ymweld â hwy yn rheolaidd. At hynny, dylent fod yn ddigon llwyddiannus fel na fyddai angen ysgrifennu adroddiadau fel hwn.

233. Rydym wedi adolygu a dadansoddi cryn dipyn o dystiolaeth am hanes a chyfluniadau presennol amgueddfeydd lleol yng Nghymru ac wedi gwneud argymhellion pellgyrhaeddol ar gyfer newid. Mae'r rhain yn seiliedig ar fwy na dim ond dealltwriaeth o'r angen i fynd i'r afael â blaenoriaethau ariannu anodd sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru ar hyn o bryd, er bod y rhain wedi bod wrth wraidd ein syniadaeth. Mae ein hargymhellion hefyd yn seiliedig ar ganfyddiadau o'r hyn y gallai ac y dylai'r sector amgueddfeydd lleol yng Nghymru fod yn ei ddarparu i bobl Cymru.

234. Drwy weithredu'r argymhellion yn llawn, sut bynnag y gwneir hynny, mewn amser, credwn y gellid trawsnewid amgueddfeydd lleol, i'r graddau nes y pennir safon Ewropeaidd hyd yn oed. Yn ddiau, dylai bennu'r nod hwnnw iddo'i hun. Mae hanes, amgylchedd a diwylliant cyfnewidiol Cymru yn haeddu hyn. Nid yw pobl Cymru yn haeddu dim byd llai. Yn eu hanfod, dylid ystyried bod amgueddfeydd yn fannau lle y gall cymunedau lleol gysylltu â chyfoeth, cymhlethdod a gwrthddywediadau bywyd yng Nghymru a'u cynnal a darparu adnoddau ar eu cyfer yn unol â hynny.

235. Yn hyn o beth, gallai amgueddfeydd lleol fod yn gyfryngau pwerus ar gyfer galluogi ymdeimlad dwfn o le a pherthyn. Wrth gwrs, ni olyga hyn y dylent fod yn ceisio lledaenu syniadau sentimental neu ddifeddwl am y gorffennol a'r presennol. Mae'r ymdeimlad o le a pherthyn i'w briodoli yn gymaint i anghytgord ac anhawster ag ydyw i gysur a rhamant.

236. Mae angen trawsnewid y sector er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon. Mae angen i amgueddfeydd lleol fod yn weladwy ac yn gredadwy. Mae angen iddynt fod yn rhagweithiol ac yn berthnasol a chael eu rhedeg yn graff â synnwyr busnes da a dylai fod ganddynt ddealltwriaeth hyddysg o gynulleidfaoedd. Ar adegau dylai amgueddfeydd lleol brocio'r meddwl a dylid caniatáu iddynt wneud hynny. Golyga hyn y dylent fod yn newid yn barhaus, gyda rhaglenni gweithredol ar gyfer ymgysylltu cymdeithasol a dysgu gydol oes.

237. Er mwyn gwneud hyn, mae angen newid y ffordd y mae casgliadau lleol yn cael eu hystyried a'u datblygu yn sylweddol. Mae angen eu helpu i oroesi; cynnal adolygiad sylfaenol o gasgliadau yw'r cam cyntaf. Wrth wneud hyn, bydd dewisiadau anodd i'w gwneud ond bydd cyfleoedd hefyd. Gellir ailddarganfod casgliadau sefydledig drwy ofyn cwestiynau newydd a chodi materion sy'n ymwneud â chyd-destun sy'n deillio o fathau eraill o dystiolaeth, p'un a yw'n dystiolaeth lafar neu ddogfennol.

238. Ochr yn ochr â hyn, er mwyn sicrhau'r newid gweddnewidiol sydd ei angen, dylid meithrin dealltwriaeth lawer mwy hyddysg o'r ffordd y gellir datblygu arddangosfeydd, fel dulliau o gyfathrebu ac ymgysylltu, er mwyn cyrraedd amrywiaeth demograffig ehangach o ymwelwyr. Mae digon o enghreifftiau da o arfer gorau ac arloesi yn y byd i ddangos beth y gellid ei wneud. Mae defnyddio technolegau newydd yn ddiofyn yn colli'r pwynt braidd, er bod gan hyn rôl bwysig i'w chwarae.



239. Mae angen meithrin cydberthnasau newydd â chymunedau, gan ddarparu ar gyfer dull gweithredu cynhwysol. Yn rhy aml mae cynnwys y gymuned wedi'i dehongli fel gwirfoddoli a dim mwy. Dim ond rhan fach o'r hyn a allai ddatblygu yw hyn. Drwy ymgysylltu â chymunedau, gall amgueddfeydd ddysgu llawer am anghenion cyfnewidiol cynulleidfaoedd, yn enwedig y rhai a gynrychiolir leiaf ym mhroffil presennol ymwelwyr ag amgueddfeydd.

240. Fel sy'n amlwg o'n hargymhellion, gellir gwireddu'r weledigaeth drwy newid a arweinir gan Lywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad cadarn a llawn dychymyg ar ansawdd a safonau amgueddfeydd lleol a'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Drwy sefydlu trefniadau rhanbarthol i gydgyssylltu'r gwaith o gyflawni strategaeth Llywodraeth Cymru, a fynegir drwy'r Siarter ac a gefnogir yn llawn gan yr awdurdodau lleol eu hunain, gallai'r amgueddfeydd lleol yng Nghymru fod yn cyflawni lefel ysbrydoledig o berfformiad yn erbyn amrywiaeth o dargedau. Gallai hyn yn ei dro ddarparu gwasanaeth hynod o werthfawr i bobl Cymru a phawb sy'n ymweld â'r wlad.



Tŷ Weindio, New Tredegar  
© Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru



# Llyfryddiaeth Detholedig

*A Strategy for the Museum Sector in New Zealand* (Museums Aotearoa / Museums of New Zealand 2005). Ar gael yn [www.museumsaotearoa.org.nz/sites/default/files/strategy.pdf](http://www.museumsaotearoa.org.nz/sites/default/files/strategy.pdf) (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Agored Cymru, Cyfeiriadur Cymwysterau ([www.agored.cymru](http://www.agored.cymru) 2015) <http://www.agored.cymru/Cymwysterau/Apprenticeships/Cultural-Heritage-Management-QCF> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Andrews, K. *Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru. Adroddiad gydag argymhellion gan y Farwnes Kay Andrews OBE ar gyfer Llywodraeth Cymru* (Llywodraeth Cymru 2014). Ar gael yn <http://www.wales.gov.uk/docs/drah/publications/140313-culture-and-poverty-en.pdf> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Arolwg Cenedlaethol Croeso Cymru: Prif ganlyniadau, mis Ebrill 2014 i fis Mawrth 2015* (Llywodraeth Cymru 2015). Ar gael yn <http://llyw.cymru/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Arolwg Ymwelwyr Cymru 2013. Hwb CyMAL* (Strategic Marketing 2013). Ar gael yn <http://wales.gov.uk/topics/cultureandsport/museumsarchiveslibraries/cymal/researchandevideance/wales-visitor-survey-2013/?lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Babbidge, Adrian. *Successful Governance in Independent Museums* (Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol 2013). Ar gael yn [http://www.aim-museums.co.uk/content/success\\_guides/](http://www.aim-museums.co.uk/content/success_guides/) (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Casgliad y Werin Cymru – People's Collection Wales ([www.casgliadywerin.cymru](http://www.casgliadywerin.cymru)) <http://www.casgliadywerin.cymru/> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Côd Moeseg ar gyfer Amgueddfeydd* (Cymdeithas yr Amgueddfeydd 2008). Ar gael yn <http://www.museumsassociation.org/ethics/code-of-ethics> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Comisiwn Warwick *Enriching Britain: Culture, Creativity and Growth* (Prifysgol Warwick 2015). Ar gael yn <http://www2.warwick.ac.uk/research/warwickcommission/futureculture/finalreport/> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Crawford R., Joyce R. a Phillips, D. *IFS Briefing Notes (BN131) Local Government Expenditure in Wales: Recent Trends and Future Pressures* (Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid 2012). Ar gael yn <http://www.ifs.org.uk/publications/6359> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Creative Industries Economic Estimates* (Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Lloeger 2015). Ar gael yn [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/394668/Creative\\_Industries\\_Economic\\_Estimates\\_-\\_January\\_2015.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/394668/Creative_Industries_Economic_Estimates_-_January_2015.pdf) (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Cyfoeth Cymru Gyfan: Y Gorffennol a'r Dyfodol* (Llywodraeth Cymru 2011). Ar gael yn <http://llyw.cymru/topics/cultureandsport/museumsarchiveslibraries/cymal/researchandevideance/sharingtreasuresreview/?lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Professional Development ([Museumsassociation.org](http://www.museumsassociation.org) 2015). Ar gael yn <http://www.museumsassociation.org/professional-development> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Cynllun Achredu Amgueddfeydd ac Oriolau yn y Deyrnas Unedig: Y Safon Achredu* (Arts Council England 2011). Ar gael yn <http://llyw.cymru/topics/cultureandsport/museumsarchiveslibraries/cymal/museums/accreditation/?lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr (VAQAS)* (Llywodraeth Cymru 2015). Ar gael yn <http://llyw.cymru/topics/tourism/gradingl1/schemes/vaqascymru/?lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Cynllun y Trydydd Sector* (Llywodraeth Cymru 2014). Ar gael yn <http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/voluntarysector/?skip=1&lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Charities (Accounts and Reports) Regulations 2008 SI 2008/629. Ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2008/629/regulation/6/made> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Charities Act 2011 Pt I. Ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2011/25/contents> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Deaner, B. a Phillips, D. *Scenarios for the Welsh Government Budget to 2025–26* (Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid 2013)

Deddf Lywodraeth Leol 1972: Caniatad Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003. Ar gael yn <http://llyw.cymru/about/foi/publications-catalogue/circular/circulars03/NAFWC412003?skip=1&lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Deddf Llywodraeth Leol 2000: Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru Y Pŵer i Hybu neu Wella Lles Economaidd, Cymdeithasol neu Amgylcheddol (Llywodraeth Cymru 2013). Ar gael yn <http://llyw.cymru/topics/localgovernment/publications/statutory-guidance-ese-la-act-2000/?skip=1&lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

EFQM, The EFQM Excellence Model ([www.efqm.org](http://www.efqm.org) 2015) <http://www.efqm.org/the-efqm-excellence-model> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Gee, K. *Business Sustainability Report* (Llywodraeth Cymru 2013. Adroddiad heb ei gyhoeddi)

Gee, K., ac Arthur, J., *Common Cause. North and Mid Wales Museum Partnership Study* (Volition Associates 2008). Ar gael yn [http://www.wrexham.gov.uk/english/heritage/common\\_cause/](http://www.wrexham.gov.uk/english/heritage/common_cause/) (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Going Further – The National Strategy for Scotland’s Museums and Galleries.* (Museums Galleries Scotland 2012). Ar gael yn <http://tinyurl.com/ocfyqhv> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Government of Wales Act 2006. Ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Hallmarks of Prospering Museums* (Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol 2015). Ar gael yn [http://www.aim-museums.co.uk/content/aim\\_hallmarks/](http://www.aim-museums.co.uk/content/aim_hallmarks/) (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Henderson, J., Kerr, L-A. a Gwilt, D. (2014). *The Distributed National Collection in Wales – Conservation on the national agenda.* ICOM-CC Rhagargraffiadau'r 17eg Gynhadledd Deirblynyddol, Melbourne, 15-19 Medi 2014, gol. J. Bridgland, erth. 1501, 9 tud. Paris:

Cyngor Rhyngwladol yr Amgueddfeydd. Ar gael yn [http://orca.cf.ac.uk/67730/1/1501\\_144\\_HENDERSON\\_ICOM-CC\\_2014.pdf](http://orca.cf.ac.uk/67730/1/1501_144_HENDERSON_ICOM-CC_2014.pdf) (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Inbound Tourism to Britain's Nations and Regions* (VisitBritain 2013). Ar gael yn <http://tinyurl.com/ok78sy6> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Investors in People, The Journey to Accreditation ([www.investorsinpeople.co.uk](http://www.investorsinpeople.co.uk) 2015) <http://www.investorsinpeople.co.uk/the-journey> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Local Government (Wales) Act 1994. Ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1994/19/schedule/1> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Local Government Act 1972. Ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1972/70/contents> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Local Government Finance Act 1988. Ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1988/41/contents> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

London Museums Group, Share Academy ([www.londonmuseumsgroup.org](http://www.londonmuseumsgroup.org) 2015). <http://www.londonmuseumsgroup.org/share-academy/> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Llywodraeth Cymru, Ymweliadau ag atyniadau twristiaeth, (*llyw.cymru*) Ar gael yn <http://gov.wales/statistics-and-research/visits-tourist-attractions/?skip=1&lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Mapping capacity building needs for the Heritage Sector* (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2013. Adroddiad heb ei gyhoeddi).

McGowan, H. *A Feasibility Study to Investigate Potential Collaboration in North East Wales* (2011. Adroddiad heb ei gyhoeddi).

Morris, Yr Athro B., Y Comisiwn Sefydlog ar Amgueddfeydd ac Oriolau *Report on Museums in Wales* (Llyfrfa Ei Mawrhydi 1981)

Norfolk Museums Service, SHARE Museums East – A network of know how ([sharemuseumseast.org.uk](http://sharemuseumseast.org.uk) 2014) <http://sharemuseumseast.org.uk/> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Northern Ireland Museums Policy* (Yr Adran dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Hamdden, Gogledd Iwerddon. Dim dyddiad). Ar gael yn <http://www.dcalni.gov.uk/index/museums-r08-2/museums-r08.htm> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020* (Llywodraeth Cymru 2013). Ar gael yn <http://llyw.cymru/topics/tourism/development1/partnershipforgrowth/?skip=1&lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Pecyn Cymorth Gwaredu. Canllawiau i Amgueddfeydd* (Cymdeithas yr Amgueddfeydd 2014). Ar gael yn <http://www.museumsassociation.org/collections/disposal-toolkit> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Pillars of the Community: the Transfer of Local Authority Heritage Assets: Summary* (English Heritage / Historic England 2014). Ar gael yn <http://tinyurl.com/qybxxl3> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Proffiliau Twristiaeth Awdurdodau Lleol - 2010-12* (Llywodraeth Cymru 2014). Ar gael yn <http://llyw.cymru/statistics-and-research/local-authority-tourism-profiles/?lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Public Libraries & Museums Act 1964. Ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1964/75> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Revenue Outturn Forms, Local Government Finance Statistics 2013-14* (Llywodraeth Cymru 2014. Heb ei gyhoeddi)

*Rhaglen Lywodraethu – Addysg* (Llywodraeth Cymru 2011). Ar gael yn <http://llyw.cymru/about/programmeformgov/education/?lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Rhaglen Lywodraethu – Diwylliant a Threftadaeth Cymru* (Llywodraeth Cymru 2011). Ar gael yn <http://llyw.cymru/about/programmeformgov/culture/?lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011* (Llywodraeth Cymru 2013). Ar gael yn <http://wales.gov.uk/tohttp://wales.gov.uk/topics/cultureandsport/museumsarchiveslibraries/cymal/museums/spotlight-on-museums-2011/?lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Smith, Yr Athro Dai *Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru* (2013). Ar gael yn <http://gov.wales/docs/dcells/publications/130920-arts-in-education-cy.pdf> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Strategaeth Amgueddfeydd Cymru* (Llywodraeth Cymru 2010). Ar gael yn <http://llyw.cymru/topics/cultureandsport/museumsarchiveslibraries/cymal/museums/strategy/?lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Strategaeth Marchnata Amgueddfeydd ar gyfer Cymru 2013-2016. Crynodeb Gweithredol* (Creative Cultures Associates 2013). Ar gael yn <http://archiveswales.org.uk/fileadmin/arcw/Museums Toolkit/Crynodeb Gweithredol.pdf> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Taking Part 2014/15 Quarter 3 Statistical Release March 2015* (Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon 2015). Ar gael yn <https://www.gov.uk/government/statistics/taking-part-201415-quarter-3-statistical-release> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*The Future of Northern Ireland's Local Museum Services* (Cyngor Amgueddfeydd Gogledd Iwerddon 2012). Ar gael yn <http://www.nimc.co.uk/research-and-publications/> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

The National Council for Voluntary Organisations, Charities Evaluation Services, PQASSO ([www.ces-vol.org.uk](http://www.ces-vol.org.uk) 2015). Ar gael yn <http://www.ces-vol.org.uk/PQASSO/pqasso-wales> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

The National Council for Voluntary Organisations, Investing in Volunteers (*iiv.investinginvolunteers.org.uk* 2015). Ar gael yn <http://iiv.investinginvolunteers.org.uk/inyourcountry/iiv-wales#welsh> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Adroddiad Williams)* (Llywodraeth Cymru 2014). Ar gael yn <http://gov.wales/topics/improvingpublic-service-governance-and-delivery/report/?lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Y Comisiwn Sefydlog ar Amgueddfeydd ac Oriolau *Survey of Provincial Museums & Galleries* (Llyfrfa Ei Mawrhydi 1967)

*Y Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* (Llywodraeth Cymru 2015). Ar gael yn <http://llyw.cymru/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

Y Trydydd Sector, *Fundraising survey: Giving is still strong - but what about trust?* ([www.thirdsector.co.uk](http://www.thirdsector.co.uk) 2015). Ar gael yn <http://www.thirdsector.co.uk/fundraising-survey-giving-strong-trust/fundraising/article/1339736> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)

*Ystadegau Ariannol Llywodraeth Leol Cymru* (Llywodraeth Cymru 2004-2013). Ar gael yn <http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-local-government-financial-statistics/?lang=cy> (Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2015)



# Atodiad A – Cylch Gorchwyl

## 1. Cyflwyniad

1.1. Yn dilyn cyhoeddiad yng nghynhadledd Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru ym mis Mawrth, mae'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth wedi cadarnhau, ar sail yr esiampl a osodwyd gan lyfrgelloedd, ei fod yn comisiynu adolygiad arbenigol o gynlluniau presennol yr awdurdodau lleol a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau amgueddfeydd lleol yng Nghymru. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried modelau darparu newydd sy'n seiliedig ar weithio mewn partneriaeth.

1.2. Deddfwriaeth galluogi yw'r holl ddeddfwriaeth yn ymwneud â darpariaeth amgueddfeydd lleol yng Nghymru a Lloegr. Nid oes dyletswydd statudol i ddarparu amgueddfeydd lleol.

1.3. Mae'r Cynllun Achredu ar gyfer Amgueddfeydd ac Oriolau yn y DU yn safon ansawdd sylfaenol sy'n helpu amgueddfeydd i fod ar eu gorau ar gyfer y defnyddwyr presennol a defnyddwyr y dyfodol. Mae'n diffinio safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer amgueddfeydd o ran:

1.3. The Accreditation Scheme for Museums and Galleries in the UK is a baseline quality standard that helps guide museums to be the best they can be, for current and future users. It defines agreed standards for museums in:

- sut maent yn cael eu rhedeg
- sut maent yn rheoli eu casgliadau
- profiadau'r defnyddwyr.

Dim ond yr amgueddfeydd lleol sy'n rhan o'r Cynllun Achredu sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn.

## 2. Cefndir

2.1. Ar hyn o bryd caiff amgueddfeydd achrededig yng Nghymru eu darparu gan 19 gwasanaeth amgueddfa awdurdod lleol, 30 ymddiriedolaeth elusennol annibynnol (gan gynnwys pedwar amgueddfa Gatrodol), yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (sy'n rhedeg 12 amgueddfa) a phedwar prifysgol. Mae naw amgueddfa arall yn gweithio tuag at gael Achrediad.

2.2. Ers 2004, mae Llywodraeth Cymru, drwy is-adran CyMAL, wedi arwain ar ddull strategol o ddatblygu amgueddfeydd mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru. Buddsoddwyd dros £5 miliwn i wella amgueddfeydd lleol, darparu cynllun hyfforddi cenedlaethol a hyrwyddo partneriaethau rhanbarthol. O ganlyniad, Cymru gyhoeddodd y strategaeth genedlaethol gyntaf yn y DU ar gyfer datblygu amgueddfeydd.

2.3. Lluniwyd Strategaeth Amgueddfeydd Cymru yn dilyn ymgynghoriad helaeth â'r sector, a chafodd gefnogaeth eang. Mae'n amlinellu agenda gyffredin ar gyfer datblygu amgueddfeydd, sy'n seiliedig ar y safon Achredu, ac yn cynnig camau gweithredu realistig y gall amgueddfeydd o bob maint eu cymryd i wella gwasanaethau a dangos manteision amgueddfeydd i'r gymdeithas gyfan, yn enwedig mewn cyfnodau anodd.

2.4. Mae'r Strategaeth yn rhoi pwyslais ar weithio mewn partneriaeth yn y sector a thu hwnt.

2.5. Mewn ymateb i'r cyd-destun ariannol heriol sydd ohoni, mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn mynd ar drywydd neu'n ystyried cynigion a fydd yn cael effaith sylweddol ar wasanaethau amgueddfeydd yng Nghymru. I greu model mwy cadarn a chynaliadwy ar gyfer darparu a rheoli amgueddfeydd lleol, mae'r Dirprwy Weinidog wedi comisiynu adolygiad arbenigol.

### 3. Diben yr adolygiad arbenigol

3.1. Mae dau ddiben i'r adolygiad hwn:

- Bydd yn adolygu'r newidiadau arfaethedig gan awdurdodau lleol i'r ddarpariaeth amgueddfeydd lleol o fis Ebrill 2014 er mwyn asesu a yw'r dulliau gweithredu diwygiedig yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon ar draws Cymru, gan dynnu sylw at arferion gorau ac unrhyw faterion sy'n peri pryder.
- Bydd yn nodi modelau cynaliadwy posibl ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol a fydd yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a geir drwy gydweithredu, gweithio mewn partneriaeth ac arloesi.

### 4. Cwmpas yr adolygiad

4.1. Caiff cwmpas yr adolygiad ei gyfyngu i Amgueddfeydd Achrededig yng Nghymru sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol, neu amgueddfeydd annibynnol sy'n cael cymorth ariannol neu gymorth arall gan yr awdurdodau lleol. Bydd yn ystyried cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, ynghyd â'r cydweithio presennol rhwng amgueddfeydd lleol, Casgliad y Werin Cymru ac Amgueddfa Cymru, er mwyn gwella mynediad i gasgliadau, rhannu gwybodaeth a hyrwyddo amgueddfeydd fel lleoedd i ymweld â nhw.

4.2. Bydd yr Adolygiad yn seiliedig ar dystiolaeth. Caiff tystiolaeth fanwl ei chasglu ynghylch y canlynol:

- y ddarpariaeth bresenno
- cynigion ar gyfer darparu gwasanaethau amgueddfeydd awdurdodau lleol yn y dyfodol ar ôl Ebrill 2014 o ran:
  - strategaethau lleol
  - ymgyngoriadau
  - asesiadau effaith (dyletswyddau cydraddoldeb cyrff cyhoeddus o dan Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010)
- sylwadau rhanddeiliaid

- effaith tebygol y newidiadau ar berfformiad ar gyfer Strategaeth Amgueddfeydd Cymru 2016-2012.
- enghreifftiau o arferion gorau sy'n bodoli eisoes o ran cydweithio a chyd-leoli gwasanaethau
- cymariaethau â strategaethau amgueddfeydd cenedlaethol eraill

4.3. Ar ôl archwilio'r sefyllfa bresennol, bydd yr Adolygiad yn ystyried modelau cynaliadwy posibl ar gyfer darparu gwasanaethau a nodwyd yn sgil ymchwil (yn y DU a thramor) a thystiolaeth gan randdeiliaid ar:

- y tueddiadau yn y dyfodol o ran darpariaeth amgueddfeydd
- dulliau addas o ddarparu gwasanaethau
- fframweithiau deddfwriaethol addas.

## 5. Y broses

5.1. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi cytuno i'r cylch gorchwyl ac wedi penodi panel arbenigol annibynnol sy'n cael ei gadeirio gan Dr Haydn E Edwards.

5.2. Bydd y panel yn cael ei gefnogi gan swyddogion yn is-adran CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.

5.3. Bydd yr adolygiad yn:

- nodi canfyddiadau'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ac adroddiad y Farwnes Kay Andrews, sef Culture and Poverty; Harnessing the Power of the Arts, Culture and Heritage to Promote Social Justice in Wales, ynghyd â'r cynllun cyflawni dilynol.
- nodi'r cyfeiriad polisi ar gyfer twristiaeth yng Nghymru fel yr amlinellwyd yn 'Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru 2013-2020'
- nodi canfyddiadau'r adroddiadau canlynol a ariannwyd gan CyMAL:
  - Astudiaeth Gyffredin – Astudiaeth Partneriaethau Amgueddfeydd Gogledd a Chanolbarth Cymru, 2008, Kathy Gee a Jane Arthur, Volition Associates [http://www.wrexham.gov.uk/welsh/heritage/common\\_cause/](http://www.wrexham.gov.uk/welsh/heritage/common_cause/)
  - 'A Feasibility Study to Investigate Potential Collaboration in North East Wales', Hilary McGowan 2011
  - Business Sustainability Report, Kathy Gee, 2013
- ystyried tystiolaeth o'r arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011
- ystyried tystiolaeth a gasglwyd o gynlluniau cyllidebol amgueddfeydd lleol fel y'u cyflwynwyd at ddibenion Achredu
- ystyried canfyddiadau adolygiadau llenyddiaeth ac arolygon cymharol.

## 6. Rhanddeiliaid â diddordeb

Yn ogystal, bydd y Panel Cyfeirio'n ystyried tystiolaeth yn ymwneud â'r canlynol:

- Effaith newidiadau arfaethedig yr awdurdodau lleol ar amgueddfeydd annibynnol
- Defnyddwyr yr amgueddfeydd a'r rheini nad ydynt yn eu defnyddio
- Grwpiau cymunedol
- Sefydliadau proffesiynol
- Cyrff yn y sector cyhoeddus
- Sefydliadau eraill yn y trydydd sector
- Sefydliadau ac ymddiriedolaethau yn y sector preifat

## 7. Yr amserlen a'r prif gerrig milltir

Cam 1	
Hydref 2014	Datblygu'r Cylch Gorchwyl drafft  Penodi aelodau'r Panel Cyfeirio Arbenigol gan y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Mai 2015	Cyflwyno'r adroddiad drafft cychwynnol i'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Cam 2	
Mehfin – Gorffennaf 2015	Cytuno ar adroddiad yr adolygiad â'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  Dechrau'r ymgynghoriad â'r sector ar fodelau posibl ar gyfer ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol
Medi 2015 – Hyd 2015	Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn ystyried y dystiolaeth o'r adroddiad a'r ymgynghoriad
Hydref 2015	Cyhoeddi cynigion newydd a'r gwaith cynllunio'n dechrau

## 8. Allbynnau

8.1. Ar ddiwedd Cam 1, bydd y Panel Arbenigol yn cyflwyno adroddiad Cymru gyfan a fydd yn darparu ymchwil, dadansoddiad a sylwadau ar y modd y darperir gwasanaethau amgueddfeydd lleol ar hyn o bryd, ynghyd ag argymhellion ar nifer gyfyngedig o fodelau posibl ar gyfer y dyfodol.

8.2 Yng Ngham 2, cynhelir proses ymgynghori ar y modelau newydd posibl ar gyfer darparu gwasanaethau ac wedyn eir ati i ddatblygu cynllun cyflawni ar gyfer y ddarpariaeth amgueddfeydd lleol fel rhan o'r strategaeth genedlaethol nesaf ar gyfer amgueddfeydd a gyhoeddir yn 2016.

## Atodiad B – Y Panel

Dr Haydn E Edwards yw Is-lywydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac mae'n un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Estyn. Yn dilyn gyrfa ym meysydd gwyddoniaeth a rheolaeth addysgol ymddeolodd o'i swydd fel Pennaeth a Phrif Weithredwr Coleg Menai yn 2009. Yn ddiweddar cadeiriodd ddau adolygiad ar ran Llywodraeth Cymru - sef y gwasanaeth Gyrfaoedd a darpariaeth Cymraeg i Oedolion.

Mae Adrian Babbidge yn gynghorydd annibynnol yn y sector amgueddfeydd a threftadaeth ac mae ei waith yn cwmpasu llywodraethu, strategaeth, trefniadaeth, cynllunio busnes, cyllid a materion cyfreithiol. Ac yntau'n frodor o Dorfaen, mae bellach yn byw yn Llundain ac yn gweithio gydag amrywiaeth eang o gleientiaid yn y DU a thramor, gwaith y mae'n ei gyfuno ag addysgu, ymchwil a sylwebu.

Yr Athro Gaynor Kavanagh, sy'n hanu o Bont-y-pŵl, yw Deon Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae wedi cyhoeddi tri llyfr ar amgueddfeydd, gan gynnwys *Museums and the First World War* (1994) a *Dream Spaces: Memory and the Museum* (2000) ac mae wedi golygu saith detholiad o draethodau ar arfer amgueddfeydd. Bu'n gynghorydd i'r Amgueddfa Reilffordd Genedlaethol, Caerefrog, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Mae Peter Gomer yn cynrychioli Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn dilyn gyrfa mewn Llywodraeth Leol ym meysydd Hamdden, Diwylliant, Llyfrgelloedd, Dysgu Gydol Oes a Gwasanaethau Ieuenctid, ymddeolodd yn 2011 o'i swydd fel Cyfarwyddwr Addysg Cynorthwyol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Ers 2011 bu'n gweithio i CLILC fel Swyddog Polisi ar gyfer Hamdden, Llyfrgelloedd, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant cyn ymddeol yn 2014. Roedd yn aelod o'r Panel a gynrychiolodd CLILC ar yr Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru 2014.



Ar y brig, o'r chwith i'r dde: Dr Haydn E Edwards, Peter Gomer  
Ar y gwaelod: Yr Athro Gaynor Kavanagh, Adrian Babbidge



# Atodiad C – Rhestr o Gyfranwyr / Ymatebion a Gafwyd gan Randdeiliaid

## Ymatebion Ysgrifenedig

Ymddiriedolaeth Chardon / Amgueddfa Llandudno

Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, Blaenau Gwent

Ann Dorsett

Bob Trett

Yr Is-Gadfridog Jonathon Riley, Ymddiriedolaeth Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Cymreig

Jack Hanbury, Ystad Parc Pont-y-pŵl

Amgueddfa ac Oriol Gelf Dinbych-y-pysgod

Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Fynwy

Ken Davies, Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan.

Cyngor Sir Penfro

Christian Baars

Amgueddfa Abertawe

Wendy James, Garbers & James

Cyfeillion Llong Casnewydd

Amgueddfa'r Tŷ Weindio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Gwasanaethau Treftadaeth Cyngor Rhondda Cynon Taf

Canolfan Treftadaeth ac Ymddiriedolaeth Amgueddfa Tunplat Cydweli

Richard Davies, Amgueddfa Gatrodol Catrawd Frenhinol Cymru

Gwyneth Kensler, Bwrdd Amgueddfa Dinbych

Cyngor Sir Caerfyrddin

Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru

Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Fynwy

Sam Hunt

Kevin Mason

Fiona Talbott, Cronfa Dreftadaeth y Loteri

ICON: The Institute of Conservation

Sally Moss

Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru

Gwasanaeth Amgueddfeydd Gwynedd

## Cyfarfodydd gyda Chynrychiolwyr y Sector

Kevin Mason, Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan

John Marjoram

David Anderson, Amgueddfa Cymru

Judith Ingram, Amgueddfa Cymru

Neil Wicks, Amgueddfa Cymru

Jennifer Stewart, Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Martin Buckridge, Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Stephen Barlow, Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Sharon Heal, Cymdeithas yr Amgueddfeydd

Heledd Fychan, Cymdeithas yr Amgueddfeydd

Tamalie Newbery, Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol

Justin Albert, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Elizabeth Green, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Emily Keenan, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Rachael Silversson, Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru

Rachael Rogers, Ffederasiwn Amgueddfeydd  
ac Oriolau Celf Cymru

Kate Clarke, Llywodraeth Cymru

Rhian Edwards, Canolfan Cydweithredol  
Cymru

Peter Williams, Cymdeithas  
Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru

Linda Tomos, Llywodraeth Cymru

## Cyfarfodydd Rhanbarthol: 2 Chwefror 2015, Cyffordd Llandudno

Sophie Fish, Cyngor Sir y Fflint

Stephen Greuter, Gwasanaeth Treftadaeth  
Wrecsam

Roy Haley, Ymddiriedolaeth Chardon,  
Amgueddfa Llandudno

Hazel Hawarden, Amgueddfa Llandudno

Peter Knox, Amgueddfa'r Ffiwsilwyr  
Cymreig, Caernarfon

John Marjoram, Ffederasiwn Amgueddfeydd  
ac Oriolau Celf Cymru

Kevin Mason, Ymddiriedolaeth Castell  
Bodelwyddan

Morrigan Mason, Ymddiriedolaeth Castell  
Bodelwyddan

Delyth Molyneux, Cyngor Sir Ynys Môn

Karen Murdoch, Amgueddfa Wrecsam

Esther Roberts, Amgueddfa ac Oriol Gelf  
Gwynedd, Bangor

Pat West, Cyngor Sir Ynys Môn

Shirley Williams, Amgueddfa'r Ffiwsilwyr  
Cymreig, Caernarfon

Chris Wright, Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes  
Glas

Dennis Roberts, Bythynnod Penmaenmawr

Ann Lloyd Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Conwy

Morfanwy Baines, Bythynnod  
Penmaenmawr

## Cyfarfod Rhanbarthol: 11 Mawrth 2015, Merthyr Tudful

Barbara Bartl, Gwasanaeth Amgueddfeydd  
a Threftadaeth Casnewydd, Cyngor Dinas  
Casnewydd

David Bassett, Cymdeithas Archeolegol  
Caerdydd

Nigel Blackamore, Amgueddfa Brycheiniog,  
Cyngor Sir Powys

Diane Brook, Cymdeithas Archeolegol  
Caerdydd

Jeff Brooks, Cyfeillion Llong Casnewydd

Michael Cavanagh, Cyngor Sir Penfro

Philip Cox, Cyfeillion Llong Casnewydd

Jane Davies, Cyngor Sir Caerfyrddin

Steve Davies, Ymddiriedolaeth Hamdden  
Merthyr Tudful

Megan de Silva, Gwasanaeth  
Amgueddfeydd Cyngor Sir Fynwy

Chris Delaney, Chris Delaney Associates

Peter Dutton

Harriet Eaton, Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Castell-nedd Port

Gareth El Tawab, Amgueddfa Abertawe,  
Dinas a Sir Abertawe

Gavin Evans, Cyngor Sir Caerfyrddin

Richard Frame, Cyfeillion Amgueddfa ac  
Oriol Gelf Casnewydd

Christabel Hutchings, Cymdeithas  
Hynafiaethwyr Sir Fynwy

Jane Henderson, Prifysgol Caerdydd a  
Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru

Anita Hobbs, Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Blaenau Gwent

Les James, Cyfeillion Amgueddfa ac Oriol  
Gelf Casnewydd

Malcolm MacDonald, Amgueddfa  
Ddiwydiannol Cydweli

Nicholas McDonald, Dinas a Sir Abertawe

David Moore, Ffenest Gam, Aberhonddu  
Sally Moss  
Frank Olding, Ymddiriedolaeth Hamdden  
Aneurin  
David Osmond, Cyfeillion Amgueddfa ac  
Oriol Gelf Casnewydd  
Morwenna Perrott, Amgueddfa Pontypridd  
Kelly Powell, Ymddiriedolaeth Hamdden  
Merthyr Tudful  
Jonathon Poyner, Canolfan Mileniwm Cymru  
Anne Rainsbury, Gwasanaeth  
Amgueddfeydd Cyngor Sir Fynwy  
Victoria Rogers, Amgueddfa Stori Caerdydd,  
Cyngor Dinas Caerdydd  
Christopher Dale, Firing Line: Amgueddfa'r  
Milwr Cymreig, Castell Caerdydd  
Peter Strong, Cyngor Hanes Lleol Gwent  
Kathy Talbot, Amgueddfa ac Oriol Gelf  
Dinbych-y-pysgod  
Ashleigh Taylor, Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Torfaen  
Joanne Terry, Gwasanaeth Amgueddfeydd  
Cyngor Sir Fynwy  
Cath Thomas, Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Torfaen  
Bob Trett, Cyfeillion Amgueddfa ac Oriol  
Gelf Casnewydd  
Neil Westerman, Amgueddfa ac Oriol Gelf  
Dinbych-y-pysgod  
Ian Williams, Amgueddfa ac Oriol Gelf  
Dinbych-y-pysgod  
Martin Little, Amgueddfa a Chymdeithas  
Hanesyddol Porthcawl  
Richard Davies, Amgueddfa Gatrodol  
Catrawd Frenhinol Cymru, Aberhonddu  
John Sellwood, Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Merthyr Tudful  
Corinne Havard, Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Rhondda Cynon Taf

## Ymatebion a Gafwyd gan Awdurdodau Lleol yn 2014

Abertawe  
Blaenau Gwent  
Caerdydd  
Caerffili  
Casnewydd  
Castell-nedd Port Talbot  
Ceredigion  
Conwy  
Gwynedd  
Merthyr Tudful  
Pen-y-bont ar Ogwr  
Powys  
Rhondda Cynon Taf  
Sir Benfro  
Sir Ddinbych  
Sir Gaerfyrddin  
Sir Fynwy  
Sir y Fflint  
Torfaen  
Wrecsam  
Ynys Môn

# Atodiad Ch: Rhestr o Amgueddfeydd Achrededig yng Nghymru

## Amgueddfeydd Cenedlaethol

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion

Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre

Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon

Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, Caerdydd

## Amgueddfeydd Awdurdodau Lleol

### Abertawe

Amgueddfa Abertawe

Oriel Gelf Glynn Vivian

### Caerdydd

Castell Caerdydd

Amgueddfa Stori Caerdydd

### Caerffili

Tŷ Weindio

### Casnewydd

Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd

### Ceredigion

Amgueddfa Ceredigion

### Gwynedd

Amgueddfa ac Oriel Gwynedd

Amgueddfa Lloyd George a Highgate

### Merthyr Tudful

Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa

Bwthyn ac Amgueddfa Joseph Parry

### Powys

Amgueddfa Brecknock

Amgueddfa Llanidloes

Amgueddfa Powysland

Amgueddfa Sir Faesyfed

Amgueddfa Tecstilau'r Drenewydd

### Rhondda Cynon Taf

Amgueddfa Cwm Cynon

Amgueddfa Pontypridd

### Sir Benfro

Amgueddfa Maenor Scolton

Bwthyn Penrhos

### Sir Ddinbych

Amgueddfa'r Rhyl

Carchar Rhuthun

Plas Newydd

### Sir Fynwy

Amgueddfa Abergavenny

Amgueddfa Cas-gwent

Amgueddfa Nelson a Chanolfan Hanes Lleol

Castell Cil-y-Coed

### Sir Gaerfyrddin

Amgueddfa ac Oriol Parc Howard  
Amgueddfa Sir Gaerfyrddin  
Amgueddfa Tref Caerfyrddin  
Yr Amgueddfa Cyflymder, Pentywyn

### Sir y Fflint

Llyfrgell, Amgueddfa ac Oriol Bwcle  
Llyfrgell, Amgueddfa ac Oriol Yr Wyddgrug

### Wrecsam

Amgueddfa Bwrdeistref Sirol Wrecsam  
Canolfan Treftadaeth a Gwaith Haearn y Bers

### Ynys Môn

Amgueddfa Melin Llynnon  
Carchar a Llys Biwmares  
Oriol Ynys Môn

### Amgueddfeydd Annibynnol

Amgueddfa Abertillery a'r Cylch  
Amgueddfa ac Oriol Gelf Dinbych-y-Pysgod  
Amgueddfa ac Oriol Rhaeadr Gwy (CARAD)  
Amgueddfa Arberth  
Amgueddfa Forwrol Caergybi  
Amgueddfa Brynmawr a'r Cylch  
Amgueddfa Bythynnod Penmaenmawr  
Amgueddfa Cerflunwaith Andrew Logan, Berriew  
Amgueddfa Dreftadaeth Blaina  
Amgueddfa Dyffryn Maes Glas

Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli

Amgueddfa Llangollen

Amgueddfa Llandudno

Amgueddfa Pont-y-pwl

Amgueddfa Porthcawl

Amgueddfa Robert Owen, Y Drenewydd

Amgueddfa Rheilffyrdd Bach Cul, Tywyn

Amgueddfa Syr Henry Jones, Llangernyw

Amgueddfa Tredegar a'r Cylch

Amgueddfa Tref Hwlfordd

Amgueddfa Treftadaeth ac Arforol Aberdaugleddau

Amgueddfa'r Bathdy Brenhinol, Llantrisant

Amgueddfa Ymddiriedolaeth Archifol Glyn Ebwy

Amgueddfa'r Hen Gloch, Trefaldwyn

Gwefr Heb Wifrau, Dinbych

Llety'r Barnwr, Llanandras

Oriol Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog

Rheilffordd Fach y Rhyl

Sefydliad Morwyr Y Bermo

Tân Mewnol: Amgueddfa Pŵer, Tanygroes

Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan

Ymddiriedolaeth Treftadaeth Cymunedol Porthaethwy



## Amgueddfeydd Prifysgol

Amgueddfa Casgliad Celf Prifysgol  
Morgannwg

Canolfan yr Aifft, Prifysgol Abertawe

Prifysgol Aberystwyth, Oriel ac Amgueddfa'r  
Ysgol Gelfyddyd

Prifysgol Aberystwyth, Oriel Cerameg

## Amgueddfeydd Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Castell Penrhyn

Castell y Waun

Erddig

Llanerchaeron

Parc a Chastell Dinefwr

Plas Newydd, Llanfairpwllgwyngyll

Plas yn Rhiw

Tolldy a Phont Grog Conwy

Tŷ a Pharc Tredegar

Tŷ Aberconwy

Tŷ Masnachwr Tuduraidd, Dinbych-y-Pysgod

Tŷ Mawr Wybrnant, Dolwyddelan

## Amgueddfeydd Gatrodol

Amgueddfa Gatrodol Brenhinol Cymreig,  
Aberhonddu

Amgueddfa'r Castell a'r Gatrawd Trefynwy

Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig,  
Caernarfon

Firing Line, Amgueddfa'r Milwr Cymreig,  
Castell Caerdydd

## Amgueddfeydd sy'n gweithio tuag at Achrediad

Amgueddfa Celfyddyd Fodern Cymru,  
Machynlleth

Amgueddfa Glowyr De Cymru, Cwm Afan

Amgueddfa Forwrol Llŷn, Nefyn

Amgueddfa Forwrol Porthmadog

Amgueddfa Treftadaeth Cwm Aber

Amgueddfa'r Bont-faen a'r Cylch

Ffynnon Santes Gwenfrewi, Treffynnon

Treftadaeth Gymunedol Blaenafon ac  
Amgueddfa Cordell

Yr Ysgwrn, Trawsfynydd

Ysbyty Chwarel, Llanberis

## Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill ar gael os gofynnir amdanynt.

### Manylion cyswllt

Tîm Datblygu Amgueddfeydd  
Is-Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd  
Llywodraeth Cymru  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
SY23 3UR

E-bost: [MALD@cymru.gsi.gov.uk](mailto:MALD@cymru.gsi.gov.uk)

Ffôn: 0300 062 2112

Gwefan: <http://gov.wales/topics/cultureandsport/museums-archives-libraries/?skip=1&lang=cy>